# ECO'R WYDDFA

Rhif 160 MEDI 1990 Pris 25c

# CASGLU £350 AT ACHOS DA AR EU GWYLIAU BEICIO




Treulio gwyliau haf dipyn yn wahanol wnaeth Gwyn a Paula Roberts, Bryn Mair, Stryd y Ffynnon eleni — reidio beic Tandem o Land's End i John O'Groats, 1001 o filltiroedd.

Yr oeddynt wedi mwynhau eu hunain yn fawr, reidio o gwmpas 70 milltir bob dydd ar hyd y ffyrdd distaw er mwyn osgoi y trafnidiaeth mawr, a chyfarfod pobl diddorol a chroesawgar dros ben.

Pymtheg niwrnod a gymerodd y siwrnai i gyd a chasglwyd tua £350 at Ganolfan Cancr 'Life', Bangor.

*Llun: Paula a Gwyn Roberts yn gwenu'n braf er bod 613 milltir o badlo caled i'w wneud cyn cyrraedd Llanberis!*

# AMY YN CADW'I PHEN

## YMATEB MEDDYLGAR MERCH 5 OED



Sawl un ohonoch chi fedar gofio rhif ffôn eich meddyg rwan, y munud yma, heb fynd i edrych i'r llyfr?

Wel ychydig iawn rwy'n siŵr. Merch fach bump oed ydy Amy Candlish o Groeslon Waunfawr. Un dydd doedd yna neb ond Amy a'i mam gartref; yn sydyn, trawodd ei mam ei phen ar ddistyn go isel yn y tŷ, disgynnodd yn anymwybodol a'i phen yn gwaedu.

Heb grio na strancio fel buasai ambell i blentyn bach pump oed yn ei wneud, aeth Amy i nôl dysgl a thywel i roi dan ben ei mam. Yna chwiliodd am rif ffôn y meddyg yn Waunfawr gan roi'r manylion iddo am ddamwain ei mam a'u cyfeiriad. Wrth gwrs chafodd y meddyg ddim trafferth i ddod o hyd i'r tŷ, ac roedd Amy yn ei ddisgwyl yn gwbl hunanfeddiannol!

# 100 OED



*Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Mrs Bertha Warwick o'r Waunfawr ar achlysur ei chanfed penblwydd. Mae ychydig rhagor o'i hanes yng ngholofn newyddion Waunfawr.*

# ALAN YN GWELLA



*Dyma Alan Pritchard, Nant Peris, gyda'i nith fechan sy'n edrych arno gyda'r fath edmygedd.*

*Rai dyddiau'n ôl fe'i cludwyd mewn hofrennydd i Ysbyty Harefield, Middlesex, ble cafodd lawdriniaeth am galon newydd.*

*Y newyddion diweddaraf o'r ysbyty yw bod Alan — sydd ond yn 16 oed, yn gwneud cynnydd ardderchog. Edmygwn ninnau i gyd ei ddewrder a'n dymuniadau gorau am adferiad llwyr a buan.*

# 'BYWYD YN NORMAL YMA . . .'

Geiriau Karen Jones, nyrs 28 oed o Lanberis pan ffoniodd ei rhieni o Baghdad, prifddinas Irac, brynhawn Sul Awst 26.

Cyd-ddigwyddiad rhyfedd oedd bod gohebydd yr Eco yn nhŷ Ken a Mair Jones, rhieni Karen, pan ddaeth yr alwad ffôn. Buont yn sgwrsio am tua 10 munud.

Roedd yn galw o'r Ysbyty ble mae hi wedi gweithio yn yr uned gofal arbennig, adran y plant, ers deunaw mis. Mae'r rhan fwyaf o'r staff yn dod o wledydd Prydain.



Dywedodd wrth ei rhieni ei bod yn iawn a bod 'bywyd yn normal' yn yr ysbyty a'u bod yn cael symud o gwmpas y brifddinas. Roedd y llysgennad Prydeinig wedi bod yn yr ysbyty y bore hwnnw yn siarad â'r staff ac wedi dweud wrthynt y gallasai'r sefyllfa argyfyngus barhau am rhai misoedd.

Meddai Ken Jones: 'Byth ers dechrau'r helyntion yma a'r ansicrwydd yn y Gwlff, mae pobl sy'n ei adnabod wedi bod yn ein holi ynglŷn â Karen.' Dywedodd fod y teulu i gyd yn gwerthfawrogi geiriau caredig a chonsyrn pobl amdani. Ychwanegodd mai peth braf oedd cael galwadau ffôn a deall ei bod mewn hwyliau da, ond y cysur mwyaf, wrth gwrs, fyddai ei chael adref.

# ECO'R WYDDFA

RHIF 161
MEDI 1990

*Argraffwyd gan Wasg Gwynedd Cibyn, Caernarfon.*

*Cyhoeddwyd gyda chymorth Cymdeithas Gelfyddydau Gogledd Cymru.*

**SWYDDOGION A GOHEBWYR**

**GOLYGYDD NEWYDDION CYFFREDINOL:** Twrog Jones, Pros Kairon, Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4051)
**GOLYGYDD ERTHYGLAU:** Dafydd Whiteside Thomas, Bron-y-Nant, Pontrhythallt, Llanrug (C'fon 3515)
**GOLYGYDD NEWYDDION PENTREFI:** Nant Roberts, Arwel, Pontrhythallt (870760)
**GOLYGYDD CHWARAEON:** Dafydd Evans, Sycharth, Penisarwaun (Llanberis 872407)
**ECO'R IFANC:** Mrs Nan Humphreys, Pant Bryngwyn, Tanycoed (C'fon 5668)
**DYDDIADUR Y MIS:** Mrs Olwen Llywelyn, Pant Afon Bach, Llanrug (Waunfawr 200)
**FFOTOGRAFFWYR:** Gwyndaf Jones, 60 Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4669)
Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug (C'fon 77263)
**TREFNYDD HYSBYSEBION:** John Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug (C'fon 5605)
**TREFNYDD GWERTHIANT:** Arwyn Roberts, Hafle, Ffordd yr Orsaf, Llanrug (C'fon 5510)
**TREFNYDD ARIANNOL:** Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug (C'fon 4839)
**TREFNYDD GWERTHIANT POST:** Mrs E Whiteside Thomas, Dolwar, Llanrug (C'fon 4778)
**GOHEBWYR PENTREFI:** Dyma'r bobl i gysylltu â nhw yn eich ardaloedd.
**BETHEL:** Geraint Elis, Cilgeran, (Portdinorwig 670726)
**BRYNREFAIL:** Miss Lowri Prys Roberts, Godre'r Coed (870580)
**CAEATHRO:** Mrs Beryl Roberts, Geraltt, Erw Wen (C'fon 3536)
**CEUNANT:** Gwenno Parri, Morwel (Waunfawr 321)
**CWM-Y-GLO:** Mrs Iris Rowlands, Glanrafon (Llanberis 872275)
**DEINIOLEN:** W O Williams, 6 Rhydfadog, Deiniolen (Llanberis 871259)
**DINORWIG:** Mr D J Thomas, 8 Maes Eilian (870773)
**LLANBERIS:** Gwyneth ac Eifion Roberts, Becws Eryri, 870491.
**LLANRUG:** Mrs Dyfi Jones, Tyddyn Rhuddallt (Caernarfon 76733)
**NANT PERIS:** Mrs Ann Pleming, Dolwen, 8 Nant Ffynnon (871457)
**PENISARWAUN:** Mrs Ann Evans, Sycharth (Llanberis 872407)
**TAN-Y-COED:** Miss Bethan Parry, Ael y Bryn. (872 276)
**WAUNFAWR:** Mrs Nan Roberts, Pantafon, Waunfawr (Waunfawr 570).


**Y RHIFYN NESAF**
Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
**NOS IAU, MEDI 27**
Deunydd i law'r golygyddion perthnasol
**NOS FAWRTH, MEDI 18**
os gwelwch yn dda.

# SWYDD GADWRIAETHOL I DEI TOMOS

**Penodwyd y cyflwynydd teledu a radio Cymraeg, Dei Tomos, yn Is-Gadeirydd y prif fudiad ymgyrchu dros gefn gwlad Cymru, sef Cymdeithas Diogelu Cymru Wledig. Mae'r penodiad yn adlewyrchu rhan bwysig o gynlluniau CDCW i wneud ei gwaith yn fwy perthnasol i'r gymuned Gymraeg, ac i ddenu mwy o aelodau Cymraeg. Bydd hyn hefyd yn sicrhau fod lle mwy amlwg i farn gyhoeddus o'r gogledd, gan fod Dei Tomos yn byw yn Nant Peris ym Mharc Cenedlaethol Eryri.**

Mae Dei Tomos yn gweithio fel newyddiadurwr a darlledwr i'r BBC. Mae'n arbenigo mewn materion amaethyddol a chadwriaethol, ac yn cyflwyno adroddiadau amaethyddol boreol Radio Cymru. Mae hefyd yn cyfrannu i raglen deledu 'Farming in Wales', ac yn cyflwyno'r rhaglen boblogaidd ar gefngwlad a natur, 'Awyr Iach'.

Mae Mr Tomos yn aelod o bwyllgor Parc Cenedlaethol Eryri. Mae hefyd yn gynrychiolydd ar Gyngor Y Parciau Cenedlaethol ac yn Ysgrifennydd Clwb Mynydda Cymru.



Ymunodd â CDCW yn eitha diweddar, wedi i ymdrechion y gymdeithas i ymateb i broblemau traddodiadol y gymuned Gymraeg eu hiaith greu argraff arno. 'Cyhuddir Cymry Cymraeg yn aml o fod yn wrthgadwraeth' meddai Mr Tomos. 'Y gwir yw ein bod ni'n gweld cadwraeth yn rhywbeth mwy eang na chadwraeth tirlun a bywyd gwyllt — rhaid i ni warchod ein hiaith, ein diwylliant a'n ffordd o fyw fel rhan o'r broses.'

Cred Dei Tomos, wedi blynyddoedd o elitiaeth a seisnigeiddio, fod CDCW wedi dechrau ymdreiddio i'r gymuned leol, gan ddenu Cymry Cymraeg a di-Gymraeg. 'Rydym ar fin cael asiantaeth gadwriaethol statudol ein hunain i Gymru — Y Cyngor Cefn Gwlad i Gymru — a chredaf ei bod yn hanfodol fod corff gwirfoddol, poblogaidd o Gymru megis CDCW yn dangos cefnogaeth ac annogaeth iddo. Rwyf yn awyddus iawn i fod yn rhan o'r broses hon' meddai.

# GŴYL GERDD DANT BANGOR A'R CYLCH, TACH. 10, 1990

**Tlws yr Ŵyl:** Bydd pob buddugwr yng Ngŵyl Cerdd Dant Bangor a'r Cylch yn derbyn tlws arbennig yn ogystal â'r wobr ariannol. Mae'r Pwyllgor Gwaith wedi taro ar syniad gwreiddiol eleni sef llwy garu gyda logo'r Ŵyl a'r dyddiad wedi eu cerfio arni.

Gwaith Clifford Edgerton Smith o Adwy'r Nant, Bethesda yw'r llwy. Bydd ganddo dipyn o waith naddu yn ystod y tri mis nesaf!

**Baner yr Ŵyl:** Cynllunio a gwnïo yw crefft Jane Siddall o Gaernarfon ac fel rhan o'i chwrs yn y Coleg Technegol, fe'i gwahoddwyd i lunio baner ar gyfer yr Ŵyl a gwnaeth hithau hynny yn effeithiol gan seilio'i chynllun ar y llun o waith Eirwyn Morris, Ffordd Penrhos, a welir ar glawr y Rhestr Testunau.

Gwyrdd a melyn yw'r lliwiau — lliwiau Coleg y Brifysgol, lle cynhelir yr Ŵyl ar 10 Tachwedd.

**Tri gwaith newydd:** Wedi i Ŵyl '90 fynd heibio fe ddeil yn y cof am fod tri gwaith pur arbennig wedi cael eu comisiynu ac fe'u clywir am y tro cyntaf yn yr Ŵyl eleni.

Yn y llyfr **Ceinciau Bangor** ceir deg cainc osod i ddatgeiniaid gan Menai Williams, Rona Roberts, Gwennant Pyrs, a Morfudd Maesaleg. Fe'u paratowyd yn raenus iawn ar gyfer y wasg gan Menai (pris £2.50).

Megan Morris sydd wedi cyfansoddi'r trefniadau o'r ddwy gân werin **Carol y Blwch** a'r **Hen Erddygan** a rhain yw'r darnau prawf ar gyfer y partïon canu gwerin (Pris 90c). Beirniad Adran y Delyn yw'r Dr Osian Ellis, ac ef gyfansoddodd y darn ar gyfer y ddeuawd telyn agored — **Clymau Cytgerdd** (Pris £6.00). Drwy haelioni Banc y National Westminster a chyfeillion y diweddar Alwena Roberts cynigir ysgoloriaeth o fil o bunnau i'r deuawdwyr.


**Dechrau Canu, Dechrau Canmol:** Bydd uned deledu'r BBC ym Mangor ar 18/19 Medi i recordio dwy raglen yng Nghapel Twrgwyn. Nodwch y dyddiadau.

Ysg: Rhiannon Evans, Nant yr Eira, Tal-y-cae, Tregarth. (Ffôn: 601261).




*Wyn Thomas, is-gadeirydd y Pwyllgor Gwaith yn edmygu baner Gŵyl Cerdd Dant Bangor a'r Cylch.*


CYFLENWYR PORTHIANT
**IDRIS MORRIS**
BWYDYDD ANIFEILIAID ANWES
GWERTHWYR NWY
**Y Fachell**
**Llanddeiniolen**
**Ffôn:**
**Port Dinorwig 670439**



**CRIB COCH**
**Y Sgwâr, Llanrug**
**Ffôn: Caernarfon 76772**
TRIN GWALLT I BAWB O'R TEULU GAN JEN
**Ffoniwch neu galwch i drefnu amser**

# I'CH DIDDORI

## – CWMNIAU BARA CAWS A HWYL A FFLAG AR GRWYDR

### POEN Y PÎN

Derbyniodd Bara Caws gais arbennig o'r gymuned i ddarparu sioe am goedwigaeth. Felly dyma ni ar daith unwaith eto gyda sioe newydd danlli — 'Poen y Pîn'.

Mae'r sioe yn trafod yr effaith andwyol y mae plannu coed pîn unffurf wedi ei gael ar fywyd cefn gwlad. Y mae erydiad wedi digwydd, nid yn unig ar y tir ond ar y bobol!

Rifiw fywiog, liwgar, yn dechrau yng nghyfnod y rhyfel byd cyntaf ac yn olrhiain hanes teulu mewn tyddyn ar ucheldir Cymru, a'r cefndir cythryblus ac anghenus sy'n llywio eu bywydau.

Defnyddir pob math o arddulliau theatrig, caneuon a dawns i gyflwyno'r ffactorau allanol hyn sy'n dylanwadu ar fywydau y teulu yma, a thrafodir problemau megis meddiannu tiroedd, cyflogi gweithwyr estron a llygredd.

Sioe berthnasol i Gymru gyfan yw 'Poen y Pîn' ac yn wir i bob gwlad lle mae ffordd o fyw a chymunedau cyfan yn diflannu.

Ysgrifennwyd y sioe ar y cyd gan Valmai Jones a Mair Gruffydd. Bydd Valmai Jones yn cynhyrchu, a Matthew Aran yn cyd-gynhyrchu. Yr actorion yw: Maldwyn John, Alun Elidyr, Janet Aethwy a Jonathan Nefydd. Dyma'r tro cyntaf i Alun a Jonathan weithio gyda Bara Caws. Sioned Webb sydd yng ngofal y gerddoriaeth. Mae Sioned hefyd yn wyneb newydd i'r cwmni. Emyr Morris Jones yw'r cynllunydd.

Bydd 'Poen y Pîn' yn cychwyn teithio o Fedi 11 hyd Hydref 13. Mae'r cynhyrchiad yn addas i'r teulu cyfan.

Y canolfanau agosaf at fro'r Eco, ble gellwch weld perfformiad yw: Ysgol Dyffryn Nantlle, Penygroes — Medi 12; Ysgol Dyffryn Ogwen, Bethesda — Medi 26; Neuadd Goffa Y Felinheli — Hydref 10; Neuadd JP, Y Coleg Normal, Bangor — Hydref 13.

Am unrhyw fanylion cysyllter â: Linda Brown, Bara Caws, Y Coleg Normal, Bangor. 3555579.

### EUOG: DI-EUOG

**gan Maldwyn Parry**

Wedi saib fer ers ein cynhyrchiad diwethaf, 'Cyw Haul', bydd Hwyl a Fflag yn cyflwyno drama newydd 'EUOG: DI-EUOG' gan Maldwyn Parry, yn yr Hydref.

Stori afaelgar, yn defnyddio iaith bob dydd a chymeriadau cig a gwaed a geir yn 'Euog: Di-Euog'. Rhywle yng Ngogledd Cymru yn ystod y 50au cyhuddir dynes ganol oed boblogaidd ac uchel ei pharch yn y gymdeithas o wenwyno ei hail ŵr. Yn ystod archwiliadau'r Heddlu i'r marwolaeth, a'r achos llys a'u canlyn, cawn wybod i'r gŵr cyntaf hefyd farw mewn amgylchiadau amheus. Yw hi'n Euog neu'n Ddi-Euog, ac a oes cysylltiad rhwng y marwolaethau?

Yn ogystal â phortread o gymeriad hynod a sefyllfa unigryw ceir yma hefyd elfennau o'r 'Whodunnit' ac o ddrama seicolegol fydd yn ymdrin ag ymateb y Wasg a'r gyfraith i'r drosedd honedig.

Casglwyd cast cryf iawn ynghyd, yn wynebau adnabyddus a llai cyfarwydd — Iola Gregory (yn rhan y prif gymeriad); Arwel Gruffydd; Wyn Bowen Harries; Morfudd Hughes, Gareth Morris a Nia Williams — dan gyfarwyddyd Gwen Elis.

Bydd perfformiadau yn Theatr Gwynedd ar 3-6 Hydref.

# HOLIADUR ANTUR PADARN

## CYMORTH ARIANNOL GAN GYNHORAU LLEOL

Ers sefydlu ANTUR PADARN rai misoedd yn ôl, bu'r aelodau wrthi'n brysur yn paratoi holiadur i'w ddosbarthu yng nghartrefi'r fro (gweler LLAFAR). Derbyniodd yr Eco gopi o'r holiadur hwnnw, ac amgauwn lun-gopi o'r dudalen flaen yn y rhifyn hwn. Ond nid yw'r holiadur yn barod i'w ddosbarthu ar hyn o bryd. Bu Glyn Tomos, Cadeirydd ANTUR PADARN yn egluro beth yw'r camau nesaf, a beth yw un o'r anawsterau sy'n wynebu'r mudiad.

*'Y sefyllfa ddiweddaraf yw ein bod yn bwriadu dosbarthu'r holiadur o gwmpas pentrefi'r fro rywbryd yn ystod mis Hydref. Cyn hynny mae gofyn i ni weld faint fydd y gost o argraffu cannoedd o'r holiaduron hyn. I'r perwyl hwnnw rydym wedi gwneud cais i Awdurdod Datblygu Cymru a Chyngor Bwrdeistref Arfon am gymorth ariannol.'*

Eisoes mae ANTUR PADARN wedi gwneud ceisiadau i'r cynghorau cymuned lleol am gymorth ariannol tuag at eu costau gweinyddol. Mae cynghorau Llanddeiniolen a Llanrug wedi cyfrannu'n barod, a deallwn fod cynghorau Llanberis a'r Waunfawr yn rhoi ystyriaeth i'r ceisiadau yn eu cyfarfodydd fis Medi. Dywedodd Glyn Tomos fod yr ANTUR *'yn hynod ddiolchgar i'r cynghorau hyn am eu cefnogaeth gwerthfawr.'*

A derbyn y bydd y cynhorthwy ariannol wedi ei dderbyn yn ystod mis Medi, bydd ANTUR PADARN mewn sefyllfa i gyhoeddi eu trefniadau terfynnol ynglŷn â'r holiadur erbyn rhifyn mis Hydref o'r Eco. Un o'r bwriadau hynny yw trefnu cyfarfodydd yng ngwahanol bentrefi'r fro er mwyn dosbarthu'r holiaduron.

**ANTUR PADARN**

| AROLWG O ANGHENION ECONOMAIDD, CYMDEITHASOL A DIWYLLIANNOL DYFFRYN PADARN 1990 | A SURVEY OF THE ECONOMIC, SOCIAL AND CULTURAL NEEDS OF DYFFRYN PADARN 1990 |
|---|---|
| Pobl Plwyfi Llanddeiniolen Llanberis, Llanrug a Waunfawr: | To all in the Parishes of Llanddeiniolen, Llanberis, Llanrug and Waunfawr: |
| **Fel yr ydych wedi darllen yn y wasg leol, 'rydym yn awyddus i dderbyn eich cyd-weithrediad i gwblhau'r Holiadur yma sydd yn ymwneud â'r Arolwg uchod. Wedi i'r holl wybodaeth ddod i law, ein bwriad yw ei ddadansoddi gan gyhoeddi'r casgliadau mewn cyfres o Gyfarfodydd Cyhoeddus a gynhelir mewn sawl pentref yn yr ardal. Yn dilyn hyn, dylem fod mewn sefyllfa i gynllunio Strategaeth Economaidd a Chymdeithasol ar gyfer y Dyffryn. Pwysleisiwn y byddwn yn trin manylion unigolion yn hollol gyfrinachol.** | As you may have read in the local press we are eager for your co-operation with this survey by your completing the enclosed questionnaire. When all the information has been collected, our aim is to have it evaluated & then published in a series of Public Meetings to be held in all the local villages. Following this, we hope to be in a position to plan a Social & Economic strategy for this valley. We would stress that all individual details provided in the questionnaire will be treated with strict confidentiality. |
| Diolch yn Fawr | Thank you |

# RHODDION

**Diolch i'r canlynol am eu rhoddion tuag at gostau cynhyrchu'r Eco.**

**£10: Nansi Griffith a theulu Tan 'Rallt, Waunfawr.**

**£5: Ffermwyr Ifanc Caernarfon; Di-enw, Deiniolen; W. J. Eames, cyn-Brifathro Ysgol Gwaun Gynfi, Deiniolen; J. V. Morris, Rhianfa, Deiniolen; Mr & Mrs Cecil Ireland, Melbourne, Awstralia; Charlotte Dicken, Tai Ffynnon, Llanberis; Teulu 8 Rhosrug, Llanrug; Mrs Nancy Jones, Madryn, Llanrug; Tom Gwyn Pritchard, Bronallt, Nant Peris.**

**£3: Elinor Williams, Bryn Rhydd, Penisarwaun; Janet a Peter Greasley, Stad Tŷ Hen, Waunfawr; Teulu y ddiweddar Mrs Maggie Jones, 3 Bro Deiniol, Deiniolen.**

**£2: Iorwerth ac Ann Jones, Fron Deg, Deiniolen; R. Jones, Dulas, 4 Stryd Fawr, Deiniolen; Mrs Eurwen Roberts, 47 Rhydfadog, Deiniolen; Miss Ciss Rowlands, Corlan y Bont a Mrs J. Williams, Rhydfadog, Deiniolen; R. H. Williams, 5 Rhes y Faenol, Llanberis; Mona, Gwilym, Keith a June, Llanberis; Gwenda Jones, 11 Bryntirion, Penisarwaun.**

**£1: Sandra Morris, 7 Ffordd Deiniol, Deiniolen.**

**ANTUR PADARN**

**CYFARFOD NOS FERCHER**

**MEDI 5**

**ANGORFA, LLANBERIS**

**7.00 O'R GLOCH**

**DIOLCH**

**Diolchwn ymlaen llaw i bentrefwyr Pensiarwaun am blygu y rhifyn hwn o'r Eco.**


- Jig i Atgyweirio Cyrff
- Tiwnio Crypton
- MOT
- Ail-Sbreo
- Tracio
- Balansio Olwynion
- Gwasanaethu
- Cymysgu Paent
- Gwerthu Ceir Newydd ac Ail-law
- Partiau Renault
- Petrol ESSO a DERV
- Sigarennau a Melysion
- Calor Gas

**PRIF GYNRYCHIOLWYR SEAT YNG NGWYNEDD**

**Perchennog: E.P. Hughes**

**MODURDY DOLYDD**

**GROESLON Ffôn: Llanwnda 830562**

# Llafar

## AROLWG O ANGHENION Y FRO

**Dros y blynyddoedd diwethaf mae mwy a mwy o bobl yn cymryd diddordeb ymarferol a gweithredol yng ngwahanol gynlluniau awdurdodau lleol ynglŷn â datblygiadau o fewn eu hardaloedd — a da o beth yw hynny. Amlygwyd un agwedd o'r ymwybyddiaeth hon yn yr ymateb o fewn Arfon i wahanol gynlluniau arfaethedig ynglŷn â datblygiadau twristiaeth. Bu cymdeithasau Hirael, Y Felinheli, Llandwrog a phentrefi Dyffryn Padarn yn gwrthwynebu'n llwyddiannus y gwahanol fwriadau i foddi eu cymunedau gan ddatblygiadau twristaidd anferthol o anghydnaws. Ond oherwydd mai gwrthwynebu roedd y cymdeithasau hyn, roedd tuedd i'r ymgyrchoedd fod o naws negyddol.**

**Ein braint ni fel bro yw fod yr ymgyrch a lansiwyd i wrthwynebu cynlluniau Leading Leisure yng Nglyn Rhonwy wedi esgor ar weithred gadarnhaol iawn. Fel yr adroddwyd yn rhifynnau diwethaf yr Eco, gwahoddwyd cynrychiolwyr o Awdurdod Datblygu Cymru i Gyfarfod Cyhoeddus yn Llanrug, a sefydlwyd ANTUR PADARN yn gyfrwng i wneud arolwg manwl o wahanol anghenion y fro. Ers hynny, mae gweithgor wedi bod wrthi'n ddiwyd yn paratoi holiadur i'w ddosbarthu o fewn y fro. Mae copi o'r holiadur hwnnw ym meddiant yr Eco, a llongyfarchwn aelodau ANTUR PADARN ar waith trylwyr, cwestiynnu dadansoddiadol a diwyg broffesiynol. Mae'r holl waith swmpus yn golygu y bydd gwybodaeth werthfawr ynglŷn â dyheadau a deisyfiadau pobl o bob oed yn cael eu casglu at ei gilydd er mwyn rhoi darlun cynhwysfawr o anghenion economaidd, cymdeithasol a diwylliannol Dyffryn Padarn.**

**OND — ac y mae'r 'OND' hwnnw'n holl-bwysig: mae angen i CHI, drigolion bro'r Eco, wneud yn siŵr eich bod yn cynorthwyo drwy lenwi'r holiadur a'i ddychwelyd i ANTUR PADARN. Heb yr ymdrech fechan honno ar eich rhan, bydd gwaith yr ANTUR yn paratoi'r holiadur yn ddiwerth.**

**Gweithredwch drigolion Dyffryn Padarn. Llanwch yr holiadur gynted ag y daw i'ch meddiant. Bydd yfory yn rhy hwyr. Drwy lenwi'r holiadur, rhowch wybod pa fath o 'yfory' a ddeisyfwch chi i'r fro hon.**

## CYFLE I ADNABOD EWROP YN WELL

**Dyma neges oddi wrth Gareth James, Trefnydd Cyrsiau yng Nghanolfan Iaith Genedlaethol Nant Gwrtheyrn, Llithfaen:**

Gyda chynnydd aruthrol yn yr awydd i ddod i adnabod Ewrop yn well, bwriada Canolfan Iaith Genedlaethol Nant Gwrtheyrn ymateb i'r galw trwy gynal cyrsiau fydd yn rhoi cyfle i bobl ddod yn fwy ymwybodol o ranbarthau eraill o fewn y Gymuned lle siaredir iaith llai ei defnydd. Trefnwyd dau gwrs eisoes:

**Medi 7-9, 1990: CWRS CELTAIDD** — Cyfle i ddysgu neu ymarfer Llydaweg, Cernyweg, Gaeleg, Gwyddeleg neu Fanaweg.
**Hydref 19-21: CWRS EUSKARA** — Cyfle i ddysgu neu ymarfer iaith Gwlad y Basg.

Cynigir y cyrsiau fel lluniaeth llawn, hunan-gynhaliol neu ddi-breswyl, a cheir gostyngiad i blant ysgol, myfyrwyr, y di-waith a'r henoed, neu i grwpiau o ddeg neu ragor. Am ragor o fanylion ar ffurf taflen wybodaeth ffoniwch 075 885 334.

## PENBLWYDD Y FFORWM IAITH

*Dwy flynedd yn ôl i fis Mai diwethaf sefydlwyd y Fforwm Iaith Genedlaethol — neu'r Cabinet Iaith fel y'i gelwid ar y cychwyn — i ddwyn pwysau ar Mr Peter Walker, yr Ysgrifennydd Gwladol y pryd hynny, am Ddeddf Iaith newydd i'r iaith Gymraeg. Yr oedd y Fforwm yn cynnwys cynrychiolwyr o ddeuddeg sefydliad amlwg yng Nghymru, yn amrywio o Ferched y Wawr, Yr Urdd a'r Eisteddfod Genedlaethol, i Gymdeithas yr Iaith, UCAC, a Chanolfan Iaith Nant Gwrtheyrn. Ateb Mr Walker i alwad y Fforwm am Ddeddf Iaith oedd sefydlu Bwrdd yr Iaith Gymraeg dan lywyddiaeth rhan amser Mr John Elfed Jones. Tra yr oedd y Fforwm Iaith yn cynrychioli canran sylweddol o boblogaeth Cymru, nid oedd y Bwrdd Iaith yn cynrychioli neb ond mympwy Mr Walker.*

*Erbyn heddiw, ddwy flynedd yn ddiweddarach, y mae nifer y mudiadau ar y Fforwm wedi dyblu, o ddeuddeg i bedwar-ar-hugain, a bellach gallwn ddweud mai'r Fforwm yw'r unig lais dros Gymru ar fater Deddf Iaith newydd. Yn ystod yr un cyfnod mae'r Bwrdd Iaith wedi dirywio i gynrychioli neb, ddim hyd yn oed mympwy yr Ysgrifennydd Gwladol.*

*Yn ystod y ddwy flynedd, y mae aelodau o'r Fforwm wedi trefnu Ysgol Undydd ym Maentwrog, Rali Genedlaethol yng Nghaerdydd, Cynhadledd gan yr Urdd yn Aberystwyth, ac y mae'r Eisteddfod wedi trefnu cyfarfod ym mhafiliwn yr Eisteddfod yng Nghwm Rhymni, i gyd yn cadarnhau y galw am Ddeddf Iaith gadarn a chynhwysfawr ar fyrder. Fe wêl pawb bellach — hyd yn oed y Bwrdd Iaith ei hun — pa mor lastwraidd yw'r Mesur Drafft y mae'r Bwrdd Iaith wedi ei baratoi yn ystod y ddwy flynedd. Y mae'r holl bwysau o du'r Fforwm Iaith wedi gorfodi y Bwrdd Iaith i ail-edrych ar ei Mesur Drafft; bydd angen ei wneud yn llawer cadarnach i gyfarfod â dyheadau pobl Cymru.*

*Yn ystod y ddwy flynedd hefyd, bu'r Fforwm Iaith yn ymgynghori a dwyn pwysau ar S4C, CBI Cymru a'r Bwrdd Iaith ei hun. Disgwyliwn yn fuan gyfarfod â'r Blaid Lafur a sefydliadau eraill gyda dylanwad ar ddyfodol yr iaith Gymraeg.*

*Yn ddi-os haedda'r Fforwm Iaith bob cefnogaeth yn ei ymdrech i sicrhau Deddf Iaith ar fyrder gan y llywodraeth styfnig hon. Daliwch ati i boeni'r Swyddfa Gymreig gyda'ch llythyrau a'ch cwynion.*

*ARIAL M. THOMAS,*
*Cadeirydd Pwyllgor Hysbysrwydd,*
*Y Fforwm Iaith.*
*Rhif ffôn: 0286 830276.*

## DRAENOG



**Yn ôl arolwg diweddar gan wneuthurwyr cawodydd, mae mwy o bobl Cymru yn fwy tebygol o rannu cawod â chymar (neu â chymar rhywun arall!) nac o bobl unrhyw ran arall o Brydain.**

**Gofynnwyd i'r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg, â phwy yr hoffent rannu cawod — yn fenyw neu'n wryw. Roedd un o'r atebion yn rhyfeddol, oherwydd mai Margaret Thatcher oedd un o'r dewisiadau mwyaf poblogaidd gan amryw. Ond y rheswm dros y dewis hwnnw oedd y byddent yn hoffi ei boddi yn y gawod!**

**Efallai y byddai nifer o drigolion bro'r Eco yn dewis y DRAENOG am yr union resymau! Gall DRAENOG hefyd feddwl am o leiaf bump o drigolion y fro yr hoffai rannu cawod â hwy — nid i gyd yr un tro — ond nid er mwyn eu boddi.**

## CLINIC PERSON HOLLIACH LLANBERIS

**O mis Medi ymlaen fe newidir noson y Clinic uchod i Nos Fercher cynta'r mis. Y cyntaf am Dymor y Gaeaf felly fydd Medi 5ed (o 6 tan 8 o'r gloch fel o'r blaen). Mae yna amryw o drigolion yr ardal heb fod - Edrychwn ymlaen i'ch gweld! Cof-iwch fod croeso i ferched a dynion.**


**BRYN**
**(B & K Williams)**
**Hen Ysgol Glanmoelyn**
**LLANRUG**
**Ffôn 77482 (dydd)**
**870793 (nos)**
Gwneuthurwyr Ffenestri, Drysau, Grisiau neu unrhyw fath o gynnyrch coed. Y coed meddal wedi derbyn triniaeth arbennig i wneud iddynt bara.

**TACSIS BETHEL**
**UNRHYW AMSER • UNRHYW BELLTER**
**Ffôn:(93)670555**

**Aled Jones**
Peiriannydd Gwres Canolog a Plymio
**4 Bryn Eglwys**
**PENISARWAUN**
**Ffôn Llanberis**
**871047**

# 'O BT, MI FASEN NI'N EICH CARU TASEN NI'N CAEL EICH CARU YN GYMRAEG!'

**Y chweched ar hugain o Orffennaf: diwrnod braf am daith. Cynnes ond nid yn ormesol, diwrnod mwyn canol-haf. A'r gwmniaeth orau hefyd — criw o bobl hwyliog. Pobl o bob oed, o bob lliw a llun, ond yn rhannu rhywbeth: ein hiaith. Pwy all ofyn am fwy?**

**Pam treulio'r dydd yn Nottingham, gyda helaethrwydd eang Cymru, gwlad y mynyddoedd a'r môr gerllaw? Roedd gan dros 150 aelod o CEFN, mudiad dros hawliau siaradwyr Cymraeg, flas ar fynd. Wedi gadael cartre cyn 8 o'r gloch y bore a theithio o bob cwr o'r wlad mewn coetsys a cheir er mwyn cyrraedd Nottingham amser cinio.**

Lluniaeth gan Telecom Prydeinig (BT), cyn i'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol (AGM) ddechrau am 2 o'r gloch y pnawn. Am eu bod nhw'n Gymry Cymraeg go iawn a go barchus, mae mwy nag un ohonyn nhw'n ceisio talu am y cinio oedd yn rhad ac am ddim — er ein bod ni wedi talu £4 am bob cyfranddaliad, sy'n rhoi'r hawl i ni bleidleisio neu enwebu dirprwy. Roedd CEFN wedi lansio cyrch newydd yn erbyn BT eleni wrth ymgynnull siaradwyr Cymraeg a chefnogwyr i brynu cyfranddaliadau BT ac wedyn mynychu'r AGM er mwyn dwyn pwysau ar BT i Gymreigio eu gwasanaeth.

'Yn rhad ac yn rhwydd': dyna honniad slogan BT am eu gwasanaeth ar gyfer cwsmeriaid Cymraeg. Ni faswn i byth yn disgrifio gwasanaeth BT yng Nghymru fel yna, gan fod pob dim bron yn cael ei drafod a'i argraffu yn uniaith Saesneg. Mae angen tipyn o ddyfalbarhad i gael siaradydd Cymraeg ar y Gwasanaeth Ymholiadau. Mae angen dychymyg bywiog i'w ffeindio yn yr adran cyfrifon.

Yn ôl BT, basai biliau dwyieithog 'yn rhy ddrud'. Celwydd noeth! Mae'n ddi-drafferth ac yn rhad diwygio rhaglenni cyfrifiaduron — dyma reswm wedi'r cyfan i ni eu defnyddio nhw. I ble felly mae elw dirfawr BT (£8 miliwn y diwrnod) yn mynd? Wel, mae dros £3 miliwn y flwyddyn yn cael ei roi i elusenau, a hynny heb gyfri cyflog Iain Vallance (y cadeirydd) sydd wedi codi i £374,152 y flwyddyn. Gyda llaw, mae o'n cyfeirio ato'i hun fel 'Cyd-Geltiad'. Mae'r cyflog uchaf a gaiff gweithredwyr teliffon yn llai na £7,000 y flwyddyn. Mae'r Eisteddfod wedi derbyn rhodd o £32,000 eleni.

(Diolch BT! Mi fasen ni'n eich caru, tasen ni'n cael eich caru yn y Gymraeg!)

Nid yn unig fod BT yn anheg i hawliau'r siaradwyr Cymraeg; mae polisi BT yn anfoesol. Mae polisi Welsh-Not BT yn groes i Ddatganiad Hawliau Dynol y Cenhedloedd Unedig (1948) ac i argymhelliadau'r Grwp Hawliau Lleiafrifoedd y CU (1979). Mae gwrthwynebiad ac esgeulustod BT tuag at ein hiaith yn golygu gormes — tebyg i'r pwysau mae Lloegr wedi'u dwyn ar Gymru dros y canrifoedd. Mae Saeson wedi diraddio'r Gymraeg fel ei bod yn 'iaith leiafrifol' yn ei gwlad ei hun.

Gwrandodd y garfan Gymraeg yn barchus, yn amyneddgar ac yn aml yn llawn cydymdeimlad ar y nifer o gwestiynau a godwyd gan y Saeson. Ac eto, pan safon ni fesul un i leisio ein cwynion, mi gaethon ni ein trin efo dirmyg. Y curo dwylo araf a bwio gan dros 800 o gyfranddalwyr Saesneg oedd yn 'ddi-amynedd' yn ôl y wasg, oherwydd bod ni 150 o siaradwyr Cymraeg yn 'swnian yn ddi-baid' am bryderon di-bwys rhyw leiafrif. Ar ôl dim ond dau gwestiwn ynglŷn â'r Gymraeg, un gan Ffrances gefnogol i'r Gymraeg a'r llall gan Eifion Lloyd Jones, rhoddodd y cadeirydd stop ar fwy o gwestiynau Cymraeg gan ddeud ei fod yn 'anheg ar gyfranddalwyr cyffredin'. Cafodd fraw wrth glywed yr iaith yn cael ei llefaru gan y Cynghorydd Dafydd Orwig — a'i gefnogi yn ei ragfarn gan yr holl watwar a chwerthin ar ran y Saeson. Ond mi roddon ni'r Cymry'r stop ar y cyfarfod am chwarter awr gan guro dwylo a churo traed. Mi fynnon ni gael siarad — a hynny'n 'gynnwrf', 'sarhad' ac 'ymddygiad bron yn derfysglyd', yn ôl y wasg.

Enillodd ein dyfalbarhad yn y diwedd ac mi gafodd Dafydd Orwig roi ei gwestiwn. Fel gwnaeth sawl un arall, gan gynnwys Eleri Carrog (ysgrifennydd cyffredinol CEFN) a chefnogwraig Saesneg a gyhuddodd BT o fod yn hiliol; dim ond Iain Vallance feiddiai wadu hynny. Ar ben hynny mi wrthododd wneud unrhyw ymrwymiad i gyflwyno gwasanaeth dwyieithog o fewn y flwyddyn, fel oedd CEFN yn mynnu, yng Nghymru. Triodd osgoi'r her drwy ein cyfeirio at ei faban newydd, y Welsh Advisory Forum, dan arweiniad Mike Betts (uniaith Saesneg) a anwyd yr wythnos gynt fel atebiad i bwysau CEFN am bolisi trwyadl teg. Dwi'n 'betio' y cymerith y fforwm hon flynyddoedd i ddwad i benderfyniad ar ddim byd. Mae BT yn barod yn defnyddio canllawiau Bwrdd yr Iaith Gymraeg fel esgus i beidio datblygu gwasanaeth dwyieithog llawn.

Dim ond nerth ein lleisiau fydd yn troi'r llanw hiliol a llethol y 'telecommunications' hwn. Mae fel cancr, yn ymgyrraedd at esgyrn ein gwlad efo darostyngiad yr iaith a diwylliant oedd yma gyntaf: y Gymraeg.

Mi bleidleision ni yn erbyn yr Adroddiad Blynyddol ar ôl methu â chael sicrhad oddi wrth Iain 'I'm a Celt too' Vallance a'i weision ar Fwrdd y Cyfarwyddwyr y byddan nhw'n mabwysiadu polisi teg. Yna felly safon ni ar ein traed, canu 'Hen Wlad fy Nhadau' a ffwrdd a ni, mor barchus a thaclus a phobl capel nos Sul, ond a brwdfrydedd newydd yn ein calonnau.

Mewn un ffordd, roedd hi'n debyg i wibdaith gapel — bysiau, byns, trafodaethau, caneuon; a'r siwrnai lychlyd adra, mewn hwyliau da.

Da' ni wedi'n hysbrydoli'n llwyr ac yn barod i frwydro 'mlaen. Mae cyfarfod yng Nghaerdydd yn yr Hydref. Mi fyddwn ni'n mynd yn ôl flwyddyn nesaf i fod yn fwyafrif yr adeg hynny, a mynnu cael ein hawliau trwy araith a chân. Heb gael ein hanwybyddu, sarhau neu ein diystyrru byth eto. Beth am ddwad efo ni yno?

DALIER HEB LAESU DWYLO

**Danw November, merch sydd wedi bod yn dysgu'r iaith Gymraeg ers tua dwy flynedd a ysgrifennodd yr erthygl. Daw yn wreiddiol o Lundain er mai yn Nebo y mae'n byw ar hyn o bryd — ac mae'n gweithio i fudiad CEFN yng Nghaernarfon.**

**Llongyfarchiadau iddi ar safon ei Chymraeg llafar (bu gohebydd yr Eco yn sgwrsio â hi) ac ysgrifenedig — a diolch yn arbennig iddi am ei brwdfrydedd a'i sêl dros yr iaith.**

**Diddorol iawn yw cymharu profiadau'r cyfranddalwyr Cymraeg draw yn Nottingham gyda rhai o'r honiadau a wna BT yn eu hysbyseb isod — Gol.**


*Ers 1973, bu gan British Telecom Cymru a'r Gororau bolisi dwyieithog wedi ei ddatblygu'n llawn ac sy'n cael ei ystyried yn eang fel polisi blaengar yn y ffordd y caiff ei ddefnyddio.*

*Felly, ein polisi ers cyfnod hir yw y dylai unrhyw un sy'n dymuno cynnal ei fusnes yn Gymraeg allu gwneud hynny.*

*Yr oeddem ni ymhlith y cyntaf i groesawu'r canllawiau gwirfoddol ar gyfer y sector preifat a gyhoeddwyd y llynedd gan Fwrdd Yr Iaith Gymraeg ac roedd gan British Telecom ran yn eu llunio.*

*Yr ydym yn barod wedi ei gwneud yn hysbys fod argraffiad nesaf Llyfr Ffôn Gogledd Orllewin Cymru yn mynd i gynnwys Cymraeg a bydd ganddo ddelwedd ddwyieithog. Hefyd fe fydd cyfarwyddiadau dwyieithog yn cael eu arddangos mewn blychau ffôn cyhoeddus mewn rhai rhannau o Gymru.*

*Gallwn ddisgwyl, gyda datblygiadau'r dyddiau yma gan gynnwys cyflwyno'r Gymraeg fel pwnc craidd yn y cwricwlwm, y bydd datblygiad cyflym mewn diddordeb yn yr iaith. Wrth i'r iaith dyfu o ran cryfder bydd British Telecom yn cynnal ei bolisi blaengar.*

British TELECOM
Cymru a'r Gororau



CABS LLANRUG




Prisiau cystadleuol
Gwaith contract
pell ac agos

C'fon 5951

# PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: 872407

TRIP YR YSGOL SUL: Diolchir i Mrs Elizabeth Jones a Mrs Ann Paterson am wneud trefniadau'r trip i Rhyl. Fe gafwyd tywydd teg a phawb wedi mwynhau eu hunain. Diolchir hefyd i Mr Hoskinsons, Pant Afon, am ei haelioni i'r plant — fe dderbyniodd pob plentyn ar y ddau fws £1 yr un. Diolch o galon.

YSGOL SUL BOSRA: Bydd yr ysgol Sul yn ail-gychwyn Fore Sul, Medi 9, am 10.00 am. Croeso cynnes i aelodau newydd.

LLONGYFARCHIADAU mawr i'r rhai fu'n llwyddiannus yn y gwahanol Sioeau ac Eisteddfodau yn ddiweddar. I chwithau blant fu'n sefyll eich arholiadau, llongyfarchiadau a phob dymuniad da i chwi yn y Chweched Dosbarth a'r gwahanol Golegau.

GWELLHAD: Derbyniodd Mr Selwyn Griffith, Mrs G. Williams, Mr Tom Wyn Griffiths, Bryntirion, Siôn Bedwyr a B.E. Hughes driniaeth yn yr ysbyty yn ddiweddar — a balch ydym o ddeall eu bod yn gwella. Ein cofion gorau at bawb sydd wedi bod yn sâl a brysiwch wella i gyd.

PWYLLGOR NEUADD: Gan mai siomedig oedd yr ymateb i Bwyllgor y Carnifal, ni chynhelir Carnifal eleni. Gobeithir cynnal un y flwyddyn nesaf.

Enillwyr Clwb Cant Mehefin oedd: 1, Mr J. O. Jones, Bryntirion; 2, Miss M. Foulkes, 3 Brynhyfryd; 3, Mrs Eiriona Williams, Glyn Euron.

Enillwyr Clwb Cant Gorffennaf oedd: 1, Mr G. R. Williams, Llys Myfyr; 2, Tony Ellott; 3, Miss Mair Foulkes, 3 Brynhyfryd.

Tynnir Clwb Cant mis Awst yn Sycharth.

DIOLCHIADAU: Dymuna Siôn Roberts, Tai Croesion, ddiolch i bawb am eu dymuniadau da a'r anrhegion ar achlysur cychwyn ei yrfa yn y Fyddin.

Dymuna Charlotte Dicken, ddiolch o galon i'w ffrindiau caredig am eu cardiau a'u hanrhegion wedi ei thriniaeth yn yr Ysbyty.

Ar achlysur ei phenblwydd yn 18 oed ac yn dilyn llwyddiant ei harholiadau Lefel A, dymuna Eurgain Haf ddiolch yn ddiffuant iawn i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y llu cardiau ac anrhegion. Diolch yn fawr.

CYMDEITHAS FEIBLAIDD: Cynhelir gwsanaethau'r Gymdeithas Feiblaidd eleni yn Eglwys Crist, Llandinorwig, y Sul cyntaf yn Hydref am 2.00 pm a 6.00 pm. Croeso cynnes i bawb.

CLWB YR HEULWEN: Ar ddiwrnod tanbaid yng Ngorffennaf mwynhaodd aelodau'r Clwb a rhai o'u ffrindiau drip i'w gofio i Rhyl. Fe dreuliwyd ychydig o amser ym Metws y Coed i gael cinio.

Dymuna'r Clwb ddiolch i Mrs Mary Davies am wneud y trefniadau a sicrhau diwrnod da i bawb.

O AWSTRALIA I GYMRU: Treuliodd Helen a Cecil Ireland, o Melbourne, Awstralia, chwe wythnos difyr yn ymweld â pherthnasau a ffrindiau. Chwaer Mrs Mary Davies Llys y Gwynt, yw Mrs Helen Ireland, a mawr fu'r croeso a'r hel hen atgofion. Diolchir iddi am ei rhodd garedig i'r Eco.

CROESO: Ein croeso gwresocaf i Mr a Mrs Laurels sydd wedi ymgartrefu yn 3 Tai Newyddion.

PROFEDIGAETH: Cydymdeimlir yn ddwys iawn â Mrs Gwenda Jones a'r teulu, 11 Bryntirion. Bu farw tad Gwenda wedi gwaeledd hir.

Colled fawr a sydyn i Mrs Elinor Williams, Bryn Rhydd, a'r teulu oll, oedd marwolaeth sydyn Gari — brawd annwyl ac amryddawn a lwyddodd i wneud i ni'r Cymry chwerthin nes oedd ein hochrau'n brifo. Colled fawr i'r teulu ac i Gymru gyfan. Bu Gari'n hael a chymwynasgar â ni drigolion Penisarwaun — beirniadodd yn ein Carnifal, bu'n arwain Noson Urdd Bentref a chymerai ddiddordeb yn ein holl weithgareddau. Ein cydymdeimlad dyfnaf â chwi oll.

CYDNABYDDIAETH: Dymuna Elinor a'r teulu ddiolch o galon i bawb am y caredigrwydd a ddangoswyd atynt yn eu profedigaeth lem o golli brawd annwyl — Gari.

Dymuna Gwenda Jones ddiolch i bawb am y cardiau, galwadau a'r rhoddion tuag at Achos Da wedi marwolaeth ei thad.

YSGOL TAN Y COED: Llongyfarchiadau i blant Safon 3 a 4 fu'n llwyddiannus yn eu Prawf Gyrru Beic. Diolch i Mr Dafydd Edwards am eu hyfforddi.

Croesawyd 3 o blant newydd i'r ysgol ddiwedd y tymor, sef Melisa, Justin a Veronica Williams, a buan iawn yr oeddynt wedi setlo i lawr.

Dymunir pob hapusrwydd a llwyddiant i blant Safon 4 sy'n cychwyn ar eu haddysg uwchradd mis Medi yma.

Oherwydd cwtogi staff, bydd Mrs Shirley Roberts o'r Felinheli yn dysgu Safon 1 a 2 am dri niwrnod a hanner. Pob dymuniad da i chwi Mrs Roberts. Gellir eich sicrhau y byddwch yn hapus dros ben yn Ysgol Tan-y-Coed, gan na ellir disgwyl gwell staff, plant na rhieni. Pob hwyl i chwi.



*Mrs Ann Evans a anrhegwyd ddiwrnod olaf y tymor.*

***O Waelod Calon — DIOLCH***

*Sycharth*
*Penisarwaun*
*20/8/90*

*Annwyl Ffrindiau,*

*Wedi gofid o orfod gadael Ysgol Tan-y-Coed oherwydd cwtogi staff, dymunaf ddatgan fy niolchgarwch a chydnabod cefnogaeth y Staff, Llywodraethwyr, Cyfeillion Tan-y-Coed, ac yn arbennig rhieni a phentrefwyr Penisarwaun. Bu'r llu cardiau, blodau ac anrhegion drudfawr a dderbyniais ar ddiwedd y tymor yn brawf o beth yw **gwir** garedigrwydd a chyfeillgarwch.*

*Fe drysoraf pob atgof melys, pob cerdyn ac anrheg.*

*Gyda dyfodiad yr ysgol newydd, dymunaf bob hapusrwydd a llwyddiant i'r staff a phlant yr Ysgol.*

*O waelod calon,*
*Llawer o ddiolch,*
*ANN IFANS.*

YSGOL FEITHRIN/CYLCH MAM A'I PHLENTYN: Bydd y Cylch Mam a'i Phlentyn yn ail ddechrau bore Mawrth Medi 4 yn Neuadd yr Eglwys, Penisarwaun — byddwn yn cyfarfod am 10 o'r gloch ar fore Mawrth a Iau ar ddechrau'r tymor a gobeithir y bydd yr Ysgol Feithrin yn dechrau yn Ysgol Tan y Coed yng nghanol mis Medi — byddwn yn cysylltu â'r rhieni sydd eisoes wedi dangos diddordeb cyn gynted ag y cawn y dyddiad i ddechrau.


Yn y cyfamser bydd croeso i unrhyw fam/warchodwr a'i blentyn ymuno â ni yn y Cylch Mam a'i Phlentyn.

Mae Pwyllgor yr Ysgol Feithrin yn trefnu Noson Goffi ar nos Wener, 21 Medi am 6.30 pm i'w chynnal yn Neuadd yr Eglwys ym Mhenisarwaun — bydd tiecdi ar gael am 50c yr un a 10c wrth y drws i blant.

Mae'r Ysgol Feithrin yn awyddus iawn i gyflogi gweinyddes i athrawes yr ysgol — os oes gennych ddau fore gwag i'w gynnig a diddordeb mewn plant bach byddwn yn falch iawn o glywed gennych — cewch gysylltu ag Alwena ar Llanberis 870453 am unrhyw fanylion ychwanegol.

## TRIP DIWEDD TYMOR YR HAF YR YSGOL FEITHRIN





*Llŷr Tegai a fu'n llwyddiannus ym Mabolgampau'r Urdd, Sir Eryri.*

EISTEDDFOD BENTREF: Cynhaliwyd yr eisteddfod eleni yn Neuadd yr Eglwys ar Nos Wener, Mehefin 29ain. Y beirniaid oedd: Cerdd — Ann Hopcyn; Llên ac Adrodd — Y Parch Trefor Jones; Arlunio — Arnold Jones; Gwaith Llaw/Coginio — Mrs Mair Griffith; Y gyfeilyddes oedd Mrs Glenys Griffith a llywydd y noson oedd Mrs K. Williams, Llanberis. Mrs Nancy Jones a Miss Phyllis Ellis oedd yn arwain.

Dyma restr o'r buddugwyr:

**Adrodd 4-6 oed:** 1, Nicola; 2, Carwyn; 3, Karen. **Canu:** 1, Carwyn; 2, Karen ac Iwan; 3, Charlotte. **Rhyddiaith - plant**


**Y STORFA LLANRUG**

**(Richard a Meirwen Williams)**

**Ffôn: Caernarfon 2790**

Sylwch ar ein horiau agor hwylus:

Sul 9 - 12.30
Llun - Gwener 7.30 am - 6 pm
Sadwrn 8 am - 8 pm

**Nid oes unrhyw dâl am ddanfon ordor i'ch cartref yn ardal Llanrug.**



Am waith
PEINTIO, ADDURNO
a mân atgyweirio oddi mewn neu tu allan am bris rhesymol
cysyllter ag

**ERIC JONES**
**17 BRYN TIRION**
**PENISARWAUN**
**Ffôn: LLANBERIS 872421**

**4 oed:** 1, Iwan; 2, Jenny; 3, Emma.

**Rhyddiaith - plant 5 oed:** 1,Rachel; 2, Nicola a Laura; 3, Charlotte. **Gwaith Llaw:** 1, Iwan. **Arlunio - plant 4 oed:** 1, Emma; 2, Iwan a Jenny. **Arlunio - plant 5 oed:** 1, Dewi Wyn; 2, Carwyn; 3, Karen.

**O dan oed Ysgol — Canu:** 1, Cenin; 2, Urien, Manon a Heledd; 3, David, Ania, Ian, Deian, Matthew, Catrin, Haydn. **Adrodd:** 1, Cenin, Manon a Heledd; 2, Matthew; 3, Haydn, Urien, Ian, Catrin a Deian. **Arlunio:** 1, Ian; 2, Mitchell; 3, david. **Gwaith Llaw:** 1, Sam Tân; 2, Haydn; 3, Catrin a Manon.

**O 6 i 8 oed — Canu:** 1, Erin; 2, Steven; 3, Vincent. **Adrodd:** 1, Erin; 2, Steven. **Rhyddiaith:** 1, Erin; 2, Eurig; 3, Dion. **Arlunio:** 1, Erin; 2, Alaw a Dion; 3, Anna. **Gwaith Llaw:** 1, Erin. **Parti Canu Babanod:** 1, Parti Catrin; 2, Parti Cenin.

**O 8 i 10 oed — Adrodd:** 1, Wena a Lynne (cydradd). **Canu:** 1, Siôn; 2 Siân ac Elgan; 3, Lynne. **Rhyddiaith (Safon 1):** 1, Wena; 2, Elgan a Daniel; 3, Lynne. **Safon 2:** 1, Siân ac Iwan; 2, Tracy; 3, Sophie ac Aled. **Barddoniaeth:** 1, Lynne; 2, Vanessa; 3, Elgan. **Arlunio (Safon 1):** 1, Gavin a Rowan; 2, Lynne; 3, Nia. **Safon 2:** 1, Iwan; 2, Tracy; 3, Siân. **Gwaith Llaw:** 1, Wena; 2, Christopher; 3, Tracy a Lynne. **Parti Canu dan 12 oed:** 1, Tocwyr y Winllan; 2, Parti Lois.

**O 10 i 12 oed — Canu:** 1, Sioned; 2, Lois; 3, Eryl a Gwenllian. **Rhyddiaith (Safon 3):** 1, Llŷr; 2, Ynyr; 3, Gwenllian. **Safon 4:** 1, Eira Wyn; 2, Lois; 3, Sioned. **Barddoniaeth (Safon 3 a 4):** 1, Llŷr; 2, Ynyr; 3, Sarah. **Arlunio (Safon 3):** 1, Sarah; 2, Llŷr ac Angela; 3, Cathryn. **Safon 4:** 1, Paul Thomas; 2, Rhys; 3, Lois. **Gwaith Llaw:** 1, Lois; 2, Angela; 3, Gwenllian. **Coginio dan 12:** 1, Sioned; 2, Gwenllian. **Cân Werin dan 12:** 1, Elgan; 2, Gwenllian. **Parti Adrodd (Cynradd):** 1, Parti William.

**Unawd Piano:** 1, Lois; 2, Elgan ac Erin; 3, Gwenllian. **Tarian i'r Prif Lenor dan 12 oed:** 1, Eira Wyn.

**O 12 i 16 oed — Adrodd:** 1, Sioned. **Canu:** 1, Hefina; 2, Delyth; 3, Eleri; **Cân Werin:** 1, Catherine; 2, Sioned. **Barddoniaeth:** 1, Owain; 2, Dyfed. **Arlunio:** 1, Susan; 2, Osian ac Arwel. **Gwaith Llaw:** 1, Susan; 2, Sioned a Nia. **Coginio:** 1, Susan; 2, Owain. **Parti Adrodd (Uwchradd):** Parti Delyth. **Parti Deulais dan 18 oed:** Parti Eleri. **cân Ysgafn/pop dan 18 oed:** Penwyn Caer; 2, Blodwen a Margaret; 3, Goewin. **Deuawd 12-18:** 1, Delyth a Hefina; 2, Eleri a Cathryn. **Arlunio 16-18:** 1, Bedwyr.

**Adrodd O 18 i oed pensiynwyr:** 1, Eifion Harding; 2, Meira Griffith; **Parti Adrodd (Oedolion):** 1, Parti Nansi; 2, Parti Elizabeth. **Unawd o 18 i oed pensiynwyr:** 1, Roberta Griffith a Meira Griffith. **Meim i Record:** 1, Camgymeriad Llwyr; 2, Parti Aled a Parti Rhian. **Adrodd oed pensiynwyr:** 1, Mrs P. Williams. **Cyflwyniad Dramatig:** 1, Stiwdant Newydd; 2, Newyddion Drwg.

**Parti Canu (Oedolion):** 1, Parti Nansi; 2, Parti Ceren. **Gorffen Limrig:** Delyth Williams. **Brawddeg o'r gair GLASGOED:** Delyth Williams. **Arlunio (Oedolion):** 1, Rhian Williams; 2, Rhian Williams. **Gwaith Llaw (Oedolion) - Gwau:** 1, Mrs P. Williams; 2, Ann Jones a Mrs P. Williams. **Gwnïo:** 1, Judith Harding; 2, Roberta Griffiths.**Coginio (Oedolion):** 1, Judith Harding; 2, Elinor Williams.

Dymuna'r pwyllgor ddiolch yn fawr iawn am bob cefnogaeth a rhodd, ac i swyddogion Eglwys Santes Helen am eu cydweithrediad.



*Eira Wyn Jones — Prif Lenor Eisteddfod Penisarwaun 1990.*

# NANT PERIS

**Ann Pleming, Dolwen, 8 Nant Ffynnon. Ffôn: 871457**

DYMUNWN wellhad buan i Alan Pritchard, Llys Awel, sydd wedi derbyn calon newydd yn Ysbyty Harefield, Middlesex.

CYDYMDEIMLWN â Tom Gwyn, Eirlys, Alwena a Hefina ar farwolaeth gwraig, mam a nain annwyl, sef Mrs Marian Pritchard, Bronallt, a fu farw ar Fehefin 30 ar ôl cystudd hir a blin.

LLONGYFARCHIADAU i Jennifer a Robin ar enedigaeth merch fach arall, chwaer i Olwen.

DIOLCH: Dymuna Tom Gwyn a'r teulu ddiolch am y cydymdeimlad a gawsant yn eu profedigaeth o golli gwraig, mam a nain annwyl, sef Elizabeth Marian Pritchard, Bronallt, Nant Peris. Diolch am yr holl gardiau, y blodau a'r rhoddion a dderbyniwyd. Diolch arbennig i'r nyrsus lleol a Ward Alaw, Ysbyty Gwynedd, y gweinidogion am y gwasanaeth, i'r merched am ddarparu te yn y festri ac i Mr Myrddin Pritchard am y trefniadau.

# VIENNA – PRIF DDINAS GERDDOROL Y BYD

Profiad hyfryd oedd cael mynd i Awstria ddechrau mis Gorffennaf a threulio wythnos mewn dwy ddinas yno, — sef Salzburg a Vienna.

Fedrwch chi ddim teithio fawr yn Awstria heb gael eich atgoffa eich bod yng ngwlad Mozart a chyfansoddwyr clasurol eraill. Dyma wlad y 'Sound of Music', ac roedd Mozart yn cyfeirio at y brifddinas, Vienna, fel 'piano land'.

Fe dreuliodd cyfansoddwyr enwog, fel Beethoven, Brahms, Schumann, Strauss ac eraill beth o'u hamser yn Vienna. Cofiwn hefyd i Freud, Lenin — ia, a Hitler dreulio rhan o'u hoes yma.

Er i ni brofi prysurdeb prif ddinas yma, mae yma yn Vienna hefyd ryw naws hamddenol. Dinas o barciau agored, palasau hardd, strydoedd coediog llydain, a'r cerfluniau a'r bensaerniaeth yn odidog. Mae un peth arall yn nodedig yn Awstria — sef glanweithdra. Peidiwch â phryderu chwaith ynglŷn â throedio strydoedd y brif ddinas yn ystod oriau mân y bore. Does 'na fawr ddim problem tor-cyfraith a thrais yn ninasoedd Awstria.

Er mwyn cael golwg gyffredinol ar y ddinas i bwrpas ffilmio, mi ddringais i y 345 gris i gopa tŵr yr Eglwys Gadeiriol St. Stephan. Roedd hi'n werth yr ymdrech. Roedd dinas wastad Vienna yn ymledu o'm blaen hyd at lannau'r Danube a'r Vienna Woods enwog.

Y darn miwsig y bum i yn ymlafnio ag o pan yn cael gwersi piano aflwyddiannus ers talwm oedd y 'Blue Danube', ac mi lwyddais i ychwanegu sawl nodyn aflafar at gampwaith Strauss. Ond siom oedd sylwi nad yw'r Danube yn las, — na, rhyw lifo'n llwyd ma' hi o'r Fforest Ddu i'r Môr Du gan gusanu glannau wyth gwlad ar ei thaith hirfaith i'r môr.

Dyna o bosib pam y bu i Vienna droi ei chefn ar yr afon. Dim ond cyffwrdd rhan ogleddol y ddinas a wna'r Danube, ond mae'n llifo'n orchestol drwy ganol profddinasoedd Hungary a Iwgoslafia.

Lle arall gwych i gael golwg ar y ddinas hon yw o ben yr Olwyn Fawr ym Mharc adloniant Prater. Dyma'r olwyn a welid yn y ffilm enwog 'The Third Man'.

Mae tri pheth i'w profi yn Vienna. Os oes syched arnoch am hen hanes a thraddodiadau — dyma'r ddinas ddelfrydol i chi.

Os oes gennych syched am gerddoriaeth glasurol — rydych yn y lle iawn. Ac os oes gennych syched am winoedd sych traddodiadol, — coch a gwyn Awstria, cewch gyfle yma i ddrachtio'n helaeth o'r rheiny hefyd.

Ma' nhw'n deud i mi bod 'na ryw Vienna Cake arbennig hefyd. Me'n debyg bod 'na! Ond dyna fo, 'tydi pawb ddim yn gwirioni 'run fath', nag ar yr un pethau.

**Selwyn Griffith**

# COFIO CANTORION THE WELSH IMPERIAL SINGERS

Bydd Gwasg Carreg Gwalch yn cyhoeddi ar Fawrth 1, 1991, lyfr gan Alun Trevor â'r teitl 'Cofio Cantorion: The Welsh Imperial Singers'. Mae'r llyfr dwyieithog hwn yn rhoi hanes, mewn geiriau a lluniau, y Cantorion a roddodd gymaint o bleser i filoedd ym Mhrydain, yr Unol Daleithiau a Chanada yn ystod 1926-1939. Mae diolch yn ddyledus i lawer, meddai'r awdur, ar ddwy ochr i'r Môr Iwerydd, am anfon lluniau, rhaglenni cyngherddau, dyddiaduron, llythyrau, teithlyfrau, rhestri aelodaeth, toriadau ac atgofion a wnaeth y llyfr hwn yn bosibl. Mae diolchgarwch yn ddyledus i ddarllenwyr yr Eco.

Detholiad fydd y llyfr o holl faterion a anfonwyd mor haelionus. Bydd yr elw o werthiant y llyfr yn mynd tuag at gronfa Eisteddfod Genedlaethol Bro Delyn, Yr Wyddgrug, 1991.

Os oes gan ddarllenwyr wybodaeth ychwanegol am y grŵp cantorion proffesiynol hwn, neu am unrhyw un ohonynt, yna buasai Alun Trevor yn falch o glywed gennych. Ysgrifennwch ato yn 5 Windsor Court, Duke Street, Caer, CH1 1RP.


**Wavell Roberts**
CIGYDD
LONDON HOUSE
LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 3574
*PEN CIGYDD Y FRO*
Yr ŵyn lleol mwyaf blasus
Selsig cartref, cigoedd parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist
MYNNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!

Y Bistro
43-45 STRYD FAWR
LLANBERIS
Ffôn: 871278
CURIAD CALON CYMRU

hefyd yn ystod y dydd
Y Bistro Bach
Y MAES
CAERNARFON
Ffôn: 673075
CURIAD CALON CYMRU

WELDIO OFFER FFERM A PHEIRIANNAU DIWYDIANNOL
GWNEUD GIATIAU, FFENSYS AC ATI AR GYFER Y CARTREF
ATGYWEIRIO TAI GWAIR
E. PUGH
WELDING & FABRICATING
32 GLANFFYNNON
LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 5394

# DEINIOLEN

W. O. Williams, 6 Rhydfadog. Ffôn: 871259

PLAID CYMRU: Clwb Cant Mis Ebrill: £10 – Mrs Nan Owen, 48 Rhydfadog; £8.50 – Miss Iola Gruffydd, Cynfi.

Clwb Cant Mis Mai: £10 – Miss Jean Parc Jones, Blaen y Cae; £8.50 – Mrs M. C. Jones, Tan y Caerau.

Clwb Cant Mis Mehefin: £10 – Mrs Helen Sutherland, Pen y Bont; £8.50 – Mrs Margaret Roberts, Crud yr Awel.

Clwb Cant mis Gorffennaf: £10 – Mr Philip Jones, 1 Tŷ'r Faenol; £8.50 – Mr Ifan Bryn Roberts, Tŷ'r Ysgol, Dinorwig.

Clwb Cant Mis Awst: £10 – Mrs Ellen Wyn Williams, 1 Pentre Helen; £8.50 – Mrs Annette Bryn Parri, Cynefin.

CLWB ELIDIR: Cynhaliwyd cyfarfod o'r uchod ar fehefin 19 dan lywyddiaeth Mrs Eirlys Ll. Jones. Cafwyd cwis wedi ei drefnu gan Mrs Jennie E. Williams. Gwesteion y te oedd Mrs Alwen Jones, Mrs Eirlys Ll. Jones a Mrs Megan Morris. Rhoddwyd y raffl gan Mrs Alwen Jones a'r enillydd oedd Mrs Jennie Williams.

Cafwyd rhodd tuag at y Clwb gan Mrs Emyr Pritchard yn ôl ei harfer bob blwyddyn. Yn ogystal cafwyd rhodd anrhydeddus o £100 gan dîm Peldroed Deiniolen. Diolch yn fawr hogia a phob lwc i chi y tymor nesaf. A phwy a ŵyr na fyddwch ar frig y gynghrair yn y dyfodol agos ac y gwelwn fwy fel Malcolm Allen yn chwarae i Gymru.

Dydd Iau, Mehefin 21 aethom fel Clwb am ein trip blynyddol i Gricieth, Porthmadog a Phwllheli, a diolch yn arbennig i Mrs J. Eirlys Williams am drefnu gwledd ardderchog i ni yn Bron Eifion, Cricieth.

Bydd y cyfarfod nesaf ar y 4ydd o Fedi.

SEFYDLIAD Y MERCHED: Cynhaliwyd y cyfarfod yn y Ganolfan ar Orffennaf 2 o dan arweiniad Mrs J. Eirlys Williams, y llywydd. Darllenodd Mrs Williams y llythyr misol a chroesawodd yb wraig wadd sef Mrs Pam Orr, y Felinheli, yn dweud hanes yr AGM yn Llundain ym mis Mehefin. Diolchwyd i Mrs Orr gan Mrs J. Eirlys Williams a Mrs Eirlys Lloyd Jones. Rhoddwyd y te gan Mrs Eirlys Lloyd Jones a Miss Betty Williams.

Enillwyd y raffl gan Mrs J. Eirlys Williams. Bydd y cyfarfod nesaf ar Fedi 3, pryd y cynhelir 'Moes a Phryn' (Bring and Buy).

Y BADAU ACHUB: Yn ddiweddar casglwyd arian yn yr ardal tuag at y Badau Achub. Y casglwyr oedd Mrs Elan G. Williams, Mrs Gloria Thomas a Mr Mathew Thomas. Y cyfanswm oedd £25.65 ac roedd hyn yn cynorthwyo i wneud cyfanswm ardal Caernarfon yn £1103.62. Diolch i bawb am eu hymdrech.

DIOLCH: Dymuna Mr W. J. Eames, cyn Brifathro Ysgol Gwaun Gynfi ddiolch yn gynnes iawn i rieni ac ardalwyr dalgylch yr ysgol, Llywodraethwyr, holl staff a phlant yr ysgol, a chyfeillion eraill, am eu haelioni a'u caredigrwydd ar ei ymddeoliad. Dymuna hefyd ddiolch am yr holl gydweithrediad a dderbyniodd gan yr ardal yn gyffredinol yn ystod y ddwy flynedd ar hugain y bu yn brifathro. Pob dymuniad da i'r dyfodol.

DIOLCH: Dymuna Mrs Eurwen Roberts, 47 Rhydfadog ddiolch i'w theulu, ffrindiau, Staff y gegin, Gofalwyr, Athrawon a Phlant (Gorffennol a Presennol), am yr holl anrhegion, cardiau a dymuniadau da a dderbyniodd ar ei hymddeoliad ar ôl bod yn Gogyddes yn Ysgol Gwaun Gynfi am dros 21 o flynyddoedd hapus iawn. Diolch o galon i bawb.

GWELLA: Da clywed fod Mr Donald Jones, 2 Tai Gweledfa yn gwella ar ôl cyfarfod â damwain yn ystod y gwyliau.

DIOLCH: Dymuna plant y ddiweddar Mrs Maggie Jones, 3 Bro Deiniol, ddiolch yn ddiffuant i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth drist o golli mam, nain a hen-nain annwyl. Diolch yn fawr iawn i bawb.

DIOLCH: Dymuna Miss Ciss Rowlands, Corlan-y-Bont a Mrs Jennie Williams, 1 Rhydfadog ddatgan eu diolchgarwch gwresocaf am bob arwydd o gydymdeimlad atynt yn eu profedigaeth o golli brawd annwyl sef Mr Tom Rowlands, Penmaenmawr. Diolch o galon i bawb.

DIOLCH: Dymuna Elisabeth E. Griffith, 2 Tai Caradog, ddiolch o galon i bawb am yr holl ymweliadau, llythyrau, cardiau, blodau, a galwadau ffôn a dderbyniodd tra yn yr ysbyty ac ar ôl dod adref.



*Enillwyr gemau Pŵl, Darts a Dominos a chwaraewyd yn ystod wythnos Garnifal Deiniolen.*

DIOLCH: Dymuna Barry a Joanne Williams, 14 Rhydfadog, ddiolch i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am yr anrhegion, arian, cardiau a dymuniadau da ar achlysur eu priodas ar 30 Mehefin 1990.

Diolch yn fawr.

DIOLCH: Carwn ddiolch i bawb am y cardiau a'r arian a dderbyniais o ganlyniad i basio fy ngradd ym Mhrifysgol Bangor. Diolch hefyd am bopeth a gefais ar fy un-ar-hugain oed. Rwyf yn gwerthfawrogi'r caredigrwydd yn fawr iawn. Gyda diolch, Sandra Anne Morris, 7 Ffordd Deiniol.

LLONGYFARCHIADAU i Elfed Morgan Morris o Llechwedd, Deiniolen, a enillodd y wobr gyntaf ar unawd dan 8 oed yn Eisteddfod Môn eleni.



EGLWYS CRIST, LLANDINORWIG: Cynhaliwyd Gŵyl Flodau yn Eglwys Llandinorwig o'r 3ydd hyd y 6ed o Awst. Dyma'r ail Ŵyl Flodau i'w threfnu gan ferched yr Eglwys. Y thema eleni oedd dywediadau ein Harglwydd Iesu.



Agorwyd yr Ŵyl gyda gweinyddiad o'r Cymun Bendigaid ar fore dydd Gwener, gyda'r Parchedig Tegid Roberts yn gweinyddu.

Ar y nos Sul, cynhaliwyd Cymanfa Ganu o dan arweiniad Mr Dafydd Wyn Williams, Deiniolen. Yr organyddes oedd Miss Alison Edwards o Lanberis, a chafwyd eitemau gan Seindorf Ieuenctid y pentref.

Ymwelodd nifer fawr o bobl â'r Eglwys yn ystod y pedwar diwrnod yma gan edmygu'r gwahanol drefniadau o flodau a phlanhigion a oedd yma ac acw o gwmpas yr adeilad.

Dymunwn ddiolch o galon i bawb a fu'n cynorthwyo gyda'r gwaith mewn unrhyw fodd i wneud yr Ŵyl yn achlysur llwyddiannus ac yn arbennig felly i Mrs Dilys Jones, Llanrug, am ei chymorth ar fyr rybudd.


GWASANAETHAU ARIANNOL
ERYRI
FINANCIAL SERVICES
41B STRYD FAWR
LLANBERIS
Ffôn: 872003
Guardian Royal Exchange



E.W.Pritchard
CENTRAL GARAGE
Llanberis
Ffôn: 870202 a 870272
TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI



*Dylan Wynn Jones, 18 oed, o Dulas, 4 Stryd Fawr, Deiniolen, yn cymeryd rhan yn y 'British Teenage Darts Championships'. Cafodd yr ornest ei chynnal yn Granby Hall, Canolfan Hamdden Leicester, ar Fehefin 16. Daeth Dylan yn un o'r 9 gorau ym Mhrydain, ac enillodd nifer o wobrau.*




DIOLCH: Dymuna Brenhines Lisa, Tywysoges Kellie, Gweinyddes Debbie a'r Goron-gludwr Christopher, ddiolch o galon i'w perthnasau, ffrindiau a chymdogion am yr anrhegion hardd a dderbyniasant ddiwrnod Carnifal Deiniolen, a diolch i bawb am wneud eu diwrnod mor lwyddiannus.

YMDDIHEURIAD: Drwg gennym fod enw y Canon Glyndwr Williams wedi ei adael allan o'r rhestr yn angladd y ddiweddar Prisi Roberts, gynt o Glanrhydfadog, Deiniolen.

CLWB PELDROED DEINIOLEN: Enillwyr Clwb Cant Mehefin: 1, £80 Sylvia Victoria (Rhif 45); 2, £40 Huwcyn (Rhif 102).

Enillwyr Gorffennaf: 1 £80 Eurwyn Cae Main (Rhif 101); 2 £40 Harry Cronn.

**CLWB PELDROED HŶN DEINIOLEN**

**MANTOLEN AR 6/7/90**

| **Derbyniadau** | **£** | **Taliadau** | **£** |
|---|---|---|---|
| Mewn llaw 12/7/89 ........ | 122.79 | Taliadau'r Gynghrair ........ | 67.45 |
| Cyngor Cymuned ........... | 100.00 | Taliadau trosglwyddo ....... | 25.00 |
| C.E.G.B. Rhodd .............. | 200.00 | Rhwydi, cyfarpar a Cymorth Cyntaf ............. | 293.00 |
| Cyngor Ymddiriedolaeth ... | 200.00 | Yswiriant ...................... | 114.42 |
| Enwi'r Ddol .................. | 39.20 | Taliadau cae .................. | 172.75 |
| Miri Awst ...................... | 140.13 | Hyfforddi ...................... | 115.00 |
| Pronto & Tombola .......... | 17.78 | Taliadau'r Canolwr ......... | 148.30 |
| Ffair Aeaf ..................... | 130.29 | Brechdanau (Wellington).... | 115.00 |
| Clwb Elidir .................... | 80.00 | Golchi'r 'Kit' .................. | 147.00 |
| Taliadau Partïon ............ | 101.00 | Y Ganolfan a'r gegin ........ | 68 |
| Rhoddion ...................... | 385.00 | Petrol + llogi bws .......... | 147.00 |
| Cardiau Peldroed ............ | 199.85 | NWCFA Dirwyon etc ....... | 245.00 |
| Rafflau ......................... | 212.28 | British Telecom .............. | 127.52 |
| Dirwyon ........................ | 44.50 | Orange + Bwyd ............. | 61.27 |
| Taliadau Ystafell Newid .... | 16.00 | Amlenni, stampiau etc ..... | 19.54 |
| Casgliadau bws .............. | 38.12 | Rhoddion ...................... | 21.22 |
| 'Pontoon' ...................... | 444.00 | Parti a Disco ................. | 212.50 |
| Clwb 200 ...................... | 170.00 | Clwb Elidir .................... | 100.00 |
| Casgliadau cae ............... | 126.63 | Tlysau ......................... | 63.85 |
| Cardiau Pêl-droed .......... | 45.00 | Blodau ........................ | 16.50 |
| Rhodd Merched y Bull ...... | 15.00 | Taliadau'r Banc .............. | 3.16 |
| | | Ffurflenni Arwyddo ......... | 1.50 |
| | 2827.57 | | 2284.98 |

Mewn llaw 6/7/90 ..........£542.59

Archwiliwyd a chafwyd yn gywir.
P. Thomas a J. C. Thomas.

**Y RHOSYN**

**Ar doriad y wawr, ynghanol y gwlith,**
**Ynglanol y blodau, sy'n tyfu o'i blith;**
**Roedd rhosyn yn agor i belydrau yr haul,**
**Yn agor ei lygaid, a lledu ei ddail.**

**Hwn oedd y tecaf o flodau yr ardd;**
**Fe garwn ei foli pe bawn i yn fardd!;**
**Yn ei harddwch fe welwn ogoniant gan Dduw**
**A diolchais fy mod yn cael iechyd a byw!!**

**Wrth syllu i'w lygaid, fe welwn i ferch,**
**Un rwyf yn ei charu gyda llawer o serch**
**Mor debyg i'r rhosyn, gosgeiddig a thlos,**
**Ei chroen fel y lili, a'i gwallt fel y nos.**

**Hon yw fy newis, 'nawr rwyf yn rhydd!!**
**A'i charú yn fwyfwy, o ddydd i ddydd;**
**Does gen i ddim cyfoeth i gynnig i'r ferch,**
**Dim ond cyfoeth o ffydd, o gariad a serch!!**

**John V. Morris, Rhianfa, Deiniolen**

# ATGOFION AM Y BATRI

*Annwyl Olygydd,*

*Mi wnes fwynhau yr hanes a gweld y llun o Batri yn yr 'Eco'. Roedd yn dwad a llawer o atgofion yn ôl i mi.*

*Cofiaf y strydoedd bach, sydd yn awr i lawr, a'r plant pryd hynny oedd yn byw yn y Batri ac yn mynychu yr un ysgol â mi.*

*Cofiaf O. R. Tairffynnon, Clwt-y-Bont, oedd y pryd hynny yn 'Town Cryer'. Byddai yn mynd o amgylch hefo'i gloch, ac yn gweiddi hynny allai 'Dalier Sylw — bydd ocsiwn nos Wener Cyfri Mawr'. Noson brysur, swper chwarel ar frys, a mynd i fyny am y Batri, y stôl yn llawn o lestri, teganau, carpedi ac amryw o bethau at y tŷ. Byddai y to canvas yn chwifio yn y gwynt, a digon o sŵn a sbri, a chael mynd adref drwy y pentref i weld y gwahanol bethau da.*

*Cofiaf hefyd bysus J. Hughes a'i gymwynas i'r ardal.*

*Roeddwn yn gweithio yng Nghaer pryd hynny ac yn cael mynd gartre am ddiwrnod unwaith y mis. Y drwg oedd bod y tren yn cyrraedd Bangor 9 o'r gloch y bore, bus J. Hughes yn cychwyn 9 o Bangor i Ddeiniolen. Mi fyddai yn garedig yn dal y bus yn ôl am 5 munud, ac yn oedi wrth y bont yn ymyl y Plaza, byddwn inna yn rhedeg a'm gwynt yn fy nwrn. Byddai Mam wedi bod yn gofyn iddo aros. Nid felly y mae hi y dyddiau yma.*

*Mae un cymeriad hynod yn dod i fy meddwl hefyd a'r enw oedd Sal, wedi gwisgo yn ei barclod gwyn a beret navy, yn sefyll yn y drws yn amal ac yn galw ar rhywun oedd yn pasio. Ffrind i bawb oedd Sal.*

*Pentre caredig a chymwynasgar oedd Deiniolen. Yr 'Eco' yn ddifyr iawn bob amser.*

*Cofion cynhesaf,*
*EIRLYS HARMSHAW,*
*20 Prescot Street,*
*HOOLE,*
*Caer.*

**CÂN I ANN**

**Mae'n anodd llunio cân i Ann,**
**Heb sôn am liw ei gwallt;**
**A dweud rhyw 'chydig eiriau teg,**
**Fel medr pawb eu dallt!!**

**Wrth weld yr hâf yn darfod,**
**Daw lliwiau'r Hydre'n nes;**
**Ag Ann a'i gwallt fel rhedyn,**
**A'i liw fel sglein y pres.**

**Ei llygaid sydd fel awyr haf,**
**Fel dyfroedd glas y môr;**
**A'i llais yw cân yr adar,**
**Ar doriad gwawr fel côr!!**

**Ei chroen fel marmor mynydd,**
**Mor wyn ag ewyn lli;**
**Ei serch sy'n eiddo i arall,**
**Byth, byth yn eiddo i Mi.**

**Ond gwn y câf freuddwydio,**
**A llunio stori ffug;**
**Wrth fyw ar fin y mynydd,**
**Ar erwau'r mawn a'r grug.**

**John V. Morris, Rhianfa, Deiniolen**

**CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR**


Dysgwch yrru'r car gydag

**Y.Y.O.**

**YSGOL YRRU OFALUS**

- **Gwasanaeth 7 diwrnod**
- **O ddrws i ddrws**
- **Control Deuol**

**D L**

**PRITCHARD**
**43 Glanffynnon**
**LLANRUG**
**CAERNARFON 5112**

Cymeradwyir gan yr Adran Drafnidiaeth



**CHIROPODIST**

**Gwasanaeth yn eich Cartref**

**E. Ll. Parry**

**M.S.S.Ch., M.B.Ch.A.**
**57 Glanffynnon**
**LLANRUG**
**Ffôn:**
**Caernarfon**
**5754**

# WAUNFAWR

**Mrs Nan Roberts, Pantafon, Waunfawr**

MERCHED Y WAWR: Nos Iau, Mehefin 28, daeth y tymor i ben gyda noson ardderchog yn Nant Gwrtheyrn.

Ar ddiwedd ei thymor fel llywydd, dymunodd Irene Roberts adferiad iechyd buan i Rhiain Jones, y llywydd newydd, a Mrs Griffith, Llys Helen, y ddwy wedi bod yn yr ysbyty. Cydymdeimlwyd â theulu'r ddiweddar Mrs Slaven.

Enillwyr y raffl gan Nan Roberts ac Ann Griffith.

Pwyllgor y flwyddyn nesaf fydd: llywydd — Rhiain Jones; is-lywydd — Mary V. Jones; trysorydd — Llinos Cadwaladr; is-drysorydd — Joy Glyn; ysgrifennydd — Jill Brown ac i'w chynorthwyo, Beryl Jones, Alma Jones, Carys Owen, Ellen Jones, Margaret Owen, Janet Smith.

Bydd y tymor newydd yn dechrau ar Fedi 27.

Diolchwyd i bawb am eu gwaith yn ystod y flwyddyn gan M. V. Jones.

CRONFA CANOLFAN WAUNFAWR: Enillwyr y Clwb 300 am fis Mehefin: 1, £40: E. W. Roberts, 10 Ael y Bryn; 2, £25: B. Walker, Snowdonia Park Hotel; 3, £10: N. Williams, Llidiart Wen.

Enillwyr Mis Gorffennaf: 1, £40: John Bradshaw, Castle View; 2, £25: Siôn R. Jones, Penrhos; 3, £10: Iolo Huws Roberts, Bodrida.

PLAID CYMRU: Cynhelir Helfa Drysor a Barbeciw i'w dilyn ar nos Sadwrn, 1af o Fedi am 6.30 o'r gloch. Pawb i ymgynnull wrth y Post i gasglu 'cliws'. Dewch yn llu i fwynhau noson ddifyr a blasus. Croeso i aelodau hen a newydd.

YN YR YSBYTY: Anfonwn ein cofion cynhesaf at Mr Hugh Parry, Bro Waun a Mr Eric Jones, Tref Eilian sydd yn yr Ysbyty ym Mangor. Bu Eric Jones yn yr ysbyty ddechrau'r haf, a chafodd ddod adre am ychydig cyn mynd yn ôl i gael llaw driniaeth.

ADREF O'R YSBYTY: Croeso adref o'r ysbyty i Mrs M. Jones, Llwyn Afon; Mrs Rhiain Jones, Tref Eilian; Mrs D. Williams, Seibiant; Mr Harry Griffiths, Llys Helen; Mr J. Jones, Cae Adda; Mr Gwilym Hughes, Tref Eilian; Mr T. A. Thomas, Gilfach; Mr Evan Jones, Stad Tŷ Hen.

CYDYMDEIMLO: Cydymdeimlwn yn fawr â theulu y ddiweddar Mrs Slaven; â Mrs Heulwen Jones, Cyrnant Lodge ar golli ei mam; â Mrs Glenys Pierce, Bryn Gwyn, ar golli ei mam; â Mrs Morfa Evans, David a Rhiannon a'u teuluoedd, Preswylfa, yn eu profediaeth o golli priod a thad a thaid; â theulu a ffrindiau y ddiweddar Miss Owilda Williams, Fronllwyd; â Mr John Sprott, Llys Gwynt, ar golli ei fam.

DIOLCH: Dymuna Miss Nansi Griffith a theulu Tan Rallt ddiolch am bob cydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth o golli ffrind agos iawn, Miss Owilda Williams. Diolch am y rhoddion ariannol o £400 a roddwyd er côf amdani i Feddygfa Waunfawr.

DAMWAIN: Torrodd Mrs Griffith, stad newydd Croes y Waun ei braich, a brifodd Carys Jones Morawel, a Carys Jones Bryn Golau, eu traed mewn damweiniau.

LLONGYFARCHIADAU i bobl ifanc y pentref am lwyddo mor dda yn eu harholiadau. Dymunwn y gorau iddynt i'r dyfodol.

DYMUNIADAU gorau i bawb fydd yn cychwyn mewn ysgol, coleg neu swydd newydd.

LLONGYFARCHIADAU a dymuniadau gorau i Susan Grundy, Fairfield a Clive Beech, Bronallt, ar gyrraedd eu 18 oed, ac i Iona Williams, Trem y Don, ar gyrraedd ei 21ain.

LLONGYFARCHIADAU i Mrs Bertha Warwick, Llys Awel, ar ddathlu ei phenblwydd yn 100 oed ddiwedd mis Gorffennaf. I ddathlu'r achlysur cafodd barti mawr gan ei theulu a bu'n plannu coeden ar dir y ganolfan.

Hefyd llongyfarchwn Miss Katie Bee Williams, sydd yng nghartref Tyddyn Elan, Llanrug, ar ddathlu ei phenblwydd yn 90 oed ddechrau Awst.

LLONGYFARCHIADAU: i Mr Gwynn Davies, Bryn Eithin, ar gael ei urddo i'r Wisg Wen yn yr Eisteddfod Genedlaethol, ac ar ennill ar englyn y dydd yno; i Mrs Pat Parry, Ffridd Felan a Mr Harry Griffith, Llys Helen, ar gael eu codi yn flaenoriaid yn Eglwys Bethel; i Sandra Jones, Graianfryn ar ei phriodas â Neil Roberts o Frynrefail; i Mr Robert ap Wyn Williams, Tegannedd, ar ei briodas â Miss Angarad Rhys o Gaernarfon.

DIOLCH: Dymuna Janet a Peter Greasley ddiolch i bawb am y



*Dyma Siôn, Marc a Dafydd a anwyd yn Ysbyty Dewi Sant ar Ebrill 14. Pan anwyd y tri, 2 bwys a 9 owns oedd Siôn, 2 bwys a 15 owns oedd Dafydd a 2 bwys a 4 owns oedd Marc, ond ar ôl treulio 11 wythnos yn yr ysbyty ym Mangor a Lerpwl, daeth y tri bach adre, ac maent yn dod ymlaen yn dda iawn.*

cardiau, yr anrhegion a'r caredigrwydd y maent wedi eu derbyn ar achlysur geni eu tri mab bach. Diolch i feddygon a nyrsus yr ardal am eu gofal a'u cyngor.

LLONGYFARCHIADAU i Kevin Roberts, Sŵn y Gwynt, ar ei ddyweddiad â Amy o gyffiniau Caerlŷr.

ARHOLIADAU CERDD: Llongyfarchiadau i Heddus Gwynedd, Nant (anrhydedd); Kirsty Jones, Cynefin (anrhydedd) a Geraint Roberts, Pant Afon am lwyddo yn arholiad theori Gradd 1; i Meilir Gwynedd ar lwyddo yng Ngradd 4 ac i Alaw Jones, Rhandir Mwyn, Gradd 5 gyda theilyngdod; i Elain Medi, Glyn Awel a Llio Rhisiart, Llwyn Onn, ar lwyddo yn yr arholiad piano Gradd 3, ac i Zoe Gordon, Y Garnedd Wen, ar lwyddo yng Ngradd 5 gyda theilyngdod.

BEDYDD: Yng Nghapel Bethel, gyda'r Parch Geraint Roberts, Penygroes yn gweinyddi, bedyddiwyd Angharad, merch fach Iris a Keith, Stad Tŷ Hen.

YMDDEOLIAD: Dymunwn yn dda i Mr Robin ap Wyn Williams, Tegannedd, a Mr Geraint Davies, Dol Gwyrfai, ar eu hymddeoliad o'i swyddi yn Ysgol Syr Hugh Owen; hefyd i Mrs Eames ac i Mrs Gwenlli Williams, Ardwyn ar eu hymddeoliad o'u swyddi yn Ysgol Waunfawr.

DYMUNA Mrs Gwenlli Williams ddiolch i blant, athrawon a staff y gegin, cyn ddisgyblion a rhieni am eu dymuniadau da a'u haelioni a'r cardiau a dderbyniodd yn dilyn ei hymddeoliad ddiwedd y tymor oddi ar staff yr ysgol leol.

GENEDIGAETH: Llongyfarchiadau i Sharon a Gethin, Fflat Anwylfa, ar enedigaeth eu merch fach, Emma. Llongyfarchwn John a Sulwen Lewis, Bryn Golau a Rol a Gwenlli Williams, Ardwyn, ar ddod yn daid a nain, a Mrs Annie Williams, Drws-y-Nant ar ddod yn hen-nain.

DYMUNA Sharon a Gethin ddiolch i bawb am yr anrhegion a'r cardiau a dderbyniasant ar enedigaeth eu merch fach, Emma.

DIOLCH: Dymuna Mary Jones, Llwyn Afon, ddiolch i'w theulu, cymdogion a ffrindiau am y caredigrwydd a'r dymuniadau da a dderbyniodd tra bu yn yr ysbyty ac ar ôl dod adref.

DIOLCH: Dymuna Heulwen a'r teulu, Cyrnant Lodge, ddiolch o galon i'w ffrindiau a'u cymdogion am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli mam a nain annwyl iawn. Diolch am y llu cardiau a'r rhoddion hael a dderbyniwyd tuag at Uned Gofal Arbennig Ysbyty Gwynedd.

LLONGYFARCHIADAU i Emma Davies, Hafan, ar ennill cystadleuaeth Eco'r Ifanc yn y rhifyn diwethaf; i Anwen Jones, Llwyn Afon ar lwyddo yn yr arholiad Ffliwt, Gradd 5; i Kylie Jones, Cynefin ar lwyddo yn yr arholiad Clarinet, Gradd 5; i deulu Bryn Teg ar enedigaeth merch fach.

YSGOL WAUNFAWR: Tybed sawl athro neu brifathro ofynnodd y cwestiwn hwn wrth ymlwybro'n flinedig tua'r ysgol ddechrau


**CARPEDI GLÂN!**

Mynnwch driniaeth

**STIMVAK**

gyda'r offer mwyaf modern, diweddaraf, sydd ar gael. Am fanylion cysylltwch â

**TEGID PRITCHARD**

**CANOLFAN CARPEDI WAUNFAWR 291**

**Hefyd ail-osod carpedi**

**LLEUFER O. ac N. PRITCHARD**

**CANOLFAN CARPEDI**

**WAUNFAWR**

AR AGOR
9-7pm
9-5pm Sadwrn
AR GAU
SUL, MERCHER.



DEWIS EANG O WELYAU SENGL A DWBL
DEWIS EANG O '3 PEICE SUITES'
LLENNI 'VENETIAN' A LLENNI 'ROLER'
GWAITH CONTRACT
5000 LLATHEN SGWÂR O GARPEDI MEWN STOC – ALLWCH CHI FFORDDIO PRYNU O BATRYMAU?

Rhif Ffôn y Siop yn ystod oriau agor:
**WAUNFAWR 291**

**W. H. JONES**

TRYDANWR

**Green Bank**

**Stryd Fawr**

**LLANBERIS**

**Ffôn: Llanberis 871470**

Cotractau Weirio Tai

Cawodydd Trydan ac ati

Mehefin? 'Oes bywyd ar ôl Eisteddfod yr Urdd???'

Wel roedd yn rhaid bwrw ati o ddifrif am weddill tymor yr haf rhag i'r teimlad fflat, diflas ddifetha holl bwrpas yr Wyl.

Cawsom ddau drip bendigedig, y babanod i Benmon ac yna i'r sŵ Fôr ym Mrynsiencyn, a'r plant lau i Sŵ Bae Colwyn ac yna i Barc Eirias. Roedd hi'n werth gweld y plant yn rhwyfo ar y llyn yn y Parc a'r Brifathrawes fel rhyw 'giaptan cwch mwd' yn rhwyfo'r plant o amgylch y llyn! Rhyw ail fyw ei phlentyndod oedd hi mae'n siŵr, ar ôl colli llawer rhwyf ar lyn Nantlle!

Peth braf yw canmol a gwerthfawrogi gweithgarwch a dyfalbarhad ar ddiwedd blwyddyn ysgol. Kirsty Jones oedd yn teilyngu Tarian Gerdd yr ysgol eleni, am ei chyfraniad clodwiw i weithgareddau cerddorol yr ysgol.

Dan haul crasboeth Gorffennaf cynhaliwyd y mabolgampau. Roedd cystadleuaeth frwd iawn ymhlith y merched, a chlos iawn oedd y marciau ar y diwedd. Gwenno Owen enillodd y Darian i'r ferch gyda'r marciau uchaf a Meirion Williams oedd pencampwr y bechgyn. Llongyfarchiadau i'r ddau.

Dewisodd Ffion Edwards 'Llygredd' yn destun i'w chywaith personol eleni. Roedd ei hymdriniaeth drylwyr ac aeddfed o'r pwnc amserol hwn yn sicrhau ei haeddiant o'r Darian gywaith am eleni.

Yn ei feirniadaeth adeiladol i'r plant, cyfeiriodd Mr Leslie Jones, y cyn Brifathro, at bwysigrwydd cynnal safon gweithgaredd gydol y gwaith ac nid cyflwyno rhyw 'Dân Siafins' o waith. Canmolodd gyflwyniad graenus ac artistig Ffion, a phwysleisiodd run pryd y pwysigrwydd o gyflwyno eu gwaith eu hunain bob amser. Roedd hi'n amlwg mai gwaith a syniadau Ffion yn gyfangwbl oedd y cywaith hwn. Llongyfarchiadau iddi.

Tasg anodd iawn bob amser yw ffarwelio, yn enwedig â chydweithwyr. Dydd Mawrth olaf y Tymor fe gafodd plant y Babanod de parti allan yn y cae. Te parti Mrs Gwenlli Williams oedden ni'n ei alw fo, gan mai dangos ein gwerthfawrogiad o wasanaeth Mrs Williams i'r Ysgol a'i hanrhegu oedd y prif fwriad. Cyflwynwyd tusw o flodau a siec i Mrs Williams, a chanodd y plant gân o ddiolch:
'. . . am edrych ar ein hôl
ar ôl i ni adael côl'.

Cam reit fawr oedd hyn yn wir i blantos bach.

Dymunwn ymddeoliad hapus i chi Mrs Williams, a iechyd.

B'nawn lau daeth cyfle i ni gael mynegi ein diolch am wasanaeth Mrs eames ar ei hymddeoliad hithau. Bu Mrs Eames yn athrawes yn Ysgol Waunfawr am dros ddwy flynedd ar hugain. Yn ystod y cyfnod magodd lawer tô o ddisgyblion gan ennyn eu diddordeb mewn cerddoriaeth a'u hysbrydoli i ddilyn ymhellach eu dawn.

Yn ystod y cyfarfod mynegodd y Parch Ganon Barry W. Thomas (Cadeirydd y Llywodraethwyr) ddiolch y gymdogaeth i Mrs Eames am ei hymroddiad ac am roi o'i dawn a'i thalent i blant y pentref. Ategwyd ei sylwadau gan Mr Leslie Jones, y cyn-Brifathro gan ychwanegu a'n hatgoffa o gyfraniadau gwerthfawr at raglenni fel 'caniadaeth y Cysegr'.

Perfformiwyd Cân Actol 'Y Fferm' gan adran y Babanod a chanwyd cadwyn o ganeuon ysgafn gan y plant hŷn.

Cyflwynwyd tusw o flodau a siec i Mrs Eames gan Llio a Huw. Dymunwn ymddeoliad hapus i chi a Mr Eames gan obeithio y cewch dreulio'r amser yn ddedwydd.

Cyn gorffen, dymuniadau gorau i'r plant sy'n mynd i Ysgol Syr Hugh Owen ym mis Medi am y tro cyntaf. Cofiwch mai llysgenhadon o Ysgol Waunfawr fyddwch chi am dipyn! Pob lwc.



*Kirsty Jones hefo Mrs Anne Marston, rhoddwr y Darian Gerdd a Mr Roland Morris (Trefnydd Cerdd Clwyd) oedd yn cyflwyno'r Darian eleni.*

*Yn anffodus ni chafwyd lluniau o'r disgyblion eraill yn derbyn eu tariannau hwy — Gol.*





*Elain Medi, cyntaf am naid hir, Kevin Davies, ail am daflu pêl ym Mabolgampau Sir yr Urdd ym Mangor.*

YR URDD: Llongyfarchiadau i Elain Medi, Glyn Awel ar ddod yn gyntaf yng nghystadleuaeth naid hir dan 13 oed ac yn ail yn y ras redeg dan 13 oed ym mabolgampau'r Sir ym Mangor yn ddiweddar, ac i Kevin Davies, Hafan, ar ddod yn ail yn y gystadleuaeth taflu pêl dan 12 oed.

Bydd cyfarfodydd yr Urdd yn dechrau ym mis Medi am 6.00 o'r gloch bob nos Fercher yn y Ganolfan. Bydd croeso i blant Safon 1 i Safon 4, ac i disgyblion blwyddyn 1 Ysgol Syr Hugh Owen i ymaelodi a chymryd rhan yn y gweithgareddau. Hysbysir chwi o'r dyddiad yn yr Ysgol.

Bydd cyfarfod i aelodau Pwyllgor yr Urdd yn y Ganolfan nos Fercher, medi 5 am 7.30 o'r gloch.

## TAN Y COED

**Bethan Parry, Ael y Bryn. Ffôn: 870276**

CYDYMDEIMLWN â Mrs Hefina Roberts a'r teulu ar golli ei mam, Mrs E. Pritchard, Nant Peris, yn ddiweddar.

BEDYDD: Dydd Sul, Gorffennaf 8, bedyddiwyd Stacey Joanne, merch fach Mr a Mrs Gary Wynne, Gilfach, wyres gyntaf i Mr a Mrs O. E. Wynne, Llety Llwyd, a gor-wyres gyntaf Mr a Mrs R. Wynne, Llanfairfechan (Gelliod, gynt).

GWELLHAD BUAN i Mr R. Blanchard, Pant y Coed, ar ôl triniaeth lawfeddygol yn Ysbyty'r Royal, Lerpwl.

LLONGYFARCHIADAU i Nicola Lamerick, Ty'n Llwyn, ar gael gwobr gyntaf am adrodd o dan 6 oed yn Eisteddfod Bentref Penisarwaun yn ddiweddar.

Hefyd i Amlyn Evans, Carwyn, ar ei lwyddiant yn yr arholiadau lefel A, ac ar gael ysgoloriaeth i Goleg Caergrawnt.

Hefyd i Wyn Parry, Ael y Bryn, am lwyddo yn ei arholiadau Sefydliad Dinas a Gildiau Llundain.

NEWID YSGOL: Pob lwc i Beverley Ann Roberts, Awelfryn, a Sara Salisbury Roberts, Garnedd, sydd yn dechrau yn Ysgol Brynrefail ym mis Medi.


GARTH MAELOG
PET CENTRE AND GROOMING SALON
Bwyd ac anghenion
Anifeiliaid anwes bychan
Pysgod dwr oer
Offer pysgota
Molchi, cribo a chlipio
cwn a chathod
o bob math
gan arbenigwr
STRYD FAWR, LLANBERIS 870840

ROYAL VICTORIA HOTEL
LLANBERIS 870149
★ Bwyd da ★ Cwrw da
★ Cwmni da





SIOP
Nwyddau Gardd
Cynnyrch Cartref
Crefftwaith
ANTUR WAUNFAWR
CANOLFAN GARDDIO
Blodau, Grug
Alpau, Perthi
ANTUR WAUNFAWR
Ffôn:Waunfawr 721
Cynnal a Chadw Gerddi
Cynnal a Chadw
Plannu Coed
Meinciau Concrid a Phren
Planters Concrid a Phren
Corachod


OSMOND SHAW
DEINIOLEN
GWERTHU
- TRWSIO
★ Teledu
★ Fideo
★ Offer Trydan
Gwasanaeth
Ffôn 24 awr
LLANBERIS 870545


# ECO'R IFANC

## LLIWIWCH Y LLUN

### GAN DDEFNYDDIO Y LLIWIAU PRIODOL

1 - COCH
2 - GLAS GOLAU
3 - OREN
4 - BROWN
5 - GWYRDD TYWYLL
6 - PINC
7 - GWYRDD GOLAU
8 - MELYN 9 - GLAS





## EWCH O DDOT I DDOT

## CORNEL JÔCS

Bore da Dei. Pam fod gen ti sosej y tu ôl i dy glust?
Sosej?
Ia. Mae gen ti sosej y tu ôl i dy glust.
O na! Mae'n rhaid fy mod i wedi bwyta fy mhensel i frecwast!!

Dic: Faint o'r gloch ydy hi, Wil?
Wil: Tua chwarter i unarddeg?
Dic: O na ddim eto.
Wil: Beth sy'n bod, Dic?
Dic: Dwi wedi bod yn gofyn yr amser i ti drwy'r bore ac rwyt ti'n rhoi ateb gwahanol i mi bob tro!

Beth sy'n goch a phips ynddo?
Teliffon!

Beth ddywedodd Mami cangarw wrth y babi cangarw?
Symud o fy mhoced i mi gael nôl fy hances!

Ha ha! Ha ha!

Pan daflodd llongwr du garreg lâs i'r Môr Coch, beth ddigwyddodd iddi?
Mi suddodd hi!!

Hei! Mam! Mam! Brysia! Brysia!
Paid ti a gweiddi arna i — dwi wedi dweud wrthat ti bedair gwaith yn yr hanner awr diwethaf: mi fydda i'n barod mewn munud!!!

Dic: Hei, Wil!
Wil: be, Dic?
Dic: Rydw i am fynd am drip i'r Lleuad!
Wil: Ew, dydy hynny'n ddim byd!
Dic: E? E? I ble rwyt ti'n mynd, ta?
Wil: I'r Haul!
Dic: I'r Haul! Ond mae'n rhy boeth o lawer iti fynd i'r Haul!
Wil: Nag ydy, siwr. Rydw i am fynd yno yn y nos!!!

Beth sy'n mynd ŴM! ŴM! ŴM! ŴM! . . .
Dwn i ddim, beth sy'n mynd ŴM! ŴM! ŴM!
Buwch sy'n mynd am yn ôl!!

Beth wyt ti'n galw dyn ffyrnig?
LLEW.

Beth wyt ti'n galw dyn sy'n rhedeg ar y traeth?
I-FOR.

Beth sy'n felyn, yn gryf, yn rhedeg yn araf deg ac sy'n ddrud iawn?
Banana Beionig!!

Beth sy'n wyn tu allan, yn wyrdd y tu mewn ac sy'n neidio?
Brechdan broga!!

Pa bryd mae dafad yn cael ei phenblwydd?
Me-e-hefin.

Pam mae'r môr yn rhuo?
Am fod crancod ar ei wely!

Sut wyliau gawsoch chi? rwy'n siŵr eich bod i gyd wedi cael saib braf, ac wedi mwynhau y tywydd braf ym mis Awst. Fuoch chi i ffwrdd ar eich gwyliau? Ddigwyddodd rhywbeth diddorol? Beth am rannu'r hanes gyda ni yn y 'Gornel'. Anfonwch eich storiau neu'ch hanesion i'r 'ECO', erbyn Medi 18.

Enillwyr cystadleuaeth Mis Gorffennaf oed:
**Ruth Menna Jones, Market Street, Llanberis (5 oed)**
**Erica Lyn Jones, 7 Ael y Bryn, Waunfawr (5 oed).**
LLONGYFARCHIADAU I CHI'CH DWY!!

# CYSTADLEUAETH MIS MEDI

ENW ............................................................

CYFEIRIAD ....................................................

..................................................................

..................................................................

OED ............................................................

# LLIWIWCH Y LLUN



# LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Becws Eryri. Ffôn: 870491

YSGOL FEITHRIN: Dymuna'r Ysgol Feithrin ddiolch i Bwyllgor ras yr Wyddfa am gael caniatad i godi tâl am barcio ar ddiwrnod y Ras. Gwnaed elw o £57.70. Diolch hefyd i bawb a gyfrannodd tuag at y stondin gacennau. Gwnaed elw o £61 ar y diwrnod.

ANTUR PADARN: Dyma enillwyr raffl diwrnod Ras yr Wyddfa: 1, Hamper o Ffrwythau — Nellie Morris, 54 Dol Elidir; 2, Bocs o Lysiau — Jenny (Raynet); 3, Potel o Win — Kevin, 39 Maes Padarn; 4, Potel o Win — Siop Ffrwythau Glan y Don; 5, Bocs o Siocled — Tŷ Crwn; 6, Bocs o Siocled — Tristan, Rhes y Cae; 7, Dysglau Ffrwythau — Mark Ellis, 8 Dol Elidir.

Gwnaed elw o £69.50 tuag at Antur Padarn. Diolch o galon i bawb a gyfrannodd.

SEFYDLIAD Y MERCHED: Cynhaliwyd ein Taith Ddirgel nos Iau, mehefin 28. Aethom i fyny Bwlch Llanberis ac yna ymlaen i Drefriw i weld y Trefriw Wells. Yna ymlaen wedyn i Ferry Inn, Tal-y-Cafn lle roedd gwledd wedi ei darparu ar ein cyfer. Diolchwyd ar y bws i Mrs Glenys Jones a Mrs Betty Jones am drefnu y trip.

Cynhaliwyd cyfarfod mis Gorffennaf yn y Ganolfan gyda Mrs Hannah Jones yn llywyddu. Ein gŵr gwadd oedd Mr Colin Hayers o Ddeiniolen a chafwyd sgwrs ac arddangosfa gwaith Turniwr Pren cain. Diolchwyd iddo ac i'r gwestwragedd gan Mrs Jan Davies a Mrs Dilys Phillips. Y gwestwragedd oedd Mrs Hannah Jones a Mrs Helen Morris. Enillwyd y raffl gan Mrs Glenys Jones a Mrs Hannah Jones.

Bydd y cyfarfod nesaf ar Fedi 27.

FIDIOS O'R CARNIFAL: I gofio wythnos Carnifal 1990, mae'r fidios canlynol ar gael trwy gysylltu â John Blight ar Llanberis 872209. Hwyrach eich bod chi ar un ohonynt — beth am gael golwg?:

Coroni Y Frenhines/Sioe Ffasiwn; Noson o Gân; Cystadleuaeth Pŵl; Mabolgampau; Pelrwyd/Peldroed.

LLONGYFARCHIADAU i Maria a Dylan ar achlysur eu dyweddiad, oddi wrth Bethan, Helen, Jackie a Jade bach.

Hefyd i Bethan Jones, 60 Dol Elidir ar basio ei harholiadau trin gwallt yn y Coleg Technegol, Bangor.

Hefyd i Catherine, 6 Rallt Goch ar ddathlu ei phen blwydd yn 50 ar Awst 2.

DYMUNIADAU DA i Vera ac Arfon ar achlysur eu priodas.

Dymuniadau da i Paul, Jackie a Jade yn eu cartref newydd yn 2 Stad Tŷ Du. Hefyd i Jade bach ar dy benblwydd yn un oed ar Awst 29, oddi wrth Bethan, Helen, Maria a Vera.

Dymuniadau da i Iorwen, Brian a Kenny yn eu cartref newydd ar Ynys Môn.

BEDYDD: Yn ddiweddar bedyddiwyd Sophie, merch fach Menai a Neil, 25 Dol Elidir, yn Eglwys St Padarn.

Dydd Sul, Awst 19, yn Eglwys St Padarn bedyddiwyd merch fach Yvonne a Kevin, 17 Stryd Goodman.

CLWB CANT YSGOL DOLBADARN: Enillwyr mis Gorffennaf oedd: £25, R Ll Williams, Halford Hill (107); £15, J O'Donnell, Grove House (19); £10, B Hughes, 1 Glyn Rhonwy (149).

Hanner blwyddyn (£50): B. Hughes, 1 Glyn Rhonwy (149).

Enillwyr mis Awst oedd: £25, Mrs Eirian Owen, 7 Beddgwenan, Llandwrog (134); £15, Keith Evans, 2 Yankee St., Llanberis (99); £10, Mrs Nan Huws Roberts, Bodrida, Waunfawr (108).

DIOLCH: Dymuna Ffion Lloyd Hughes, 1 Coed y Glyn (Gweinyddes Carnifal Llanberis 1990) ddiolch o galon i bawb am yr anrhegion a'r dymuniadau da.

Dymuna Bob a Norah LLoyd ddiolch o galon i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad tuag atynt yn eu profedigaeth o golli brawd annwyl, Evie.

Dymuna Mona, Gwynfryn, Keith a June ddiolch yn fawr iawn am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth o golli mam a nain annwyl, sef Mrs Margaret Jane Roberts, gynt o Fern Dale, Ffordd y Sir, Penygroes.

Dymuna Mr a Mrs R. H. Williams a'r teulu yn 5 Rhes y faenol, ddiolch o galon i bawb am y caredigrwydd a'r cydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli brawd ieuengaf Mr Williams yn sydyn yn Wrecsam.

Dymuna Eilwen Charters a'r teulu, Cerniog, Lon Wig, Pontllyfni, Caernarfon, ddatgan eu diolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad â hwy yn eu profedigaeth.

Dymuna Ann, Heulwen, a theulu'r ddiweddar Alice Peris Hughes, Hafan, ddiolch o galon i'w cymdogion a chyfeillion am bob arwydd o gydymdeimlad, cymorth a charedigrwydd a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli mam, nain a chwaer annwyl. Diolch am y llu cardiau a rhoddion hael a dderbyniwyd tuag at Uned Gofal Arbennig Ysbyty Gwynedd.

Diolch i'r Parch John Pritchard am ei wasanaeth a Mr Myrddin Pritchard am y trefniadau angladdol.

DYMUNA Mrs Carys Hughes ddiolch o galon i'w pherthnasau, ffrindiau a chymdogion am y llu cardiau, anrhegion a blodau a dderbyniodd tra roedd yn Ysbyty Llandudno.

DYMUNA eryl Jones a'r teulu, 14 Stryd y Ffynnon, Llanberis, ddiolch am bob caredigrwydd a ddangoswyd gan bawb tra bu'n derbyn llawdriniaeth yn Ysbyty Dewi Sant yn ddiweddar, ac am y llu cardiau ac anrhegion a dderbyniodd.

DYMUNA Mrs Anne Parry, Sycharth, Preswylfa, ddiolch o galon i berthnasau, cyfeillion a chymdogion am eu caredigrwydd tra yn yr ysbyty ac wedi dychwelyd adref.

DYMUNA Pat Williams, 5 Water Street, Llanberis, ddiolch yn ddiffuant i ffrindiau, cymdogion a phentrefwyr am yr holl gardiau, anrhegion a galwadau ffôn a dderbyniodd tra yn yr ysbyty yn ddiweddar. Diolch o galon i bawb.

DYMUNA Audrey a Jack, 2 Bryniau Gerddi, ddiolch o galon i bawb a wnaeth achlysur eu Priodas Ruddem mor fythgofiadwy. Diolch am y llu cardiau, anrhegion a galwadau ffôn.

Diolch arbennig iawn i Beth am wneud ac addurno cacen hardd; i John Hughes am ysgrifennu geiriau addas i'r achlysur ac i Mattie am eu canu; i Glyn am ein diddori mor wych ar y piano ac i Westy'r Fictoria am y wledd.

ENILLYDD TRYSOR YN Y LLYFRGELL: Mae Ben Owen, 10 oed, o Lanberis wedi darganfod trysor yn ei lyfrgell leol.

Llwyddodd dros bedwar cant o blant trwy Wynedd i gwblhau Cynllun y Trysor a drefnir gan Wasanaeth Llyfrgell Sir Gwynedd, ond enw Ben dynnwyd allan o'r het fel un o enillwyr gwobr arbennig, gan yr actores Mari Gwilym.

Cyflwynwyd gwobr i Ben ar ddydd Mercher, Awst 1 yn Llyfrgell Llanberis, gan Hywel James.

Dyma'r pedwerydd gwobrwyo o'r fath a gynhaliwyd gan Wasanaeth Llyfrgell y Sir ers lawnsio'r cynllun ym Mawrth 1989. Profodd Cynllun y Trysor yn



ddull hynod o boblogaidd i annog plant i ddefnyddio eu llyfrgell leol yn rheolaidd.

Wrth fenthyg llyfrau mae cyfle gan blant, sydd yn aelodau o'r cynllun, i hel set o sticeri lliwgar. Mae pob plentyn sydd yn llwyddo i gasglu'r set llawn yn cael bathodyn Cnonyn Llyfr a'r siawns o ennill gwobr arbennig.

Am fanylion pellach, cysylltwch â: Hywel James, Uwch-Lyfrgellydd Plant ac Ysgolion, Gwasanaeth Llyfrgell Sir Gwynedd. Ffôn: Caernarfon 4121 Est. 2462 neu 2465.


**NOSON GOFFI**
**Yn Y Ganolfan, Llanberis**
**Nos Iau, Medi 13**
**am 7.00**
Elw tuag at brynu
Peiriant ECG i'r Clinic

**TE CYMREIG**
**yn "Angorfa"**
**o 11.00 hyd 4.00**
**dydd Llun, Medi 10**
dan nawddd Cangen
NSPCC Bro Peris

**GLASLYN ANTIQUES**
*STRYD FAWR, LLANBERIS*
*PRYNIR A GWERTHIR*
*Hen Bethau, Darluniau a Dodrefn y gorffennol*
*FFÔN: LLANBERIS 870080*

**SIMNEIAU GWAEL? CRACIAU MWG A HOGLA' TARO PERYGLUS**
**Cysylltwch â David Wood**
**'INSULAFLUE'**
**Yr Arbenigwyr ar leinio simneiau**
FRON HEULOG, DINORWIG
Ffôn: Llanberis 871376

**FIDEO FIDEO FIDEO**
**Gwasanaeth Fideo Proffeslynol**
**JOHN BLIGHT**
**LLANBERIS**
**872209**
Priodasau a phob achlysur arbennig arall
Hefyd Ffilmiau Hyfforddi
a Gwasanaeth newid
CINE I FIDEO

# GWAED GWIRION

## Y Gwalch

**Roedd gen i fodryb, Grace Williams oedd ei henw hi, yn byw yn y Rhydau, ar y terfyn â thir fy nhaid yn yr hen ganrif. Ac yr ydw i'n dal i ddyfalu sut y cafodd y lle y fath enw — yng nghanol tir sych fel y mae o, ac yn gyfochrog â darn a fu yn boncan eithin, ac a elwid yn Bonc yr Ynys Wen — hynny ynghyd â'r Ynys Lwyd ac Ynys Iago yn yr un fro, yn gwneud i rhywun ddychmygu fod darn o'r tir yna wedi ei foddi ar un cyfnod.**

Mae yna ddarnau o lôn bach uchel-gloddiog, wedi eichau â chyll a sbwriel, yn mynd heibio i dir y Rhydau. Lôn Clechydd oedd hi'n cael ei galw. Ar hyd hon rwy'n deall y byddai ceffylau pwn yn cario llechi i'r Felinheli, ac ar hyd-ddi byddai chwarelwyr Sir Fôn yn cerdded yn eu trowsusau calico, i Ddinorwig ar fore Llun, ac yn dychwelyd o'r bricsod chweinllyd rheiny ar bnawn Sadwrn.

Beth bynnag, mi fuo Grace farw yn ddynes ifanc o'r ddarfodedigaeth yn haf 1914. Diblant oedd hi, ac mae ei bedd ger y porth ym mynwent Llan-ddeiniolen, yn gorwedd yno ei hun, yn ôl yr argraff ar y maen, er fod ganddi hi ŵr. William oedd ei enw, mab y Rhydau, ac os gwir y gair yn un digon di-ddim. Roedd o'n cerdded y ffeiriau a'r marchnadoedd tra byddai Grace adra yn bydio hefo gorchwylion y ffarm. Mae 'na rai o'i ddisgyblion o yn dal hyd y fan 'ma o hyd rwy'n sylwi.

Serch hynny, efallai ei fod o yn cael dipyn o gam. Roedd o'n yfwr — nid o angenrhaid gwrw — ond rhyw wlybwr a fyddai o fewn cyrraedd ei benelin o. Fyddai ddim ganddo fo gofftio chwart o lefrith mewn jwg oddiar y bwrdd ar ei dalcan. Credu rwyf i ei fod o'n dioddef gan y clefyd melys, ond heb fod ar gyfyl unrhyw gyngor na meddygiaiaeth i sylweddoli hynny. Wrth gwrs, oes felly oedd hi. Doedd yna fawr o ddewis i bobl gyffredin ond brwydro ymlaen fel anifeiliaid direswm a syrthio yn y tresi.

Hogan ddigon plaen oedd Grace yn ôl y llun sydd yma o'i phriodas, ond roedd fy mam yn dweud bob amsar fod iddi rhyw harddwch mewnol, fel na fu raid iddi farw er sicrhau clod. Roedd hi'n anatebol weithiau i wneud ei gwaith, ac yn orweddog, fel yr oedd ei haint yn gwaethygu. Mae yma gerdyn post wedi ei gyfeirio at fy mam oddi wrth Grace, yn erfyn arni ddod i'w gweld. Mae'n siŵr gen i ei bod hi'n ei chanfod hi'n fwy-fwy anodd i wneud ei gorchwylion dibendraw: cario dŵr, pobi, hel poethwal i ffaglu, cywain gwair a chorddi.

Doedd yr orchwyl honno bryd hynny ddim heb ei pharatoadau maith. Mewn ffermydd gyda buches a odrid ddwywaith y dydd â llaw, roedd yna ddau, os nad tri corddiad mewn wythnos. Roedd y llefrith yn cael ei hidlo yn ddyddiol i botiau pridd pum galwyn, ac yna ei gadw i dewychu am ddiwrnod neu ddau yn y tŷ llaeth. Yn oerni'r gaeaf byddai yn anodd i'w gael i wneud hynny. Cludid y potiau i'r tŷ ar garfil, a'u gosod ger y tân mewn cistiau te wedi eu llenwi â gwair. Roedd y gymysgfa yma wedyn yn cael ei dywallt i fuddai ugain galwyn a'i gloncio â phedair aden bren a droai y tu mewn, nes byddai'r menyn wedi torri ar wyneb y llaeth. Helid hwnnw wedyn hefo cwpan denau i noe a'i ddyrnu i gael gwared â'r llaeth enwyn ohono. Roedd y menyn yn cael ei halltu wedyn a'i wneud yn bwysi. Roedd gan rai brintan bren arbennig i'w farcio ar ei ben.

Ond nid dyna oedd diwedd yr orchwyl o bell ffordd. Byddai yn rhaid spydu'r corddwr wedyn a'i ddal ar ei gongl — gorchwyl trwm i ferch. Yna ei sgaldian drwyddo a'r llaeth â dŵr chwilboeth wedi ei ferwi mewn tecell mawr ar dân coed. Cyn cau'r drws, roedd yn rhaid mofyn siwrneiau o ddŵr i'w sgleintio hyd y llawr llechi. Does dim mor ddiflas ag arogl hen laeth.

Mewn amryw o leoedd roedd y corddwr yn cael ei droi gan olwyn ddŵr. Mewn mannau eraill fel y Rhydau, defnyddid beth a elwid yn llythrennol yn 'horse power'.

Polyn hir oedd hwn, allan fel rheol ar y clwt, ac yn gysylltiedig wrth gocos a droai echel a oedd yn mynd i'r tŷ llaeth neu ble bynnag arall yr oedd ei hangen. Roedd ceffyl yn cael ei fachu wrth y polyn, ac yr oedd yn rhaid i hwnnw gerdded mewn cylch yn ddidor, ac yr oedd angen rhyw-un i'w dywys ar bob tywydd.

Roedd Grace y bore tyngedfennol hwnnw adra ei hun ac wedi gwneud ei pharatoadau yn gynnar. Roedd hi wedi bachu ei chaseg wrth y polyn ac wedi gwneud cyfnod o droadau pan ddaeth llanc o Sipsi heibio i fegio trenglan o wair, a rhywbeth arall mae'n siŵr a oedd ar led ymyl. Roedd ei deulu wedi bod yn y lôn bach ger y coed am rai dyddiau: cenhedlaeth gynharach oedd y rhain i griw Rosa Boswell a'm cyfareddodd i yn ddiweddarach.

Doedd gan Grace fel y mwyaf-rif, fawr o awydd eu swcro, gan eu bod yn chwannog i bopeth ar bost ac ar barad. Ond er mwyn cael gwarad â fo, tarawodd fargen. Addawodd drenglan o wair iddo ar yr amod y busasai'n cerdded y gaseg gorddi am rhyw hannar awr. Roedd y llanc, ddyliwn, yn ddigon bodlon ar hynny.

Aeth Grace ynghylch ei gwaith yn y tŷ, ond cafodd achos gyda hynny i fynd i'r tŷ llaeth. Roedd y corddwr wedi rhoi'r gorau i gloncian, a phan aeth hi allan i'r buarth i ganfod yr achos am hynny, gwelodd fod y gaseg a'r llanc wedi diflannu. Rhedodd yn ei barclod i lawr y lôn bach at y coed, a chyrrhaeddodd mewn pryd i ganfod carafannau'r Sipsiwn wedi eu gosod yn rhes ac yn barod i ymadael. Wedi ei rhwymo y tu ôl i un, roedd ei chaseg.

Rhuthrodd Grace i'w rhydd-hau a bu cythrwfl mawr gellir dychmygu; roedd y llwyth i gyd yn ei phen fel haid o wenyn, ac ar hynny, torrodd y gwaed yn ei bron, gan ffrydio allan drwy ei ffroen a'i cheg am ben ei dillad.

Wrth weld hyn gollyngodd y Sipsiwn y gaseg a chiliasant oddi wrth y ferch mewn mawr fraw a syndod, gan gredu mae'n siŵr, yn eu hofergoeledd, mai gwrach ydoedd, neu un wedi ei medd-iannu gan ysbryd drwg. Aethant i ffwrdd gan ei gadael i'w thranc.

Ond ymhen cyfnod gallodd Grace glosio ei chaseg at y clawdd, ac o'r fantais honno daflu ei hun yn un bwndel ar ei chefn. Aeth honno â hi at ddrws y stabl yn y Rhydau, ac yno ar derfyn dydd y canfyddwyd Grace ar lawr gan ddau chwarelwr. Ymhen deuddydd, bu farw.

Mae yma wynebddalen hen lyfr gweddi ac arno'r canlynol wedi ei ysgrifennu mewn llaw lydan:

*'Grace Williams is my name*
*Wales is my nation*
*Rhydau is my dwelling place*
*And Christ is my Salvation.*

*When I am dead and in my grave*
*And all my bones are rotten*
*In this book you'll find my name*
*When I am quite forgotten.*
*March 1907*

Ond i'r gwrthwyneb. Mae hanes Grace yn mynd i'r 'Countryman' a ddarllenir led-led y byd. Beth ddywedai hi tybed?

# CEUNANT

**Gohebydd: Gwenno Parri, Morwel (Waunfawr 321)**

LLONGYFARCHIADAU i Carys Lloyd Jones, Hafod Owen ar ennill gradd B.Sc. mewn lechyd yr Amgylchedd yng Ngholeg y Brifysgol yng Nghaerdydd.

Hefyd i Barley Massey, Pen y Graig ar ei llwyddiant yn yr arholiad Lefel A. Dymunwn bob llwyddiant i'r ddwy yn y dyfodol.

POB DYMUNIAD DA i Einir Parri, Morwel, sydd yn cychwyn ar ei gyrfa fel athrawes yn Ysgol Bro Tegid, Y Bala, ym mis Medi.

CROESO i'r Ceunant i Trystan a Sioned Larsen a'u mab, Elgan. Mae'r teulu wedi ymgartrefu ym Modafon.

Dymunwn bob hapusrwydd a dedwyddwch iddynt yn eu cartref newydd.


GLADRAGS
LLANBERIS

PAM MYND I GAERNARFON, BANGOR AC YMHELLACH HEFO DILLAD I BOB OED A MAINT YMA'N LLANBERIS AM BRISIAU BAR-GEN ?

Be ga i'n bresant?
Dewch yma am
* Ddillad Merched
* Dillad Dynion
* Dillad Plant
* Dillad Gwlad
* Mohair ac Aran
* Dillad Lledr
* Dillad Isa
* 'Accessories' fel bagiau
* a llawer mwy


CYNNIG ARBENNIG
10%
Yn rhatach os dangoswch yr hysbyseb hon

GALWCH I BRYNU BARGEN!



FFENESTRI UPVC DRYSAU
MEWN GWYN NEU MAHOGANI






**Esiampl o bris a gosod**
Crefftwyr profiadol yn eu gosod
**Ffoniwch am bris i**
**J R PRITCHARD, 14 Glanrafon, Bontnewydd**
**Ffôn: Caernarfon 3507 (dydd neu gyda'r nos)**
Croesawn ymholiadau gan fasnachwyr

# CYMRY YN Y DIFFEITHWCH

**Bydd yr hanes cyffrous am 153 o ddynion, merched a phlant a adawodd Gymru i ymsefydlu ym Mhatagonia yn cael ei adrodd mewn arddangosfa yn Amgueddfa'r Gogledd, Llanberis, o Medi 1 hyd 31 Hydref — sef 125 mlynedd ar ôl iddynt lanio yna.**

Teithiodd miloedd o Ewropeaid i Ogledd America yn ystod y 19eg ganrif i ddechrau bywyd newydd, ac erbyn y 1850au roedd tua 14,000 o Gymry yn ymfudo yno bob blwyddyn. Roedd yr iaith Gymraeg a'r traddodiadau Cymreig yn mynd i ddifancoll o fewn cenhedlaeth neu ddwy wrth i'r ymfudwyr gael eu 'Hamericaneiddio'.

Yna ym 1860 ffurfiwyd y Pwyllgor Ymfudo Cymreig i ddod o hyd i le addas i sefydlu Gwladfa Gymreig lle y gallai'r iaith Gymraeg a'i diwylliant ffynnu. Roedd yr Ariannin yn awyddus i ddenu ymfudwyr i'r tiroedd gwag yn rhan ddeheuol y wlad, ac ym 1862 anfonodd y Pwyllgor Lewis Jones, Lerpwl, a'r Capten Love Jones-Parry o Wynedd, i gyd-drafod gyda Gweinidog y Fewnwlad, a dewiswyd Dyffryn Isaf Chubut.

Roedd Charles Darwin wedi ymweld â'r ardal hon yn 1831, ac nid oedd ei ddisgrifiad ef ohoni yn galonogol iawn. Dywedodd: 'Mae Gwastadeddau Patagonia wedi'u gorchuddio â llwyni dreiniog a gwellt sych yr olwg . . . bydd y rhain bron yn ddi-werth i ddyn am byth gan fod melltith diffrwythder ar y tir . . . '

Darlun go wahanol i 'bropaganda' y Pwyllgor Ymfudo a fu wrthi'n hyrwyddo'r ardal drwy gyfrwng teithiau darlithio ac erthyglau yn y papurau newydd. Dyma a ddywedodd Lewis Jones am Ddyffyrn Isaf Chubut: 'Mae yma dir i gael ei droi'n dir pori a thir ffermio; mae gwenith wedi cael ei hau ac roedd un cnwd 45 gwaith gymaint â'r swm a heuwyd . . . Mae yma ddigonedd o ddefaid sy'n pwyso 300 pwys, a'u cig yn blasu fel cig carw . . . '

Ar y cyfan, dynion a merched ifanc, yn aml gyda phlant mân, a atebodd yr alwad am sefydu Gwladfa Gymreig ym Mhatagonia. Bu'n rhaid i lawer ohonynt werthu popeth er mwyn talu'r £12 i oedolion a £6 i blant, swm sylweddol yr adeg hynny.

Ffarweliwyd â theuluoedd a chyfeillion a hwylio ar y Mimosa, llong gargo a gafodd ei haddasu ar gyfer teithwyr, ar 25 Mai, 1865. Cyrhaeddwyd Bae Newydd, a enwyd yn ddiweddarach yn Porth Madryn, ar 28 Gorffennaf 1865.

Prin bod unrhyw debygrwydd rhwng y wlad ddieithr hon â Chymru. Mae Patagonia yn sych, yn boeth ac yn llychlyd yn yr haf, ac yn oer yn y gaeaf. Nid oedd yr ymsefydlwyr cynnar wedi gweld dim byd tebyg i beth o'r bywyd gwyllt a welsant yno — heidiau o bengwiniaid ac eliffantod y môr ar hyd yr arfordir, gyrroedd o guanacos tebg i lamas yn crwydro'r gwastadeddau, armellogion a drewfilod, ysgyfarnogod Patagonia a enwyd ganddynt yn 'sgwarnogod y paith' a'r rhea bychan, tebyg i estrys, a oedd yn boblogaidd iawn am ei gig.

Roedd Dyffryn Chubut ei hunan 30 o filltiroedd o'r gorllewin ar draws y diffeithwch, a chymerwyd pedwar mis i symud yr holl ymsefydlwyr a'u heiddo yno. Ychydig ddyddiau ar ôl iddynt adeiladu cytiau a mannau cysgodi yn yr anheddiad a enwyd ganddynt yn Trerawson, cyrhaeddodd dirprwyaeth y Llywodraeth a hawlio'r tir fel rhan o diriogaeth yr Ariannin.

Gwelodd y 90 o ymsefydlwyr oedd ar ôl erbyn 1867, eu cnydau ŷd naill ai'n cael eu llosgi gan haul yr haf neu'n cael eu hysgubo ymaith gan lifogydd. Bu torri ffosydd hyd at alnnau'r afonydd yn drobwynt yn eu hanes.

Gwelwyd ymdrechion pellach gan y Pwyllgor Ymfudo i annog ymsefydlwyr, ac yn dilyn addewidion o dir, grawn hadyd ac offer ffermio, roedd y boblogaeth wedi codi i 273 bum mlynedd yn ddiweddarach. Ym 1875 hwyliodd dros 500 o bobl o Gymru a 27 arall o Efrog Newdd.

Erbyn 1875 roedd pentref Gaiman wedi cael ei sefydlu 21 milltir i'r gorllewin o Drerawson. Cafodd y ffermdai cyntaf eu hadeiladu ar hyd glannau'r afon ond roedd yn rhaid mynd â dŵr tuag at y rhai diweddarach. Felly, adeiladwyd argae ar draws yr afon a chamlas i gario dŵr i'r sianelau traenio i'r ffermydd unigol. Bu 52 o ddynion wrthi am bum mis efo caib a rhaw yn cloddio camlas a oedd yn 11 kilometr o hyd, pedair medr o led ac yn agos i dair metr o ddyfnder.

Ar ôl cael ei draenio roedd y tir yn ddelfrydol ar gyfer tyfu gwenith, ac erbyn 1880 roedd y cynhaeaf yn 1,800 tunnell. Roedd y cynllun traenio wedi'i gwblhau erbyn 1886, ac roedd yna 187 milltir o gamlesi, gyda phob un fferm wedi'i chysylltu. Mewn arddangosfeydd rhyngwladol a gynhaliwyd yn Chicago a Pharis ym 1886 dyfarnwyd mai gwenith y Wladfa oedd y gorau yn y byd. Erbyn hyn roedd yna 12,000 o wartheg godrio yn y dyffryn, ynghyd â defaid, dofednod a moch.

Cymraeg oedd iaith gweithgareddau bob dydd, ac erbyn yr 1880au, roed y Wladfa yn ffynnu. Roedd yno ysgolion Cymraeg, papurau newydd Cymraeg, ac ar un adeg cafwyd arian papur Cymraeg hyd yn oed. Adeiladwyd neuadd fawr yn Nhrelew, ac ynddi cynhelid cyngherddau, cyfarfodydd ac eisteddfodau, a hi yw'r neuadd fwyaf yn y diriogaeth hyd y dydd heddiw. Roedd i grefydd le amlwg hefyd, ac adeiladwyd 31 o gapeli a thair eglwys yn y dyffryn.

Erbyn canol y 1880au roedd yr holl dir a oedd ar gael wedi'i feddiannu, a dim ond 39 allan o bron 500 o ffermydd a oedd yn nwylo teuluoedd nad oedynt yn hanu o Gymru. Erbyn diwedd y 1880au roedd anheddiad arall wedi cael ei sefydlu wrth droed yr Andes tua 400 milltir i'r gorllewin o wastadedd Patagonia. yn wahanol i Ddyffryn Isaf Chubut, roedd Cwm Hyfryd yn wlad o weir-gloddiau toreithiog a choedydd.

Roedd y ffermwyr wedi blino ar gludo eu gwenith ar hyd y ffyrdd garw i'r arfordir i'w hallforio, ac adeiladwyd rheilffordd o Gaiman i Borth Madryn ym 1884. Dim ond pedair blynedd a gymerwyd i gwblhau'r gwaith. Hanner ffordd ar hyd y rheilffordd hon yr adeiladwyd tref newydd Trelew, a enwyd ar ôl Lewis Jones, un o arweinwyr y Wladfa.

Roedd 1899 yn flwyddyn drychinebus i'r Wladfa. Yn dilyn llifogydd mawr fe drowyd y dyffryn yn llyn enfawr; dinistriwyd y rhan fwyaf o Drerawson ac roedd hanner Gaiman dan ddŵr. Cafodd cant a mwy o dai, pum ysgol, tair swyddfa bost ac wyth capel eu distrywio. Roedd Trelew wedi cael ei adeiladau ar dir uwch ac felly fe osgodd y dinistr.

Prin ddwy flynedd yn ddiweddarach, boddwyd y dyffryn gan lifogydd eto. Ni allai rhai teuluoedd ddioddef mwy. Rhoddasant y gorau i'w ffermydd ac ym mis Mai 1902 hwyliodd 234 o ymsefydlwyr i Ganada. Symudodd pwyslais yr economi amaethyddol, a fu gynt ar gynhyrchu ŷd, at dyfu maglys (alffalffa) a magu defaid ac anifeiliaid eraill.

Ychydig iawn o ymsefydlwyr Cymreig a ymfudodd i Batagonia ar ôl y llifogydd ond daeth llawer yno o wledydd eraill. Erbyn 1915 roedd poblogaeth y dyffryn wedi cyrraedd 12,000, gyda ychydig dros 4,000 o dras Gymreig. Roedd y Rhyfel Mawr yn gyfrifol am hollti cysylltiadau rhwng yr Wladfa â'r famwlad.

Dros y blynyddoedd roedd llai a llai o gysylltiad rhwng Y Wladfa a Chymru. Yn 1939 sefydlwyd Cymdeithas Cymru Ariannin, sydd newydd gyhoeddi llyfryn sy'n croniclo hanes hanner canrif cyntaf y gymdeithas. Roedd y canmlwyddiant ym 1965 yn sbardun i ail-greu cysylltiadau a chryfhau'r cyfathrebu ar draws môr yr Iwerydd. Ers hynny mae cannoedd o bobl — fel unigolion, grwpiau neu aelodau o gorau — wedi ymweld â'r Wladfa. Ysgrifennydd y Gymdeithas yw Shân Emlyn, Caerdydd.

Gwelwyd hefyd pobl y Wladfa yn ymweld â Chymru — Cymry Cymraeg na fu erioed yng Nghymru gynt. Ers 1965 mae 19 o bobl ifanc o'r Wladfa wedi mynychu Coleg Harlech am flwyddyn. Mae rhai, fel Elvey McDonald, trefnydd Eisteddfod yr Urdd, a renee Griffiths, wedi ymsefydlu yng Nghymru ac yn chwarae rhan llawn ym mywyd ein cenedl. Arweinydd Cymru a'r Byd yn Eisteddfod Genedlaethol Cwm Rhymni eleni oedd Eluned Fychan Gonzalez, gorwyres Michael D. Jones a Lewis Jones.

Gyda'r cysylltiadau rhwng Cymru a'r Wladfa yn tyfu fel bu mwy o bobl, sefydlwyd cym-deithas leol yng ngogledd-orllewin Cymru ym 1988 o bobl sy'n ymddiddori yn Y Wladfa — gan gynnwys Cymru o'r Wladfa, pobl gyda theuluoed yn yr Ariannin, cynymwelwyr â Phatagonia a rhai sydd efo diddordeb yn y digwyddiad unigryw yma ond sydd heb ymweld (hyd yn hyn beth bynnag). Mae'r Gymdeithas yn cyfarfod tua pedair gwaith y flwyddyn yn Festri Capel Penuel, Bangor, ac yn ymuno gyda'r rhinat gymdeithas ar gyfer Cinio'r Glanio ar y dydd Sadwrn agosaf i 28 Gorffennaf er mwyn dathlu ym Mwyty'r Cyfnod yn Y Bala. Ysgrifennydd y Gymdeith-as yw Gwyneth Williams (0407 740532).

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar nos Iau, 1 Tachwedd yn Festri Capel Penuel, Ffordd y garth, Bangor am 7.30 yr hwyr.

Roedd un o blant enwocaf Y Wladfa, R. Bryn Williams, yn weinidog yn Llanberis am gyfnod. Bardd, Llenor ac Ysgolhaig a ysgrifennodd hanes ein hunig, wir wladfa draw ym Mhatagonia.

Mae natur unigryw y digwyddiad yma yn hanes Cymru wedi cael ei gydnabod trwy ei gynnwys fel rhan sylfaenol o'r cwricwlwm


YSTORFA MINFFORDD STORES
GAERATHRO
CAERNARFON
YR HEN BOST 1887–1987
AR TYRPEG 1817–1886
Nwyddau Groser
Prynwyr a Gwerthwyr Hen Bethau


Parhad ar dudalen 23.

# CANIATAD CYNLLUNIO O FEWN BRO'R ECO

Yn rhinwedd fy swydd fel Golygydd Erthyglau, teimlaf ei bod yn rheidrwydd arnaf i ymateb i lythyr y Cynghorydd Pat Larsen yn y rhifyn diwethaf o 'Eco'r Wyddfa'. Mae nifer o sylwadau yn mynnu eglurhad.

1. Mae'n wir fod yr erthyglau wedi ymddangos yn ddi-enw; ond nid yw hynny'n eithriad. Prin iawn yw'r cyfrannwyr i'r Eco, a buan iawn y byddai darllenwyr yn syrffedu gweld yr un enw yn ymddangos ddwy a thair gwaith y mis yn rheolaidd wrth wahanol erthyglau amrywiol. Rwy'n cydnabod mai fi yw awdur yr erthyglau — ond roedd amryw o drigolion yn gwybod hynny beth bynnag. Yn wir, roedd rhai o swyddogion Adran Cynllunio Cyngor Arfon yn gwybod mai fi oedd yr awdur. Ac y mae'r Cynghorydd Pat Larsen yn cydnabod iddi dderbyn llythyr gennyf ynglŷn â'r erthyglau. Y mae'n syndod i mi felly mai drwy gysylltu â dau arall o olygyddion y papur y dewisodd drafod ac ateb yr erthyglau. Yn wir, mae'r ffaith i mi ddweud yn fy llythyr at gynghorwyr y fro ei bod yn fwriad gennyf 'ysgrifennu erthygl ddilynol' yn dangos yn eglur iawn mai fi oedd yr awdur.

2. Cyhuddir fi o fod yn enllibus. Gwadaf yr honiad. Y cwbl a wneuthum oedd trosglwyddo gwybodaeth o adroddiadau swyddogion cynllunio Arfon a rhaglen y Pwyllgor Cynllunio. Bum hefyd yn bresennol mewn nifer o'r pwyllgorau rheini, gan nodi y sylwadau a wnaethpwyd gan nifer o gynghorwyr. Y mae hawl gan unrhyw aelod o'r cyhoedd i weld yr adroddiadau rheini ac i weld rhaglen pob Pwyllgor Cynllunio (sy'n cynnwys gwybodaeth fanwl am geisiadau). Y mae hawl hefyd gan unrhyw aelod o'r cyhoedd i fod yn bresennol yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio; yn wir, mae aelodau o'r Wasg yn mynychu bron pob cyfarfod. Hynny yw, gwybodaeth gyhoeddus yw'r hyn a ailadroddwyd yn yr erthyglau.

3. Ynglŷn â'r enw 'Y Frech Ddu'. Yn un o'i adroddiadau i'r Pwyllgor Cynllunio, cyflwynodd Prif Swyddog Cynllunio Arfon fap i'r aelodau yn dangos safleoedd lle rhoddwyd caniatad cynllunio yn groes i bolisi. Cyhoeddwyd y map hwnnw yn rhifyn Ebrill o'r Eco. Roedd y safleoedd yn ymddangos fel brech ddu ar y map, a dyna sut cafwyd yr enw. Dosbarthiad y safleoedd oedd yn awgrymu'r enw. Ni chyfeiriwyd o gwbl at Gymry (nac unrhyw genedl arall) fel brech ddu.

4. Honna'r Cynghorydd Pat Larsen iddi gael ei *'siarsio i beidio â thrafod Glyn Rhonwy'.* Y mae copi o'r llythyr gwreiddiol a anfonwyd at holl gynghorwyr y fro yn fy meddiant, a dyfynnaf ohono:

*'Gofynnir yn garedig ar i chwi osgoi dadleuon ynglŷn â datblygiadau megis Parc Hamdden Bryn Afon a Glyn Rhonwy, a cheisio canolbwyntio eich sylwadau ar faterion cynllunio gogyfer â thai newydd.*

Teg gofyn sut fath o 'siarsio' yw hyn?

5. Mae Cynllun Lleol Arfon Wledig yn nodi safleoedd o fewn ffiniau pentrefi lle gellir gwneud cais cynllunio arnynt. Dadleua'r Cynghorydd Pat Larsen mai mynwent, cae chwarae a gerddi yw'r safleoedd hyn ym Mhensarwaun. Nid wyf yn anghydweld. Ond gofynnaf yn wylaidd: *'Pwy benderfynodd y ffiniau rheini?'* Cyflwynwyd y Cynllun Lleol i gynghorau cymuned yn Arfon Wledig am eu sylwadau. Cafodd unigolion a chymdeithasau y cyfle i ddatgan barn arno cyn i'r fersiwn terfynol gael ei fabwysiadu. Ond ar ddiwedd y dydd, cynghorwyr Arfon oedd a'r bleidlais o gadarnhad neu nacad ynglyn â'r Cynllun — gan gynnwys ffiniau pentrefi.

Ac ar sail y polisiau o fewn y Cynllun Lleol hwnnw y mae swyddogion y Cyngor yn rhoi eu barn broffesiynol.

6. Rwyf eisoes wedi bod yn aelod etholedig ar Gyngor Arfon. Nid oeddwn yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio, ond yn rhannol oherwydd achos datblygiad Bryn Afon, bu'n rhaid i mi ymgyfarwyddo'n drwyadl â'r holl bolisiau yng Nghynllun Lleol Arfon Wledig. Cefais fy hunan mewn sefyllfa ble daeth nifer o unigolion ataf yn gofyn am fy nghefnogaeth i gael caniatad cynllunio oedd yn groes i bolisiau'r Cynllun Lleol. Credaf i mi fod yn ddigon gonest ac egluro fy safbwynt iddynt ynglŷn â'r polisiau hynny.

7. Rwy'n parhau i ddadlau na ddylid ystyried **PWY** sy'n gwneud cais, ond yn hytrach **BETH** yw'r cais. Mae'r un hawliau cynllunio gan Sais, Albanwr, Gwyddel neu Gymro anghymdeithasol ag sydd gan Gymro Cymraeg lleol, ac ni ddylid cefnogi neu wrthwynebu *ar sail ei bersonoliaeth* neu ei genedl neu ei iaith. os nad yw polisiau Cynllun Lleol Arfon Wledig yn ateb gofynion pobl leol, yna **NEWIDIED Y POLISIAU.** Nid trwy anwybyddu'r polisiau rheini y mae cael y maen i'r wal.

## LLANRUG

**Mrs Dyfi Jones, Tyddyn Rhyddallt. Ffôn: C'fon. 76733**

DIOLCH: Dymuna Hefina, Dick a'r hogia, 8 Rhosrug, ddiolch o galon i'w cymdogion a'u ffrindiau am bob arwydd o gydymdeimlad a estynnwyd iddynt yn eu profedigaeth drist o golli mam a nain annwyl, sef Mrs Maggie Jones o Ddeiniolen. Diolch hefyd am y cardiau a'r rhoddion tuag at offer i Glinic Deiniolen. Diolch i bawb.

DIOLCH: Dymuna Mrs Nancy Jones, Madryn, ddiolch i'w theulu a chyfeillion oll am y llu cardiau, anrhegion a blodau a dderbyniodd ar achlysur dathlu ei phenblwydd yn 80 yn ddiweddar. Diolch o galon i bawb.

MERCHED Y WAWR: Bydd tymor newydd Merched y Wawr yn dechrau nos Fawrth, Medi 11 yn yr Ysgol Gynradd am 7.30 pm. Cawn sgwrs gan Nan Wyn o'r Waunfawr am ei chyfnod yn Lesotho. Croeso cynnes i'r hen aelodau ac i aelodau newydd. Mae rhaglen ddifyr o'n blaen eto eleni.

GRŴP MAM A'I PHLENTYN: Bydd y grŵp yn ail ddechrau ddydd Mercher, Medi 5ed am 1.30 yn yr Ysgol Feithrin. Croeso i aelodau newydd.

CYDYMDEIMLWN â Mrs Megan Roberts, Gregynog, a'r teulu yn eu profedigaeth o golli ei mam, Mrs M. R. Thomas, Berwyn.

Cydymdeimlwn hefyd ag Edgar a Gerwyn a'u teuluoedd yn eu profedigaeth o golli eu mam, Mrs E. L. Jones, Bodlondeb.



*Gwynfor Owen yn gorffen Ras yr Wyddfa mewn 1 awr 12 munud a 10 eiliad — safle 31.*


Castell Cidwm

Dewch i gael bwyd ym **Mwyty'r Pysgotwyr, GWESTY CASTELL CIDWM** ar lan Llyn Cwellyn. **Coginio Prydeinig,** yn gynnil o wahanol. **Gwinnoedd diddorol. Tân Coed. Clustogau Cyfforddus. Golygfeydd Hardd.** Lle rhagorol i ymlacio.

**Betws Garmon, Ffôn: Waunfawr 243**

J.M. JONES A'I FEIBION

GWAITH CERRIG BEDDAU

**Y SGWÂR, LLANRUG**

Crefftwyr gwaith llaw traddodiadol, Cerrig o bob math ar gael.

Ffôn: Caernarfon 2898 (dydd) Caernarfon 76285 (nos)

Foelas

**CARTREF YR HENOED**

Cartref Gofrestredig ag iddo awyrgylch Gymreig

Cysylltwch â

Mrs Meirwen Thomas neu Mrs Eli Thomas

**Ffordd yr Orsaf, Lanrug,**

**Caernarfon (0286)4652**

# DINORWIG

Mr D. J. Thomas, 8 Maes Eilian

Er llawer ymdrech i wneud y gwyliau i ymestyn dros nifer o wythnosau, mis Awst serch hynny yw cyfnod traddodiadol gwyliau'r haf, a'r adeg hon mae'r plant adref o'r ysgolion yn ogystal. Mwynheir y seibiant cyn i dymor Hydref-Gaeaf ddod ar ein gwarthaf.

Droeon fe fu'r wraig a minnau yn treulio ychydig ddyddiau bron bob blwyddyn yn Wollaston yn Swydd Northampton, a'r ffin am Swydd Bedford heb fod ond rhyw led cae i ffwrdd. Pan roddai Megan, gwraig Lloyd y mab y bagiau biniau llawn o fewn cyrraedd y lori gyngor a ddeuai heibio i'w cludo i ffwrdd, yn ddieithriad byddai dynion y cyngor yn gadael nifer y bagiau gwag oedd yn cyfateb â'r nifer a gludent i ffwrdd. Yma yn Ninorwig serch hynny, mae'r sefyllfa yn gwbl wahanol h.y. os dau, tri neu bedwar bag llawn a roddir allan, un bag gwag yn unig a adewir ar ôl. Fe gredaf innau fod hynny'n gwbl anheg os golyga hyn bod rhaid i'n cymdogion brynu bagiau i gyflenwi'r diffyg. Ar y gorau, prin y gallwn ni lenwi un bag, ond rwyf er hynny'n awyddus i ddweud gair dros y rhai ddylasai gael mwy. Hyderwn weld gwellhâd yn y cyfeiriad yma i'r dyfodol.

NOSWEITHIAU CYMDEITHASOL: Yn fuan bydd tymor yr Ysgol i Oedolion yn cychwyn yn y Ganolfan a'r Parch John Gwilym Jones, M.A., B.D., Bangor yn ein cymell i ystyried cwrs ar lenyddiaeth Gymraeg. Fe fyddwn hefyd yn dilyn cyrddau y Gymdeithas Ddiwylliadol a gynhelir yn ogystal yn y Ganolfan, ond ni ddaeth i'm llaw raglen y tymor hyd eto. Fel rheol fe geir pynciau eithaf diddorol, a cheir budd o fod yn y cyrddau — bwyd meddyliol gwerthfawr.

Yn ôl mantolen ariannol y tymor diwethaf mae'r Gymdeithas Undebol yn cadw ei thir yn ariannol, a'r mwyafrif yn gofalu bod y tâl aelodaeth yn myned i'r coffrau yn brydlon bob tymor.

DIOLCH: Dymuna Eileen a Gwilym Davies, Bro Elidir, ddiolch o galon i'r teulu a'u holl gyfeillion am yr anrhegion gwerthfawr, yr holl arian a'r cardiau gyda'r geiriau caredig a dderbyniwyd ganddynt ar achlysur eu Priodas Ruddem. Diolch yn arbennig i Falmai, Gwyneth, Gina a Gareth, Maria a Shaun am y wledd.

HWYL HAF: Pwy fuasai wedi meddwl y buasai'r tywydd wedi troi o'n plaid i roi prynhawn braf i ni dydd Sadwrn, Mehefin 23, i gynnal Hwyl Haf yn Allt Ddu, Dinorwig. Ond dyna sut yn union y gweithiodd pethau a chafwyd prynhawn i'w gofio pan ddaeth torf dda o bell ac agos i gefnogi yr holl weithgaredd.

Beirniadwyd y gystadleuaeth gwisg ffansi gan Marina a John Eifion ac fe gafodd y ddau eu plesio yn fawr gyda'r safon. hefyd cynhaliwyd ras berfa; cyfnewid dillad; ymladd clustogau gan roi cyfle i'r plant a phobl hŷn fel ei gilydd ymuno yn yr hwyl.

Gan fod cymaint wedi cyfrannu at lwyddiant y prynhawn, mae'n amhosibl diolch i bawb yn unigol. Yn hytrach, diolch i bawb am eu cefnogaeth a'u cydweithrediad parod; i griw Ambiwlans Sant Ioan; i bawb a gyfrannodd at wobrau raffl a defnyddiau gwerthu ar y stondinau; i deulu Fron Heulog am y garafan ac i Deulu Cefn Coch am y llwyfan; y cyflenwad dŵr gan Ddŵr Cymru; i Adran Priffyrdd y Cyngor Sir am roi benthyg y côns; i Mr Derek Williams am y gwair ac i Gyngor Dosbarth Arfon am gael defnydd o'r safle. Llwyddodd Mr Rennell Williams i gofnodi'r cyfan ar ffilm a fideo; diolch hefyd i Marian, Bryn Sardis am dynnu lluniau. Coronwyd y prynhawn pan gyhoeddwyd bod yr elw ariannol am eleni wedi bod yn £80.

CYDYMDEIMLO: Mae ein cydymdeimlad yn fawr â theulu y ddiweddar Miss Salome Jones, gynt o 6 Bro Elidir a chyn hynny o Dinorwig House, yn Allt Ddu.

Cynhaliwyd ei hangladd yn Eglwys St Mair ar ddydd Gwener, Gorffennaf 6ed, ac yr oedd y gwasanaeth yng ngofal y Parch Idris Thomas, Rheithor Trefor. Roedd Miss Jones yn aelod ffyddlon iawn o Eglwys St Mair ac fe gyfrannwyd y rhoddion er cof amdani i'r Eglwys.

LLONGYFARCHIADAU: Estynnwn ein llongyfarchiadau i Miss Falmai Davies, 10 Bro Elidir ar ennill ohoni radd Baglor mewn Addysg a hefyd ei chwaer Miss Gwyneth Davies sydd wedi dyweddïo â Mr Emyr Wyn Jones, Porthmadog.

DIOLCH: Dymuna Eileen a Gwilym Davies, 10 Bro Elidir, ddiolch o galon i'r teulu a'u holl gyfeillion am yr holl anrhegion gwerthfawr, yr holl arian a'r cardiau gyda'r geiriau caredig a dderbyniwyd ganddynt ar achlysur eu Priodas Ruddem (a ddathlwyd ar y Sulgwyn), gyda diolch arbennig i Falmai, Gwyneth, Gina, Gareth, Maria a Shaun am y wledd a baratowyd ganddynt.

OEDFAON MIS AWST: Ers rhai blynyddau bellach, mae Capel Dinorwig (MC) a Chapel Sardis (B) yn rhannu Suliau mis Awst rhyngddynt, a'r cynulliadau unedig yn fwy calonogol, ni a obeithiwn, i'r gweinidogion a'r pregethwyr a wahoddir i'n cynorthwyo yn yr addoliad.

Ar Sul Awst 5ed, yr oeddem yng Nghapel Dinorwig yn yr oedfa 2 o'r gloch a'r Parch O. J. Pritchard, Llanfairfechan '6gweinidog wedi ymddeol) yn gwasanaethu.

Roedd hon hefyd yn oedfa fedydd (taenelliad), i Lois Eifion, merch fach Mr a Mrs John Eifion Jones, Caernarfon — y fam yn adnabyddus i ni wrth yr enw Marina, ail ferch Mr a Mrs Ifan Bryn Roberts, Tŷ'r Ysgol.

Yn Sardis yr oedd dau Sul canol y mis — y Parch J. Rice Rowlands, Coleg y Bedyddwyr, Bangor, gyda ni ar Sul Awst 12, a'r Parch J. Pinion Jones, Porthaethwy yn arwain yr addoliad ar Sul Awst 19.

Fe ddisgwyliwn fod yng Nghapel Dinorwig ar Sul Awst 26 — sef Sul cyn dydd Llun Gŵyl y Banc, pryd y bydd y Parch T. Irfonwy Bowen, Llanfairfechan yn agor i ni drysorau'r Gair. Cyd-ddigwyddiad hapus oedd bod Presbyteriaid yn cynnal oedfa yn Sardis yna Bedyddiwr yn gennad yng Nghapel Dinorwig.

GWYLIAU: Ymhlith y rhai a aeth ar wyliau oedd y ddau frawd naturiol y Parch Idris Thomas a Mr Glyn Tomos — hwythau'n ymweld ag Israel, gwlad y Gwaredwr, a gwlad sy'n gysegredig i bob Cristion.

Wedi'r gwyliau fe fyddwn yng nghanol gweithgarwch tymor y nosweithiau tywyll a rydd gyfle i ni feddwl a myfyrio.

## HWYL HAF DINORWIG

### CYSTADLEUAETH GWISG FFANSI OEDOLION



### CYSTADLEUAETH GWISG FFANSI'R PLANT




GERAINT OWEN

Gosodwr carpedi a phob math o loriau

Cil-y-Mynydd WAUNFAWR

Ffôn: Waunfawr 552

AM DEITHIAU CYFFORDDUS, DIOGEL A RHAD YM MHRYDAIN A THRAMOR ...




BYSIAU ARFON
LLANRUG
(Eric Morris)
Ffôn: Caernarfon 5175 77858

W.J.GRIFFITH
PLYMAR A GOSODWR GWRES CANOLOG
PANT TIRION, LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 673248

Gosodwyr Nwy Cofrestedig Corgi

Aelod o'r Association of Plumbing and Mechanical Services Contractors

*Dim un dasg rhy fychan*
*Dim un dasg rhy fawr*

# BRYNREFAIL

Miss Lowri Prys Roberts, Godre'r Coed. Ffôn: 870580

HELFA DRYSOR: Cynhaliwyd yr Helfa Drysor flynyddol dan nawdd Cymdeithas Weithgareddau'r pentref Nos Sadwrn, Mehefin 23. Y trefnwyr eleni oedd Anita Long, Tan yr Onnen a Carol Houston, 2 Trem Eilian.

Wedi helfa ddiddorol ymunodd pawb i gael pryd o fwyd yn 'Yr Heights' yn Llanberis.

Yr enillwyr oedd: 1, Islwyn Jones a'r teulu; 2, Gwyn Hefin Jones a'r teulu; 3, R. Alwyn Jones a'i gyddeithwyr, a hwy fydd yn gofalu am y trefniadau y flwyddyn nesaf.

CYMDEITHAS Y CHWIORYDD: Cynhaliwyd cyfarfod mis Gorffennaf o'r Gymdeithas dan lywyddiaeth Mrs Gillian Morris, nos Iau, Gorffennaf 5ed. Cymerwyd at y rhannau arweiniol gan Mrs Ifanwy Jones. Seiliodd ei myfyrdod ar ran o gynnwys y llyfr 'Dod i Gredu' a oedd yn rhoi sylw arbennig i'r Crist — y person rhyfeddol.

Roedd llawer o'r sylwadau a wnaed yn ein harwain yn berthnasol iawn at anerchiad gŵr gwadd y noson, sef Mr Dafydd Thomas, Gorswen, sy'n weithiwr cymdeithasol yng Nghanolfan Nodda, Caernarfon. Cafwyd adroddiad diddorol ganddo o'r nifer helaeth o gyfarfodydd a gweithgareddau sy'n mynd ymlaen yn y Ganolfan a'r gwaith gwych a wneir i gynorthwyo'r gymdeithas ac ymateb i broblemau'r trigolion lleol. Diolchwyd iddo gan y llywydd.

Darparwyd lluniaeth gan Mrs Euronwy Roberts a Mrs Betty Owen. Bydd y cyfarfod nesaf nos Iau, Medi 6ed, pryd y disgwylir Mrs Mary Vaughan Jones i roi sgwrs.

TRIP BLYNYDDOL: Nos Wener, Gorffennaf 6, bu aelodau Capel M.C. Brynrefail a chyfeillion ar eu trip dirgel blynyddol.

Cyrchwyd am Ben Llŷn y tro hwn a chael cyfle i ymweld â Phlas Glyn y Weddw, Llanbedrog. Yno yn ein disgwyl roedd y perchnogion, Dafydd a Gwyneth ap Tomos a rhoddwyd sgwrs ddiddorol gan yr arlunwraig am eu menter yn sefydlu'r plasty fel oriel. Cafwyd cyfle i fwynhau enghreifftiau o'i gwaith caboledig ynghyd â darluniau gan enwogion eraill.

Mwynhawyd pryd ardderchog i gloi'r noson yng Ngwesty Bryn Eisteddfod, Clynnog Fawr.

Cafwyd gair o ddiolch ym Mhlas Glyn y Weddw ac i Lowri Prys Roberts am y trefniadau oll gan y gweinidog, Y Parch John Morris.

CERDDOROL: Llongyfarchiadau i Marian Lloyd Jones, 3 Trem Eilian, ar ei llwyddiant yn ddiweddar mewn arholiad cerddoriaeth ysgrifenedig Gradd 3 dan nawdd y Coleg Cerdd Brenhinol.

LLONGYFARCH: Yn ystod yr oedfa nos Sul, Gorffennaf 8fed, llongyfarchwyd Mr Elfed Roberts, Ffrwd Goch a Mr Richard Wyn Evans, Ty'n Buarth, ar gwblhau ohonynt ddeugain mlynedd fel blaenoriaid yn yr Eglwys.

Cyflwynodd y gweinidog, y Parch John Morris, rodd i'r ddau ar ran yr Eglwys i ddatgan gwerthfawrogiad am eu gwasanaeth ar hyd y blynyddoedd. Cafwyd gair byr o ymatebiad gan y ddau yn mynegi eu diolchgarwch hwythau am gael y fraint o wasanaethu'r Eglwys ac am lawer o atgofion a ddeuai i'r cof yn deillio o'u profiad dros y blynyddoedd.

Cafwyd gair pellach o ddiolch gan Mr Gwyn Hefin Jones.

Yn ddiweddarach yn y mis, nos Fawrth, Gorffennaf 17, cafwyd cyfle pellach i'w hanrhydeddu mewn cyfarfod o Henaduriaeth Arfon a gynhaliwyd yng Nghapel Horeb, Llanfairfechan.

Estynnwyd llongyfarchiadau a diolch iddynt ar ran yr Henaduriaeth gan Lywydd Cymdeithasfa'r Gogledd, Y Parch Ieuan Lloyd, Prestatyn.

SEFYDLIAD Y MERCHED: Barbeciw — Nos Lun, Gorffennaf 16eg, cafwyd noson lwyddiannus, a'r hin yn eithriadol o deg, o dan nawdd cangen Sefydliad y Merched lleol, pryd y cynhaliwyd Barbeciw ynghyd â stondinau amrywiol ar iard yr hen Ysgol Fach.

Daeth tyrfa dda ynghyd a chafwyd hwyl arbennig gyda'r holl weithgareddau. Roedd yr elw a wnaed sef £159 yn mynd i gronfa'r Sefydliad.

Enillwyr y gwobrau raffl oedd: Bocs Ffrwythau — Delyth Roberts, 5 Minffordd; Gwin — Ken Jones, Cae Coch; Planhigyn — Iola Davies, Bryn Madog; Dysgl Bren — Pat Jones, Cae Coch; Ambarel — Nicky Williams, Llanrug; Sieri — Darren Williams, Bryn Hyfryd.

Llongyferchir un o aelodau'r gangen sef Mrs Glenda Morris, Llanrug, ar enedigaeth mab bychan.

Fel mae'n wybyddus, mae Sefydliad y Merched yn genedlaethol yn dathlu 75 mlynedd ei sefydlu eleni a bydd pob cangen ledled y wlad yn cynnal te parti i nodi'r achlysur. Bydd y dathliad ym Mrynrefail nos Fawrth, Medi 11eg.

Estynnir gwahoddiad i'r oll o'r pentrefwyr i'r noson arbennig hon a bydd y manylion ar gael maes o law gan yr ysgrifenyddes, Mrs Betty Owen, Tros yr Afon.

CYDYMDEIMLO: Yn ystod mis Awst daeth y newydd am farwolaeth y ddiweddar Mrs Lizzie Robinson a hanai o un o deuluoedd hynaf Brynrefail ac a fagwyd yn ei dyddiau cynnar yn Y Gors. Cyrhaeddodd yr oedran teg o 88 mlwydd oed.

Treuliodd ran helaeth o'i hoes ym Mhorthmadog ac wedi colli ei phriod Mr R. Robinson gynt o Fryn Madog, symudodd i'r Fflint.

Mae ein cydymdeimlad dwys â'i pherthnasau yma yn y fro — Miss Alice E. Williams, Caernarfon a Mrs Jennie Hughes, Bryn Parc.

NOSON ADLONIADOL: Nos Sadwrn, Medi 8fed am 6.30 o'r gloch, cynhelir noson gymdeithasol yn y pentref dan nawdd Côr Meibion Dyffryn Nantlle sydd a nifer o'u haelodau yn dod o'r pentref a bro'r Eco. Bydd Barbeciw yn iard yr Ysgol Fach ac yn dilyn bydd y côr yn rhoi datganiadau yn y Festri. Bydd elw'r noson yn mynd i gyllid y Côr ac mae'r tocynnau ar gyfer y noson — pris £3.50 ar werth gan Mri D. G. Ellis, Gweledfa ac Islwyn Jones, 3 Trem Eilian.

# BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: Felinheli 670726

LLONGYFARCHIADAU i Gareth Hughes, 11 Stad Eryri, ar ei lwyddiant yn ei arholiadau City & Guilds mewn gwaith coed. Mae Gareth yn gweithio gyda Cwmni Sling yn Neiniolen ac wedi bod yn mynychu Coleg Llandrillo unwaith yr wythnos i astudio ar gyfer ei City & Guilds.

LLONGYFARCHIADAU i Gwenan Elis, Cilgeran, ar ei llwyddiant yn ei arholiad piano Gradd 3. Mae Gwenan yn ddisgybl i Mrs Glenys Griffiths, Llwyn Eithin.

LLONGYFARCHIADAU i bawb o'r pentre a fu yn llwyddiannus yn eu arholiadau TGAU a Lefel A yn ystod yr haf. Dymuniadau gorau i bawb fydd yn dechrau ar gam newydd yn eu gyrfa mewn gwaith, mewn coleg neu yn yr ysgol. Rydym yn dymuno'r gorau hefyd i bawb sydd yn dechrau yn yr ysgol am y tro cyntaf ac i'r rhai sydd yn newid ysgol.

CYDYMDEIMLO: Ar ôl ymladd yn hir yn erbyn gwaeledd cas, bu farw Mr Harland Jones, Las Ynys, yn Ysbyty Gwynedd ar Orffennaf 27. Roedd colli un mor ieuanc yn dwyn tristwch ar yr holl ardal. Estynnir pob cydymdeimlad â'i wraig a'i blant ac â'r holl deulu yn eu profedigaeth.

PLAID CYMRU: Nos Wener, Medi 7fed, bydd y gangen yn trefnu Helfa Drysor i gychwyn o'r Neuadd o 6 o'r gloch ymlaen. Y pris fydd £1 y pen. Croeso cynnes i bawb.

CARNIFAL: Cynhaliwyd wythnos garnifal lwyddiannus iawn eleni rhwng Gorffennaf 16 a 21 gyda gwahanol weithgareddau wedi eu trefnu bob nos. Cafwyd cefnogaeth ardderchog i'r holl weithgareddau o'r gystadleuaeth pêl droed 5 bob ochr ar y nos Lun, i'r Carnifal ei hun a'r barbeciw ar y dydd Sadwrn.

Wedi setlo yr holl gyfrifon mae'n debyg y bydd elw o tua £1,000 o'r wythnos. Bydd hyn yn hwb sylweddol ymlaen i gronfa'r Neuadd Newydd.

DAMWAIN: Dydd Iau, Awst 23 wrth groesi o'r bws i'r Ganolfan Hamdden yng Nghaernarfon, cafodd Garry Williams, mab Carys a Mansel Williams, ddamwain hegar pan gafodd ei daro gan gar modur. Dymunwn adferiad buan iawn iddo.

LLWYDDIANT YN Y SIOEAU: Mae rhai o amaethwyr y fro wedi cael llwyddiant sylweddol yn arddangos mewn nifer o sioeau amaethyddol dros yr haf.

Llongyfarchiadau i Idwal Morris, Perthi, Arfon Hughes, Cae Rhos, ac R. A. Jones, Tyddyn Oer ar eu llwyddiant.

LLONGYFARCHIADAU i deulu Bryn Banon ar enedigaeth merch.


Am wasanaeth fframio cyflawn – LLUNIAU TYSTYSGRIFAU, TAPESTRI:-

ELWYN PRITCHARD

Fframiwr Lluniau/ Telynau Gwynedd

Parc Padarn

LLANBERIS

870922 neu Bangor 351427

cesglir a danfonir i'ch cartref os dymunwch

GWYNETH ROBERTS

84 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: 870491

PAENT, PAPUR WAL
TEGANAU, CARDIAU
MELYSION
ANRHEGION





Bara Ffres
Teisennau
Priodas, Bedydd
Pen-blwydd ac ati,
Peis, Rholiau Sosej,
Pasteiod, Teisennau Hufen,
Teisennau Plât, Torth Gyrains etc.

BECWS ERYRI

Stryd Fawr, Llanberis 870491

GWILYM H. WILLIAMS


BRYN DAIRY

2 BRYNHYFRYD

BETHEL

Ffôn

Port Dinorwig 670786



Llefrith
Llaeth Porfa
Llaeth heb Hufen
Wyau, Tatws
Diodydd
Ffrwythau

# CWM-Y-GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: 872275

LLONGYFARCHIADAU i Sandra Williams, tanrallt, ar gyrraedd ei ohen blwydd yn 21 oed. Hefyd i'w brawd Andrew yn 18 oed.

Llongyfarchiadau i Mr a Mrs Hywel Williams, Nant Forgan ar fod yn daid a nain. ganwyd merch fach, Mererid Haf, i Delyth ac Andrew yn Waunfawr.

Llongyfarchiadau i blant y pentref ar eu llwyddiant yn arholiadau'r haf.

PRIODAS: Dydd Sadwrn, Awst 8, yng Nghapel Rehoboth, Nant Peris, priodwyd Heddwen, merch Mr a Mrs Wilbert Hughes, 11 Dôl Afon, â dafydd, mab Mr a Mrs Meirion Pritchard, Tŷ Isaf, Nant Peris.

Bydd y pâr ifanc yn ymgartrefu yn Nant Peris. Pob dymuniad da ac hapusrwydd iddynt.

O'R YSBYTY: Yn ddiweddar bu Miss Sidney Williams, 5 Dôl Afon dan driniaeth law feddygol yn Ysbyty Gwynedd. Da yw deall ei bod yn gwella'n foddhaol erbyn hyn.

MARWOLAETHAU: Ym mis Gorffennaf collwyd dau o hen gymeriadau'r pentref, o fewn deuddydd i'w gilydd.

Ar Orffennaf 1, yn dawel yn Ysbyty Bryn Seiont, Caernarfon, bu farw Mr John Phillips, 3 Groeslon yn 87 mlwydd oed. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â'i briod Mrs Elizabeth Phillips a'i fab a'i ferch a'u teuluoedd yn eu profedigaeth a'u hiraeth.

Ar Orffennaf 2 yng Nghartref Plas Pen Gwaith, Llanberis, bu farw Mrs Elizabeth Davies, Noddfa, yn 86 mlwydd oed. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â'i mab a'r teulu yn eu profedigaeth.

DIOLCH: Dymuna Sidney Williams, 5 Dôl Afon, ddiolch o galon i'w theulu a'i ffrindiau, meddyg teulu, meddygon a staff Ward Ogwen, Ysbyty Gwynedd am bob caredigrwydd a gofal a dderbyniodd tra bu yn yr Ysbyty ac ar ôl dod adref.

Dymuna Mrs Megan Jones, 21 Dôl Afon, ddiolch i'w theulu a'i ffrindiau am y llu cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar ei phenblwydd yn 65 oed.

CLWB POBL Y CWM: Yn ystod egwyl yr haf, bu'r aelodau, a rhai ffrindiau am drip i Wrecsam, lle cymharol ddieithr i amryw ohonom.

Gyda'r haul yn gwenu, roedd y daith yn bleserus, a'r siopau yn diddorol, a phawb wedi mwynhau eu hunain yn ardderchog.

Yn ogystal, buom yn cynorthwyo yn yr ysgol ddiwrnod y Mabolgampau, hyn yn ein galluogi i gyfrannu tuag at Gronfa yr Ysgol Gymuned, gan ddiolch i rai nad ydynt aelodau o'r Clwb am eu cyfraniad gwerthfawr.

Bwriadwn ddechrau tymor newydd ar Fedi 13eg, pryd y cawn egwyl o Bingo, a chyfle i drafod a dechrau trefnu Rhaglen y Tymor.

YSGOL GYMUNED CWM Y GLO: Erbyn y bydd hyn o lith yn ymddangos bydd Gwyliau'r Haf wedi bod a wedi mynd a dim ond atgofion am haul ar ein boliau i'n cadw yn ddiddos wrth feddwl am wynebu tymor arall.

Ar ddiwedd tymor eithriadol o brysur, gallwn eistedd yn ôl a meddwl am yr holl weithgareddau a amrywiodd o daith i Sŵ Bae Colwyn (ac er cael ein temtio — wnaethon ni ddim gadael neb ar ôl yno — yn y cawell efo'r 'teulu'), noson agored i rieni, a Mabolgampau'r Ysgol, pryd y bu tîm Rhythallt yn fuddugol a Kevin a Shelley yn bencampwyr.

Rhywbeth arall a fu ymlaen oedd gêm Rownderi rhwng y plant a'r rhieni. Er mai'r rhieni a orfu (gair da 'te) cafodd pawb fwynhad yn Amffitheatr Cwm y Glo (Cae Chwarae'r pentref i chi sydd ddim yn gwybod am yr amffitheatr) ac wedi'r profiad o redeg a thaflu a dal pêl, deallwn fod rhai o famau yr ardal wedi mentro ffurfio tîm rownderi. Oes rhywun yn ddigon dewr i roi sialens iddynt, tybed? Ella y daw yr 'Ynys Môn Select XV' draw i chwarae yn eu herbyn, ryw dro.

Braf yw cael dweud, eto, fod llawer o blant wedi ennill gwobrau mewn gwahanol gystadleuthau. Yn eu mysg yr oedd Christopher Rouchy a gafodd dystysgrif gan cadbury's am waith arlunio.

Dau ddigwyddiad arall, gwerth eu nodi yw y Disgo a gynhaliwyd ddiwedd y tymor i ffarwelio â phlant Dosbarth 4 wrth iddynt ein gadael am Ysgol Brynrefail. Eu rhieni nhw drefnodd y cyfan ac wrth werthu cŵn poeth (na, nid Rottweilers!) a 'ballu, fe godwyd ymhell dros gan punt i Gronfa'r Ysgol. Diolch o galon i bawb a drefnodd noson lwyddiannus dros ben.

Cawsom noson arbennig o dda wrth grwydro'r Cwm yn chwilio am atebion i gliws mewn Helfa Drysor hefyd. Wyddwn i ddim fod rhai o'r llefydd mewn bodolaeth!! Taswn i dipyn 'fengach, mi fuaswn wedi rhedeg o flaen pawb ond ar noson o dywydd bendigedig yr oedd yn werth arafu dipyn a gweld y golygfeydd gwych o'r môr a'r mynyddoedd (a Ynys Môn, wrth gwrs!). Diolch i'r ddau drefnydd am gael haul a hwyl i bawb ac am gyfrannu yr elw i Gronfa'r Ysgol.

Gobeithio bod Carys wedi mwynhau ei hun yn y gegin efo Mrs Hughes a gobeithio bod pawb arall wedi cael budd mewn cyfarfodydd ffurfiol a llai ffurfiol y tymor, ac yn fwy na dim, gobeithio bod pob un wedi cael gwyliau difyr.

Fy neges olaf am y tro yw, os ydw i o ardal 'Y Glorian' yn sgwennu i'r Eco, oes yna rywun efo rywbeth i'w ddweud wrth 'Y Glorian'?

Hwyl fawr a hei leiff!!!

HELFA DRYSOR: Cynhaliwyd Helfa Drysor o amgylch Cwm y Glo ar Orffennaf 17. Gwnaed y gwaith caled gan Mrs Avril Jones a Mr dafydd Price a mawr yw diolch pawb fu ar y daith am eu llafur. Diolch o galon. Cafwyd noson arbennig o ddidorol a hwyliog.

Y byddugol oedd Iola a Gareth Davies. Yn ail — Liz a Bethan, Sioned ag Arwyn a Leslie a Howard. Y wobr gysur i Ben a Mrs Green.

Yr oedd nifer o rafflau wedi eu rhoi trwy garedigrwydd pobl leol a'r rhai ffodus ar y noson oedd: Dafydd Llwyncoed (Atlas); Carys Bryn (Torch); Terry Bryn (Gwin); Liz Dolafon (Talc); Carys Bryn eto (Drewi neis); Gareth Price (Offer Desg); Delyth (Cas Pensiliau a llyfr.

Dymuna Avril a dafydd ddiolch i bawb am eu cefnogaeth a'r rhoddion a dderbyniwyd.

Dymuna Pennaeth yr ysgol ddiolch i bawb hefyd, ac yn arbennig felly am y rhodd o £40.00 tuag at Gronfa'r Ysgol.

MABOLGAMPAU'R PENTREF: Er i Bwyllgor yr Adran Gymuned fethu trefnu tywydd ffafriol eto eleni, daeth nifer dda o bobl a phlant i'r ysgol ar sadwrn, Gorffennaf 7, i gynnal mabolgampau.

yn ôl yr hyn a ddigwyddodd y diwrnod hwnnw, mae ysbryd cymunedol Cwm y Glo yn fyw ac yn iach a chafodd pawb amser difyr yn prynu, gwerthu a chystadlu.

Dymuna'r trefnwyr ddiolch i bawb a fu mor garedig eu rhoddion, eu llafur a'u hamser i wneud y prynhawn yn llwyddiant. Aeth y Trysorydd adref efo gwên fawr ar ei wyneb gan i ni wlyddo i godi swm o £231.00

Diolch i bawb am eu cefnogaeth a gobeithiwn yn fawr allu trefnu gwell tywydd y flwyddyn nesaf.

Dyma'r canlyniadau:

**Ras Babanod:** 1, Claire Pritchard; 2, John Callahan; 3, Ceri Davies. **Genethod 4 a 5 oed:** 1, Margaret McKee a Karrah Williams (cyf). **Bechgyn 4 a 5 oed:** 1, Owain Jones; 2, Keith Williams; 3, Matthew Barnicott.

**Genethod a Bechgyn 6 a 7 oed:** 1, Donna Michael; 2, Llŷr Morris; 3, Daniel Owen; 4, Ben Chidwick. **Genethod 8 a 9 oed:** 1, Kelly Jones; 2, Sarah Wager; 3, Sarah Lyn Jones. **Bechgyn 8 a 9 oed:** 1, Kevin Williams; 2, Rhys Morris; 3, Huw Davies. **Genethod 10 a 11 oed:** 1, Bethan Hughes; 2, Donna Williams; 3, Iola Davies.

**Bechgyn 10 a 11 oed:** 1, Martin Parry; 2, David Wager a Bryn Evans; 3, Tony Roberts. **Bechgyn 12 a 13 oed:** 1, Dafydd Williams a Terry Williams; 2, Gareth Davies; 3, Darren Jones. **Bechgyn 14 a 15 oed:** 1, Owain Gwyn; 2, Dylan Davies.

**Ras Taircoes — Genethod:** 1, Bethan Hughes a Donna Williams; 2, Iola Davies a Melanie Owen; 3, Sarah Lyn Jones a Sarah Wager. **Ras Taircoes — Bechgyn:** 1, Terry Williams a Martin Parry; 2, Tony Roberts a David Wager; 3, Dafydd Williams a Darren Jones.

**RAS BEIC ARAF — Babanod:** 1, Mathew Barnicott; 2, Ben Chidwick; 3, Keith Williams. **Bechgyn Ysgol Gynradd:** Kevin Phillips. **Genethod Ysgol Gynradd:** Iola Davies. **Bechgyn Ysgol Uwchradd:** Dylan Davies.

**Ras Berfa:** Bethan Hughes a Donna Williams. **Ras Berfa:** Darren Jones a Dylan Davies.

**Ras Llwy a Thatw (4 ras wahanol):** Ras 1 — Carolyn Michael; ras 2 — Tony Roberts; ras 3 — Darren Jones; ras 4 — Gareth Davies.

**Merched dros 17:** Judith Pritchard. **Dynion dros 17 — Ras Beic Araf:** Elfed Parry. **Ras Mewn Sach (3 ras wahanol):** Ras 1 — Sarah Lyn Jones; ras 2 — Eluned Davies; ras 3 — Martin Parry.

**Ras Gyfnewid:** Tîm Eluned a tîm Martin. **Taflu Wellington:** Dosbarth Mrs Williams — Daniel Owen; Genethod dan 11 — Bethan Hughes; Bechgyn dan 11 — Martin Parry a Tony Roberts; Ysgol Uwchradd — Owain Gwyn; Merched — Linda Parry; Dynion — Clive Green.

Dyma enillwyr Raffl Mabolgampau'r Pentref: 5 Tai Craig y Don (£10); Bryn Evans, Min y Don, Brynrefail (Tyllan a Hermit — Leonardo); Margaret Williams, Bryn (Crys T); Martin Parry, 2 Glandŵr, Cwm y Glo (Tocyn Llyfr £5); Sarah Wager, 5 Tai Orwig, Brynrefail (Sieri); Myfanwy Roberts, Bod Gwilym, Allt Goch, Cwm y Glo (Basged o Sebon); Mrs Gwyneth Chick, Rhos y Ffin, Cwm y Glo (Lluniau Mawr); Mrs Jean Hughes, 2 Bryn Gro, Cwm y Glo (Potel o Win); Mair Williams, Bwlch (Vase); Paula ac Alan Roberts, Tynygaer (Gwin); Martin Parry, 2 Glandwr, Cwm y Glo (Dau Lun Mickey Mouse); Sandra Jones, Snowdon (Gwin); 5 Tai Craig y Don (Oren); Rhys Morris, Meini Gleision, Brynrefail (Bisgedi); Mrs Parry, Hebron, Cwmyglo (Bisgedi); Gareth Davies, Bryn Madog, Brynrefail (Bisgedi).

Rhif Lwcus: Doreen Fleetwood, New Street, Cwm y Glo.

**Wrth edrych ar Eryri,**
**Ein harddwch Cymru fach.**
**Y Peilon du sydd yma,**
**Yn hagru, Cymru Bach.**

**Bwrdd trydan a ddaeth yma,**
**I dyllu'r chwarel hon,**
**A'r hogia tlawd sydd gorffwys,**
**O lwch, y chwarel hon.**

**Mae toman ddu y chwarel**
**Yn nawr'n atgoffa ni,**
**Y corn yn awr sydd dawel,**
**A'r deuly'n hogia ni.**

**Yn nawr y mae ei henwau**
**Ar hud y beddau bras**
**Y chwarel sydd yn dawel**
**A'r grug, a'r doman fras.**

**O gofio corn y chwarel**
**Y llwch, y llaith, a'r baw,**
**Cawn ninnau heddiw wrando**
**Am arwydd oddi draw.**

**W.H.W., Arfryn, Llanrug.**

**CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR**


**IEUAN WILLIAMS**
Glanffrwd
**DEINIOLEN**
**Llanberis 870484**
★ Bysiau o 12 i 53 sedd
★ Teithiau Lleol a Thramor
★ Gwaith Contract
★ Telerau arbennig i bensiynwyr, myfyrwyr a phlant ysgol



Am bob math o **WYDR** wedi'i **DORRI, DDANFON NEU EI OSOD.**
cysylltwch â
**Barrys GLASS**
**Camelot, PENISARWAUN**
**Ffôn: Llanberis 871144**

# Agor Ffiniau'r Gorffennol

**Gan Mary Lloyd Williams, B.E.M.**

## HELYNT GWERTHU LLO TEW, 1901

**Y mae bron gan mlynedd wedi pasio ers pan fu'r helynt rhwng Ioan Brothen ac Ifan Lloyd, Cigydd, Tanygrisiau, Blaenau Ffestiniog. Cefais yr hanes mewn llyfryn o'r enw 'Llinell neu Ddwy' gan Ioan Brothen 1868-1940, golygwyd gan John W. Jones, Blaenau Ffestiniog. Y mae'r Rhagair wedi ei ysgrifennu gan T. Gwynn Jones M.A., D. Litt. Argraffwyd 1942.**

Digwyddodd yr helynt gyda'r Llo Tew yn 1901, ond gallasai fod wedi digwydd heddiw wrth gwrs.

Mam Ioan Brothen oedd wedi magu'r llo ac wedi ei werthu i'r cigydd. Jane Jones, Hafod y Mynydd, oedd enw Mam Ioan Brothen. William Edwards, sef Gwilym Barlwyd ddaeth a'r pres am y llo oddi wrth y cigydd Ifan Lloyd. Aeth yn ffrae rhwng Ioan Brothen a Gwilym Barlwyd, gan eu bod yn gweithio yn yr un gwaith. Ond mi orffennodd y ffrae yn ddymunol, fel mae arfer pob ffrae wrth gwrs!



*Ioan Brothen a J. W. Jones.*

**Cwyn am y Llo Tew**

I Ioan am esgyrn llym osgo — saith
 Swllt ar hugain eto:
Hen gigydd gadd ei gogio
Yrr yn llawn arian y llo

*Gwilym Barlwyd*

**Yr Ateb**

Gwael oedd hau geiriau ar goedd — am y llo
 Mai llym esgyrn ydoedd:
Hwn wnai ginio i gannoedd,
A llo di-golled oedd.

*Ioan Brothen*

**Nage, Llo Tenau**

Na, llo tenau, llwyd hynod — oedd ei wedd
 Wael, efo un o'r silod:
Ioan bach, y lleia'n bod,
A'i esgyrn trwy ei wasgod.

Mi brofais y llwm bryfyn, — a gwn i
 Mai gwan oedd. Rwy'n gofyn
Mewn cyffraw, beth ddaw o ddyn
A fola'r fath ddrychfilyn?

*Gwilym Barlwyd*

**Odlau Llym ar Ddadl y Llo**

Yn araf, fardd anwiredd — a hacrwch,
 A'ch geiriau sy'n ffoledd:
Dewis silod disylwedd
Ni wnai Lloyd i ni yn wledd.

Nid rhyw swp o natur sâl — oedd ein llo
 Ddeuai'n llwyth i'ch ardal:
Y cwestiwn yw ddaeth cystal
O lo tew am leied tâl?

Nid dyn a bryn bryfyn am bres — yw Lloyd
 I ladd peth mor afles:
Ac ar briffordd ei broffes,
Myn lo iawn er mwyn ei les.

*Ioan Brothen*

**Ha! Goblyn dyma gabledd**

Rhy annuwiol 'rhen Ioan — nodi llwyth
 Gwneud llo tew o'r bychan:
E' wnaethai bro fel nyth brân
Y tro i guddio'r truan.

Diferu mae dy glodforedd — yn llif
 Am y llo bach llymwedd:
Moli o hyd, sôn am wledd,
Ha! goblyn dyma gabledd.

*Gwilym Barlwyd*

**Gwarth Ei Werthu**

Er gwaethaf pob pregethu — mae Gwilym
 Y gelach yn haeru
Bod ein llo'n un digon du,
Yn warth i neb ei werthu.

Er i hwn gael ei sarhau — roedd ei wedd
 Yn bur dda hyd angau:
A digonwyd ugeiniau
O gegau brwd a'i gig brau.

Oferedd mawr, gufardd mwyn, — oedd y sen
 Ddi-sail roed o'r cychwyn.
A gwn ddaeth neb mewn gwenwyn
Heblaw chwi, o gwbl, â chŵyn.

*Ioan Brothen*

**Llwch y Llo**

Wel, hoff wag, ar ôl ffugio — ysgarmes
 Ai gormod cydfloeddio
'Oes Heddwch' uwch llwch y llo?
Be waeddwn? Felly byddo.

Wedi atal ysmalio, — â'r brefwr
 Brofais, — gair da iddo,
Rhagorol wir! O! gyr lo
'Run natur i ni eto.

*Gwilym Barlwyd*

**'Heddwch' i lwch y llo**

Minnau o'm bodd os mynnwch, — er y lladd
 Fu ar y llo, credwch,
Gyhoeddaf ddiddig heddwch
Yn uchel iawn, uwch ei lwch.

Heddiw yn deg rhoddwn daw — ar y ffrae
 Gywir ffrind, yn ddistaw:
A dylem ysgwyd dwylaw
I ymlid drwg deimlad draw!

*Ioan Brothen*

**Profiad Ioan Brothen yn Britho**

Britho mae Ioan Brothen — a gwaelu
 Mae'r golwg mewn niwlen:
Dirywia blodau'r awen,
Oes y bardd sy'n nes i ben.

Anodd yw cynganeddu — yn union
 A henaint yn nesu:
Hen anian sy'n diflannu,
Gwir bŵl yw, rhagor y bu.

Ac yr ydwyf yn credu, — fe weriais
 F'oriau i rigymu:
Mwy o wledd fydd gemau lu
Y to ifanc sy'n tyfu.

*Ioan Brothen*

**CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR**

# CAEATHRO

**Mrs Beryl Roberts, Gerallt, Erw Wen. Ffôn: C'fon. 3536**

LLONGYFARCHIADAU i holl bobl ifanc y pentref sydd wedi llwyddo yn eu haroliadau. Pob lwc iddynt oll yn y dyfodol.

CYDYMDEIMLWN â Mrs Mary Henderson, 6 Erw Wen, ar golli ei hannwyl ŵr Frank ar ôl hir waeledd.

GWASANAETHAU'R CAPEL: Pregethir gan y canlynol yn ystod mis Medi: 2il — Ifor Rowlands; 9fed — H. Parry Jones; 16eg — Gareth Maelor; 23ain — Erfyl Blainey; 30ain — John Hughes.

SIOE'R PENTREF: Cynhaliwyd y sioe dydd Sadwrn 18fed Awst yn y Festri. Yn Nosbarth 1 (blodau) enillwyr y tariannau oedd: Eitemau 1-6: Ifor Hughes; 7-9 Ifor Hughes; 10-14 Deiniol Hughes; 15-18 John Pritchard, gyda Deiniol Hughes yn derbyn Cwpan Plas Treflan a John Pritchard gwobr arbennig y beirniad, Mrs Iona Hughes, am ei Fiwsia.

Enillwyr y tariannau yn Nosbarth 2 (llysiau) oedd: 1-4 Deiniol Hughes; 5-8 Ifor Hughes; 9-13 Ifor Hughes; 14-17 Ifor Hughes; 18-21 Deiniol Hughes. Rhoddwyd Cwpan Cefn Gof a Chwpan Clwb Garddio i Ifor Hughes.

Yn Nosbarth 3 (coginio) cyflwynwyr tariannau fel a ganlyn: 1-3 Vera Roberts; 4-6 a 7-8 Llinos Griffiths; 9-12 Alwen Hughes; 13-16 Einir Roberts; 17-19 Llinos Griffiths; 20-22 Vera Roberts; 23-25 Heather Jones; 26-29 Eirlys Pritchard. Enillydd Cwpan Clwb y Merched oedd Vera Roberts.

Yn Nosbarth 4 (gwaith llaw) yr enillwyr oedd Edwina Wyn Hughes, Doris Muhelfeld, Nia Wyn Jones, Heather Jones, ac Eirian Roberts.

Yn Nosbarth 5 (plant 6 ac o danodd) yr enillwyr oedd Catrin Roberts, Rhys Roberts, Dona Roberts a phlant Tyddyn Cae. Roedd gwaith y plant rhwng 7 ac 11 oed yn ardderchog — Elfyn Roberts, Gareth Griffiths, Deian Parry Jones ac Aaron Evans. Manon Hughes, Eirian Roberts a Arwel Griffiths oedd yn fuddugol rhwng 12 a 15 oed. Eirlys Pritchard oedd enillydd y raffl.

Diolchodd y cadeirydd, Clive James, i bawb am eu cefnogaeth, yn bwyllgor, cystadleuwyr, gwylwyr, beirniaid a phlant.

## DRAENOG



**Da deall nad yw diweithdra yn broblem i ambell un yn y fro. Clywed rhyw si yn ddiweddar fod ffermwr o'r fro wedi cychwyn busnes trin ceir — gyda gimic go anarferol i ddenu cwsmeriaid. Mae . . . ??? yn cynnig gwasanaeth noethlymun i bob merch sydd angen trwsio pyncjar. Dechreuodd ar y gwaith yn ystod gwres tanbaid fis Awst. Sgwn i sut fydd y gimic hon yn denu yng nghanol rhewynt gaeaf?**


I drin a thrwsio pob math o beiriannau gwnïo
MENAI SEWING MACHINE CENTRE
40 Stryd Fawr PORTHAETHWY
Ffôn: (93) 714043 neu Caernarfon 4520
edau, nodwyddau ac ati mewn stoc

Beth am ddysgu dreifio gydag YSGOL YRRU BETHEL

TACSI CARIAN
✱ Pell ac agos
✱ Stesion, Maes Awyr, Porthladd
✱ 24 awr y dydd

Cysylltwch â Dic ac Eirlys
42 Bro Rhos, Bethel
PORTDINORWIG 671009

MAE'R SAMARIAID YN GWRANDO, YN ABBEY ROAD
BANGOR 354646

## CLWB FFERMWYR IEUAINC CAERNARFON . . . YN SIOE FRENHINOL CYMRU

Un o uchafbwyntiau clybiau ffermwyr ieuainc Cymru yn genedlaethol yw Sioe Frenhinol Cymru yn Llanelwedd lle y cynhelir nifer o wahanol gystadleuthau i'r aelodau fel dawnsio gwerin, gwaith coed, beirniadu defaid a gwartheg, cneifio, gwnïo, arddangosfa symudol, a choginio. Pleser Caernarfon oedd cynrychioli Eryri eleni mewn tair cystadleuaeth.

Dydd Llun, Gorffennaf 23, arddangosfa symudol oedd y gystadleuaeth roeddem yn cynrychioli Eryri ynddi. Roedd hon ar ffurf rafft. Thema ein rafft oedd Sâm Tân, gyda bareli a phlatfform coch fel sylfaen i'r injan dân a Sam wrth y llyw a'r aelodau wedi eu gwisgo fel dynion tân. Yn ystod y prynhawn beirniadwyd y rafft ar y cae am edrychiad ac addurno, a cymerwyd rhan mewn gorymdaith o amgylch y Cylch Mawr.

Gyda'r nos bu ras ar yr Afon Gwy am tua milltir nes roedd pawb yn wlyb domen. Roedent werth eu gweld — Robin a Gail Warrington, Tudur Parry, Dafydd Philips, Rhys Morgan a Gwen Jones oedd y dynion tân. Dagfed oedd y canlyniad ar ddiwedd y dydd.

Tro Sioned a Tudur Parry oedd hi dydd Mercher, Gorffennaf 25, yn y gystadleuaeth coginio dan 18 oed. Y dasg oedd coginio un eitem o focs o nwyddau a gawsant yn y gystadleuaeth. Tasg anodd iawn ond gwnaeth Sioned ei gorau i gadw trefn ar Tudur a gwneud iddo weithio'n galed. 'Spaghetti Bolognese' oedd yr eitem a wnaethant. Dyfarnwyd y bedwaredd wobr iddynt mewn cystadleuaeth dda iawn.



Sioned a Tudur wrthi'n coginio.

Bu Gwen, Gail, Nia a Sioned yn brysur yn gwneud paned yn bar coffi'r Ffermwyr Ieuainc ar y dydd Mercher hefyd. Diolch iddynt am fod mor barod eu cymwynas.

Gwawriodd dydd Iau, Gorffennaf 26 a pawb yn edrych ymlaen am droi y car tuag adref ond roedd un gystadleuaeth ar ôl sef y dawnsio gwerin. Y dasg y tro hwn oedd dawnsio dwy ddawns; un orfodol, sef Tŷ Coch Caerdydd, ac un arall o ddewis ein hunain. Y Gelynnen a ddewisiom. Cafwyd cryn hwyl ar y dawnsio yn y gwres tanbaid ac er na ddaethom i'r brig roedd pawb yn fodlon gyda'u perfformiad gan mai hwn oedd y tro cyntaf ers blynyddoedd i'r clwb gynrychioli Eryri yn y gystadleuaeth hon. Y tîm oedd Gwen, Gail, Nia, Tudur, Eurwyn, ac Alwyn yn dawnsio Tŷ Coch Caerdydd, a Bethan, Gail, Nia, Eurwyn, Elwyn, Arwel a Tudur yn dawnsio'r Gelynnen.


Carai'r aelodau ddiolch yn fawr i Bethanne Williams, Llanrug am eu hyfforddi yn y dawnsio gwerin; i bawb a'n cynorthwyodd gyda'r rafft, yn enwedig Mr Terry Warrington a Mr Collwyn Williams, i'r rhai fu'n cynorthwyo i gario'r rafft ar gae y Sioe ac i Geraint am yrru'r car. Diolch i'r rhieni fu yn y sioe yn ein cynorthwyo a'n cefnogi. Diolch yn fawr bawb.

Bydd y clwb yn ail ddechrau diwedd mis Medi. Cynhelir y cyfarfodydd yn Neuadd Bethel am wyth o'r gloch bob nos Fawrth. Croeso i unrhyw un ymuno â ni os ydych dros bedair ar ddeg oed. Mae llawer o hwyl i'w gael wrth ymuno â Chlwb Ffermwyr Ieuainc.

Os ydych eisiau mwy o fanylion, ffoniwch Felinheli 670071.



Rafft Sam Tân cyn ei beirniadu, gyda Robin, Gail, Tudur, Dafydd, Rhys a Gwen.



Tîm dawnsio gwerin — gyda Gwen ac Alwyn ar goll.

# PWYLLGOR CYLCH ARFON
## CYMDEITHAS CYNGHORAU BRO A THREF CYMRU

Mynegwyd pryder yng nghyfarfod diwethaf Pwyllgor Cylch Arfon o Gynghorau Bro a Thref Cymru am fod nifer o gynghorau cymuned Cymru wedi eu dileu yn sgil Treth y Pen.

Mae Pwyllgor Cylch Arfon nawr wedi danfon llythyr brys at bencadlys Cynghorau Bro a Thref Cymru yn galw am eu harweiniad. Dywedodd Cadeirydd Pwyllgor Cylch Arfon, y Cynghorydd Alun Ffred: 'Mae nifer o gynghorau cymuned ardal Arfon yn cynrychioli nifer fach iawn o etholwyr, ac yn naturiol rydym yn poeni am eu dyfodol.'

Mae Cymdeithas Cylch Arfon hefyd wedi gwahodd Prif Swyddog Cynllunio Cyngor Sir Gwynedd, John Lazarus i'w cyfarfod nesaf i drafod cwynion fod gwasanaeth bysiau yn Arfon wedi dirywio.

Cynhelir y cyfarfod ar nos Lun, Medi 3 yn yr Institiwt am 8.00 o'r gloch. Bydd pwyllgor y Gymdeithas am 7.00 o'r gloch, ac mae croeso i unrhyw gynghorydd cymuned i fynychu'r cyfarfodydd.

### RASUS MYNYDD LLEOL YM MIS MEDI

**Sadwrn 15fed: ELIDIR FAWR. Cychwyn o Ty'n Llan, Nant Peris. 2800' o ddringo. Cychwyn am 12.30 pm £3.00 dros 18 oed.**

**Sadwrn 22ain: PEDOL PERIS. Cychwyn o Westy Victoria, Llanberis. 8400' o ddringo a phellter o 18 milltir. Cychwyn am 11.00 am. £3.00 dros 18 oed.**

# LLYTHYRAU

## PWY ALL HELPU?

*Annwyl Olygydd,*

*Bydd ACEN yn lansio cyfres newydd sbon o'r enw **Now You're Talking** ar S4C ddechrau Hydref i bobl sydd am ddechrau dysgu'r Gymraeg. Gan ein bod yn gwybod na fydd llawer o'r gwylwyr, am wahanol resymau, mewn sefyllfa i fynychu dosbarthiadau ffurfiol, rydym yn awyddus i drefnu grwpiau anffurfiol a fydd yn rhoi cyfle i rai ohonynt ddod at ei gilydd o bryd i'w gilydd. Bydd CYD yn cydweithio â ni yn hyn o beth.*

*Pwrpas y llythyr hwn yw gofyn a fyddai rhai o'ch darllenwyr â diddordeb mewn cynorthwyo yn y grwpiau.*

*Pwysleisiwn na fydd disgwyl i'r gwirfoddolwyr wneud unrhyw waith dysgu ffurfiol — dim ond cynnal brwdfrydedd a sicrhau cynanu cywir.*

*Byddwn yn ddiolchgar iawn pe byddai modd i unrhyw un sydd yn fodlon ystyried helpu grwp lleol gysylltu â ni trwy ysgrifennu at* ***Acen, Blwch Post 4000, Caerdydd CF5 2XT*** *neu ffonio Caerdydd (0222) 786522.*

*Yr eiddoch yn gywir*

*ELEN RHYS*

## CLWB GWERIN Y COED

*Annwyl Olygydd,*

*Yn ddiweddar aethom ni a rhai plant lleol sydd yn aelodau o Gwerin y Coed, i dreulio penwythnos yn gwersylla yn Llangoed, Sir Fon (22 o blant a 11 o oedolion).*

*Cawsom lawer iawn o hwyl gyda'r plant yn cyfrannu ym mhopeth, yn goginio a threcio, ymchwilio ar y traeth, gemau, a chanu mewn cylch wrth y tân.*

*Oes rhywun â diddordeb mewn cael gwybod mwy?*

*Mae clwb Gwerin y Coed yn ailddechrau nos Wener, yr wythnos gyntaf o fis Medi am 6.00 o'r gloch yn yr Hen Ysgol, Dinorwig.*

*IORWERTH ac ANN JONES,*

*Fron Deg,*

*Deiniolen.*

# GWELLIANNAU FFYRDD

Mae cymorthdaliadau nawr ar y gweill i wella cyflwr yr A4085 rhwng Beddgelert a Chaernarfon yn ôl y Cynghorydd Sirol, Eurig Wyn o'r Waunfawr.

Byd cymorthdal o £80,000 ar gael i gychwyn y gwaith sydd ei angen ger Capel Salem, Betws Garmon, a £85,000 yn ychwanegol ar gael y flwyddyn ganlynol i wella'r ffordd yn Nhro Clogwyn Rhyd Ddu.

Dywedodd y Cynghorydd Eurig Wyn, sy wedi bod yn pwyso am i'r arian gael ei ryddhau: 'Rwy'n falch eithriadol fod y cynlluniau hyn i fynd ymlaen o'r diwedd, ond rwy'n hynod siomedig er hynny na fydd yr arian ddim ar gael tan 1992/93. Roeddwn wedi bod yn gobeithio y gellid dechrau ar y gwaith ynghynt. Ond o leia mi fydd hyn yn ryw fath o gysur i frodorion Betws Garmon a Rhyd Ddu. Yn y dyddiau hyn o doriadau parhaus o du y llywodraeth ganol, mae cael rhyw fath o ddyddiad pryd y gobeithir cychwyn ar y gwaith yn galondid o ryw fath.'

# HELP! MEDD CYMDEITHAS RHIENI AC ATHRAWON YSGOL BRYNREFAIL

Mae Cymdeithas Rieni ac Athrawon Ysgol Brynrefail yn anfon llythyr at rieni'r Ysgol Uwchradd yn apelio am fwy o gefnogaeth i'w gwaith. Medd yr Ysgrifennydd, John B. Jones, Deiniolen: 'Apeliaf yn arbennig ar bobl i ymuno â'r Clwb Cant. Bydd siawns i ennill gwobrau hael ac mi fydd yr holl arian sbâr yn mynd tuag at ddarparu adnoddau i'r Ysgol.'

Ychwanega John Jones: 'Nid codi arian ydi prif bwrpas y Gymdeithas ond o dro i dro mae angen hwb ar Gronfa'r Ysgol. Y llynedd cynigiwyd arian mawr i'r ysgol i brynu cyfrifiaduron a chyfarpar arall, ar yr amod fod yr Ysgol ei hun yn medru canfod £2,000. Roedd yn gynnig rhy dda i'w wrthod a phenderfynwyd derbyn yr her o gasglu'r pres er lles y plant.

'Bu costau mawr hefyd o ganlyniad i ddifrod a lladrad yn yr ysgol. Teimla Pwyllgor y Gymdeithas ei bod yn ddyletswydd ar rieni i helpu'r ysgol i roi hwb 'extra' i'r disgyblion.'

Yn ystod y flwyddyn a aeth heibio, bu'r Yrfa Chwist yn llwyddiant ond ni fu cefnogaeth i fwriadau eraill y Gymdeithas. Trefnwyd noson adloniant yng Nglangwna ym mis Mawrth gydag artistiaid enwog ond bu'n rhaid diddymu'r holl drefniadau yn y diwedd.

Mae John Jones yn gobeithio y ceir gwell lwc eleni. meddai: 'Cychwynnir gweithgareddau'r flwyddyn â Sioe Ffasiynnau i ddilyn cyfarfod blynyddol rhieni'r ysgol, am 7 o'r gloch nos Wener, Hydref 5.'

Os oes unrhyw un o ddarllenwyr Eco'r Wyddfa am ymuno â'r Clwb cant llenwch y ffurflen isod a'i dychwelyd at Y Gymdeithas Rieni ac Athrawon, Ysgol Brynrefail, Llanrug. Am fwy o fanylion, ffoniwch Dr Eurwyn Lloyd Evans, Caernarfon 4989 neu John Jones, Llanberis 871416.

CYMDEITHAS RHIENI AC ATHRAWON YSGOL BRYNREFAIL

ENW ..........................................................

CYFEIRIAD ..........................................................

..........................................................

..........................................................

..........................................................

Dymunaf ymuno â'r Clwb Cant i helpu disgyblion Ysgol Brynrefail

Arwyddwyd ..........................................................

Dyddiad ..........................................................

**AR WERTH**

**Gorchudd golau; cyfar cwilt; cyfar gobennydd a pâr o lenni (maint 90"x48") i gyd o batrwm 'Pierrot'. Addas i lofft geneth. Pris i'w drafod.**

**Ffôn: Caernarfon 3515.**

**ANTUR PADARN**

**Cyfarfod: Nos Fercher Medi 5**

**'Angorfa', Llanberis**

**7.00 o'r gloch**

**Gwesty Dolbadarn**

**LLANBERIS Ffôn: 870277**



**Am groeso cartrefol Cymreig bob amser**

**Aneuryn a Jeanette Jones a'r staff**

*Parhad o dudalen 16.*

cenedlaethol ar gyfer astudio hanes yn ysgolion Cymru. Felly mae ymweliad yr arddangosfa yn gyfnod gwych i ysgolion neu rieni a'u plant ddysgu rhan o'n hanes mewn ffordd ddiddorol a bywiog.

Heddiw mae gwreiddiau Cymreig yr ymsefydlwyr cyntaf yn dal yn amlwg ym Mhatagonia. Mae arwyddion yn dangos y ffordd i Dreorki, Dolavon a Bryn Gwyn; mae enwau'r strydoedd yn adlewyrchu enwau arloeswyr Cymreig; mae'r 'Eisteddvod' yn achlysur diwylliannol o bwys yn Chubut ac mae Gorffennaf 28, y dyddiad y cyrhaeddodd yr ymsefydlwyr cyntaf, yn ŵyl gyhoeddus — Gŵyl y Glanio.

Gellir gweld yr arddangosfeydd, wedi eu noddi gan Lysgenhadaeth yr Ariannin, Aerolieneas Argentina a'r cwmniau teithio Journey Latin America, Llundain a Richards Travel, Llanelli, yn Amgueddfa'r Gogledd, Llanberis o 1 Medi hyd 31 Hydref. Mae'n cynnwys ffotograffau, ffilm 15 munu sydd ar gael yn y Gymraeg, y Saesneg a'r Sbaeneg, ac amrywiaeth o eitemau sy'n gysylltiedig â'r ymfudwyr Cymreig a'r Wladfa. Bydd yno ffigyrau sy'n cynrychioli'r ymsefydlwyr cyntaf, mewn gwisg briodol, a hefyd 'gaucho' o'r Ariannin. Bydd yno enghreifftiau o fywyd gwyllt y Wladfa (wedi'u stwffio) gan gynnwys armellogyn, cath wyllt, adar a guanaco.

# GALW CROESEIRWYR!

Mae nifer ohonoch, yn ôl pob sôn, yn hoff iawn o gwblhau (neu drio, beth bynnag) posau croeseiriau.

Ond, faint ohonoch, tybed, fedr baratoi posau, h.y. gwneud y patrwm a pharatoi'r cliwiau (nid rhy anodd!) Dipyn mwy o sialens nag eistedd yna o flaen y tân gyda beiro a'r Geiriadur Mawr wrth eich penelin!

Mae'r Eco yn chwilio am y ffasiwn berson, person fedr lenwi'r bwlch ym mywydau'r darllenwyr dros fisoedd yr hydref a'r gaeaf. Ai chi yw hwnnw/honno?

Os ydych yn meddwl y gallech baratoi un croesair y mis, yna, plis, plis cysylltwch ag unrhyw un o'r golygyddion.

Gyda llaw, — nid chi fydd yn cyfrannu'r wobr, os bydd teilyngdod; mi ofalwn ni am hynny!

Dyma atebion i'r croesair yn y rhifyn diwethaf:

**Ar Draws:** 1 Sgerbwd; 5 Llygod; 8 Opera; 9 Dyweddïo; 10 Cymanwlad; 12 Wal; 13 Pantri; 14 Cerdded; 17 Nye; 18 Teilyngdod; 20 Arswydo; 21 Wyneb; 23 Tlodi; 24 Darogan.

**I Lawr:** 1 Sionc; 2 Ebe; 3 Blaenwr; 4 Didoli; 5 Llewod; 6 Goddiweddyd; 7 Dioglyd; 11 Manteisio; 13 Pendant; 15 Emynwyr; 16 Dim ond; 18 Twyni; 19 Diben; 22 Nag.

# CARTREF NYRSIO PENISARWAUN

- ★28 Stafell Wely Sengl gyda thy bach a lle ymolchi
- ★2 Stafell Wely Ddwbl gyda "en suite" (delfrydol i barau priod)
- ★Gwres canolog llawn
- ★Sustem ddiogelu rhag tân
- ★Eisteddfa fawr gyfforddus efo teledu lliw
- ★Sustem alw nyrs
- ★Yn Cwrdd â phob angen personol
- ★Lle bwyta mawr
- ★Aros cyfnod hir/byr
- ★Gofal 24 awr y dydd gan staff proffesiynol
- ★Croesawir rhai gyda cymorth D.H.S.S.
- ★Ymwelwyr yn cael galw unrhyw adeg
- ★Coginio cartefol
- ★Metron a staff sy'n siarad Cymraeg
- ★Ar lwybrau bws o Fangor a Chaernarfon

Am fanylion pellach cysylltwch â'r

**Metron Cheryl Williams, Ffôn 872038.**

# CHWARAEON

## ATHLETWYR O FRI

**Ymhlith holl athletwyr dawnus yr ardal, y mae dau fu a'u llwyddiant dros fisoedd yr haf yn eu gosod ris yn uwch na'r gweddill.**

Mae'n anochel bron fod adroddiad am gampau Colin Jones o Bontrug yn ymddangos yn fisol ar y dudalen ôl, gan mor ddisglair yw ei fedr fel rhedwr, a dod i'r brig oedd ei hanes unwaith eto ddydd Sadwrn Gorffennaf 7 ym Mhencampwriaeth Ysgolion Cymru ym Mae Colwyn.

Yn y ras i fechgyn dan 18 oed dros 3000m, bu'n fuddugol mewn amser o 8 munud 48 eiliad, gan dorri'r record fu'n sefyll am 16 mlynedd. Fe ddyfarnwyd y cwpan hardd i'r 'perfformiwr gorau' iddo o ganlyniad, a phwy ddaeth ato i'w longyfarch, fel y gwelir yn y darlun, ond neb llai na Colin Jackson, pencampwr Ewrop a'r Gymanwlad yn y ras 110m dros y clwydi. Enw'r Colin hwnnw a dorrwyd ar y cwpan yn 1982.



Mewn haf hynod o brysur, daeth hefyd yn 5ed ar Orffennaf 21, ym Mhencampwriaeth Ysgolion Prydain a gynhaliwyd yn Edinburgh; yn gyntaf, gan osod record newydd o 36 munud 14 eiliad yn y dosbarth dan 18 oed yn Ras yr Wyddfa ar y 28ain, a bu'n cynrychioli Prydain mewn ras fynydd yn Susa, Gogledd yr Eidal yng nghanol Awst. Yn y dosbarth dan 20 oed, ef oedd y 16eg allan o o 32 yn cynrychioli'r Eidal, Awstria, Ffrainc, Yr Almaen, Y Swistir, America a Phrydain.

Bydd Colin yn parhau â'i deithiau ym mis Medi, pan fydd yn cynrychioli tîm dan 20 oed Cymru yn Awstria yng Nghwpan y Byd i'r rhedwyr mynyddoedd.

Athletwraig yw'r ail sydd dan sylw, ac sy'n byw rhyw hanner milltir yn nes na Colin at Lanrug, sef ym Muarthau.

Mae Haf Thomas newydd ddathlu ei phedwerydd penblwydd ar bymtheg, ond rwy'n siŵr na chafodd anrhegion a roddodd fwy o bleser iddi na'r gwobrau a dderbyniodd yn 8fed cyfarfod Chwaraeon Arbennig Cymru yng Nghaerdydd a Chwmbran rhwng Gorffennaf 13 a'r 20fed.

Fe roddwyd y fraint i Haf, oed yn cynrychioli Ysgol Pendalar a Gogledd Cymru, o gael cyfarch y gynulleidfa ar ran y Gogledd yn y seremoni agoriadol, ac yna, yn y cystadlu, fe enillodd iddi ei hun fedal aur am nofio yn null pili pala dros 60m.

Mae llond cist o fedalau ganddi bellach, ond dyma'r tro cyntaf iddi ennill yr aur. Bu'n llwyddiannus hefyd fel aelod o dimau cyfnewid, gan ennill medal arian yn y tîm nofio a'r efydd am redeg.

Llongyfarchiadau i'r ddau ohonoch.



## MAE'R CWIS YN EI ÔL

**'Doedd atebion cwis mis Mehefin ddim yn y rhifyn diwethaf — ddim yn cofio'r atebion oeddat ti?'**

Dyma'r math o gyfarchiad a brofwyd gennyf rhyw ddeufis yn ôl pan ddaeth rhifyn Gorff/Awst allan o'r wasg, a chydag ymddiheuriad i ddarllenwyr selog y dudalen ôl, dyma nhw.

**Siaced goch** a wisgir gan y milgi sy'n rhedeg yn yr 'inside lane'; velodrome yw'r enw a roir ar drac **rasio beiciau padlo**; y mae'r cwrs motobeics ar Ynys Manaw yn **37 milltir** o hyd; y **Chicago Bears** sy'n chwarae peldroed Americanaidd ar Soldiers Field, a **Mike Harrison** ddaeth yn reolwr Watford ar ôl Dave Bassett. **Terry Venables** oedd y peldroediwr cyntaf i gynrychioli Lloegr ar bob lefel, ac wrth gwrs, y cyn-Brifweinidog **Edward Heath** oedd perchen y cwch rasio Morning Cloud. Y ras ceffylau **Prix de l'Arc de Triomphe** a gynhelir ar Longchamp ac mae Lloegr wedi chwarae criced, peldroed, a rygbi rhyngwladol ar y **Kennington Oval.** Yn olaf, **Seland Newydd** oedd y wlad a fowliwyd allan am 26 rhediad gan dîm Lloegr yn 1955.

MWY?

1. Pwy oedd y cricedwr cyntaf ar ôl yr ail ryfel byd i sgorio cant o gannoedd?
2. Pa dîm Rygbi'r Undeb enwog a elwir y 'Scarlets'?
3. Taro pêl drwy giatiau bach ar y lawnt yw'r gamp yn y gêm 'Croquet' — ond sawl giat sydd yna?
4. Pa ddinas yw'r unig un sydd wedi cynnal gemau'r Gymanwlad ddwywaith?
5. Ym mha gêm mae prifysgolion Rhydychen a Chergrawnt yn cystadlu am y Bowring Bowl?
6. Pa nofiwr o U.D.A. a dorrodd 26 record byd rhwng 1967 a 1972?
7. Pa dîm peldroed sy'n chwarae ar Layers Road?
8. Pwy sgoriodd dair gôl mewn pedwar munud yn erbyn QPR yn 1987?
9. Pa un yw'r tîm hynaf yn y gynghrair beldroed?
10. Beth yw'r unig rif dau ddigid (h.y. rhifau fel 37 neu 79) na ellir ei gael drwy daflu dwy ddart?

## AR RAS O AWSTRALIA

**Yn ystod Ras Antur Waunfawr y llynedd, cyfarfu Gari Davies o Lanberis â gŵr o'r enw Bob Lemar o Adelaide, Awstralia. Canlyniad y cyfarfyddiad oedd i'r ddau benderfynu cyfnewid crysau rhedeg. Wedi dychwelyd i Awstralia, anfonodd Bob Lemar grys rhedeg yr Adelaide Harriers i Gari, ac anfonwyd crys Rhedwyr Eryri yn ôl.**

Ond gwnaeth Bob Lemar gais arall hefyd. Anfonodd linellau o farddoniaeth Gymraeg i Gari yn gofyn am fwy o wybodaeth amdanynt. Yn anffodus, ni roes wybod i Gari ymhle basedd wedi gweld na chopio'r llinellau. Oes rhywun o ddarllenwyr yr Eco all helpu? Dyma'r llinellau:

'Y mae rhyw ysgwyd ym mêr yr esgyrn
Yn deffro anadl yn y dyffrynoedd,
Bydd yno weled gweiniaid yn gedyrn
A bydd eu hanadl fel ias byddinoedd.

Dan heuliau heno, daw hil o'i anadl
A nwyf o eiriau'r hen ŵr cyfarwydd,
A gwn fod ei gân ym mlodau'r banadl
A bod ei stori ym mhob distawrwydd.'

## PYSGOTA — Adroddiad H. P. Hughes

Trwy gydol Gorffennaf, a hyd at yr ail wythnos yn Awst, bu'r 'sgota yn y 'Doldrums' go iawn. Roedd pawb hefo gwynebau hirion yn mynd yn ôl ac ymlaen dros bontydd Penllyn, Rhythallt, Crawia a Pont Rug, yn gobeithio am rhyw wyrth a gweld yr afon mewn lli, ond parahu'n grasboeth wnaeth yr haul.

Cafwyd ychydig o hwyl tra'n 'sgota'r torgoch ar Padarn; mae'r stoc yno wedi cryfhau yn wyrthiol ar ôl effaith adeiladu gorsaf drydan Dinorwig.

Yn anffodus, mae'n ymddangos bellach fod rhan o arwynebedd y llyn yn eiddo i Gyngor Sir Gwynedd, ac maent hwythau am rhyw reswm, yn gadael i bawb sgota arno heb ddim rheolaeth. Os na roir terfyn ar hyn, yn ôl yr hyn yr ydym yn ei weld yn digwydd yno, yn fuan iawn fe wneir mwy o ddifrod i stoc y torgoch na wnaeth Dinorwig.

Rwyf wedi clywed i un 'sgotwr ddal 48 torgoch mewn diwrnod. I beth mewn difrif calon, yn yr oes yma, mae eisiau lladd 'sgodyn mor werthfawr — all neb fwyta hanner cant. Efallai mai'r ffaith fod pris da i'w gael amdanynt gan rai gwestai a thai bwyta, sy'n gyfrifol.

Ychydig iawn o eogiaid a sewin sydd wedi eu dal yn ein dyfroedd. Clywais am rhyw bedwar eog sydd wedi eu glanio yn ardal Caernarfon a rhyw ddyrnaid o sewin.

Cafodd Emyr Owen o Ddeiniolen un yn pwyso tua 5 pwys yng nghyffiniau Llanrug. Fe fachodd Tony Roberts, Penbont, 'sgodyn braf yn Llyn Du, Bont Rhythallt (medda fo!) ond i ffwrdd yr aeth wedi taflu'r bach.

Roedd pawb yn pryderu na fyddai heidiau o sewin yn dod i'r afon eleni (maent wedi methu yng Ngogledd Iwerddon am y ddwy flynedd olaf), ond fe'i gwelais yn llyn Crawia brynhawn Sul y 19eg o Awst. Mawr oedd fy llawenydd ac ar y pnawn dilynol fe fachais fy nghyntaf o'r tymor, un braf 1 a thri chwarter pwys. Dyna fi'n fodlon am rhyw ychydig eto.

## RAS YR WYDDFA




*Hefin Griffiths o Feddgelert, 4ydd, a'r Cymro Cyntaf (1 awr 6m 38 eil).*




*Fergona o'r Eidal oedd yr enillydd mewn awr, 3m a 43 eil.*

ANTUR WAUNFAWR

**RAS ANTUR WAUNFAWR 1990**

Cynhelir 5ed Ras yr Antur ar ddydd Sadwrn, 29ain Medi i ddechrau o'r Ganolfan, Waunfawr am 2 p.m.

**Y BRIF RÂS - RAS 10K**

**RAS HWYL** - I bawb - hen ac ifanc Gyda medal i bawb sy'n gorffen y Ras

Dewch i redeg neu i gefnogi Stondinau etc.